ECO'R WYDDFA

RHIF 350 RHAGFYR 2007 PRIS 40c

Golygydd y Dudalen Flaen

A oes gennych chi drwyn am stori, cysylltiadau lleol a rhyw 3 awr y mis i'w sbario? Cyfle gwych i wneud cyfraniad i'r *Eco* drwy gael stori flaen bob mis Cysylltwch â Geraint Elis, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith ar (01248) 670726.

Lansio Dau Lyfr yn Lleol
– o Ddiddordeb Cenedlaethol

Phyllis Ellis, Meira Turner, Selwyn Iolen, Geraint Lloyd Owen, Eifion Lloyd Jones a Gwilym Owen oedd yn cyfrannu ar noson lansio O Barc y Wern i Barc y Faenol. *Ym mlaen y llun mae Mabon, yntau fel Meira Turner, yn gefnogol iawn i'r holl eisteddfodau lleol led-led Cymru y bu Selwyn yn beirniadu ynddynt.*

O'r Llys i'r Garreg Fawr ac o Barc-y-Wern i Barc y Faenol. Dyna destunau dwy daith ryfeddol o ddiddorol a ddaeth o Wasg y Bwthyn yn ystod wythnosau olaf mis Tachwedd. A dau o hogia bro'r *Eco* fydd yn tywys y darllenwyr ar y teithiau rheini; teithiau a gychwynnodd o fewn tafliad carreg i'w gilydd bron, ond teithiau a aeth â'r awduron ar lwybrau go wahanol ar brydiau.

Dilynwch un i'r Awyrlu ac i Ynys Enlli yn ystod cyfnod clwy traed a'r genau. Ewch gyda'r llall i gae pêl-droed Bolton Wanderers a llwyfan y Genedlaethol. Crwydrwch Gymru benbaladr gydag un i fwynhau nosweithiau llawen, ac i fynychu eisteddfodau gyda'r llall. Ond daw'r ddau â chwi'n ôl yn ddiogel wedi dwy daith fythgofiadwy i'w gwreiddiau yn y fro hon.

Ym Methel y lansiwyd llyfr Selwyn Griffith *O Barc-y-Wern i Barc y Faenol*, ac y mae yntau'n dilyn y daith o fro ei febyd i lawr y lôn i faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Faenol. Ond fel Rol Williams, mae yntau hefyd yn crwydro cryn dipyn oddi ar y ffordd uniongyrchol ac yn ymweld â phob ardal yng Nghymru i feirniadu mewn eisteddfodau, heb sôn am y gwledydd eraill y bu'n treulio gwyliau ynddynt.

Lansiwyd llyfr Rol Williams, *Nid Roc... ond Rol*, yn y Caban ym Mrynrefail. Dyma fro ei febyd, a dilynwch ei daith yr holl ffordd i'r Waunfawr. Mae cryn dipyn o oedi ar y ffordd, wrth gwrs, a chrwydro oddi ar y ffordd uniongyrchol!

Dyma ddau lyfr a ddylai fod yn hosan Nadolig pob un o ddarllenwyr yr Eco; heb anghofio *Gwynfyd Gwaun Gynfi* a gyhoeddwyd yn gynharach y gaeaf hwn. Mae arlwy ddiddorol ac amrywiol i ddenu'r darllenwyr y Nadolig hwn, a cheir mwy o wybodaeth ar dudalen 3.

Rol Williams a Geraint Lloyd Owen yn y Caban, Brynrefail, yn lansiad Nid Roc – ond Rol.

Hysbysebion

Dyma'n draddodiadol y cyntaf o ddau rifyn hysbysebion Nadolig yr *Eco*. Mae'n rhoi cyfle i fusnesau'r fro ddymuno cyfarchion y tymor i bawb o'u cwsmeriaid. Ein diolch ninnau i chwithau, yr hysbysebwyr, am gefnogi'r papur gydol y flwyddyn. A chi, ddarllenwyr, cefnogwch hwy yn ystod y flwyddyn i ddod.

Yn y rhifyn hwn mae cyfarchion Nadolig busnesau **Llanberis, Cwm y Glo, Deiniolen, Penisarwaun** a **Brynrefail**.

Yn y rhifyn nesaf, rhifyn y Nadolig, y bydd cyfarchion busnesau **Llanrug, Bethel, Waunfawr** a **Chaeathro**.

Cofiwch gefnogi'n Hysbysebwyr y Nadolig hwn.

ECO'R WYDDFA

RHIF 350
RHAGFYR 2007
Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tîm Golygyddol
Erthyglau a newyddion at ohebwyr pentref neu i
Penarth
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA
Straeon ac erthyglau ar e-bost
storiau@ecorwyddfa.co.uk

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Llanberis (870740)
eifion@eifionroberts9.wanadoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
DINORWIG: Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt (870740)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon (871820)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Nadolig/Ionawr	11 Rhagfyr	20 Rhagfyr	Ysgol Brynrefail	Eifion Jones	672 381
Chwefror	21 Ionawr	31 Ionawr	Waunfawr	Nan Roberts	650 570

RHODDION

£20: Steffan Roberts, Pen Ceunant, Llanberis.

£10: Moreen Lennon, Plas Tirion, Llanberis; Miss Marian Wyn Jones, Waunfawr; Sioned a Gwion Davies, Bryn Eithin, Waunfawr; Mrs Grace Dawson a'r teulu, Stad Tref Eilian, Waunfawr; Hywel ac Eirlys Williams, 3 Pentre Helen, Deiniolen; Alwyn a Falmai, Rhes Faenol, Deiniolen; Iolo a Nia, Caerdydd; Mrs Jean Walsh, Cartref Foelas, Llanrug; Iolo Eilian, Llanrug; Delyth Williams, Pen y Gaer, Penisarwaun; Mrs Blodwen Pritchard, 10 Llys y Gwynt, Penisarwaun; John V. Morris, Rhianfa, Clwt-y-bont; Nan Wilson Evans, Manod, Ffordd Capel Coch, Llanberis.

£5: Dilys Baylis, Llanberis; Alun a Lona, Rhydfadog, Deiniolen; Daniel Wyn Jones, Deiniolen; Elan, Elena, Bethan a'r teulu oll, Deiniolen; Di-enw, Llanrug; Mrs Catherine Williams, 20 Bryn Tirion, Penisarwaun; R. Elwyn Griffiths, Caernarfon.

CYFARCHION NADOLIG

Oherwydd amgylchiadau, ni fydd Vera Parry, Deiniolen, yn anfon cardiau Nadolig eleni, ond hoffai fanteisio ar y cyfle hwn i ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i aelodau'r teulu a ffrindiau.

Ni fydd Steffan Roberts, Pen Ceunant, Llanberis, yn anfon cardiau Nadolig y flwyddyn hon.

Penderfynodd roddi'r arian a fuasai'n ei wario ar gardiau fel rhodd at Apêl Atgyweirio Eglwys Nant Peris.

Mae'n anfon cyfarchion Nadolig at ei holl ffrindiau a chwsmeriaid, ac yn diolch am eu cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn.

Llythyr

Annwyl ddarllenwyr,

Dyma gyfle gwych i bawb weld *Golwg* am ddim ym mis Rhagfyr, a phenderfynu a ydych am ei brynu am bris bargen yn y flwyddyn newydd!

Dyma ddatblygiad cyffrous arall yn hanes cylchgrawn *Golwg*: lawnsio'r cylchgrawn ar-sgrin. Bydd y fersiwn newydd yn edrych yn union fel y cylchgrawn arferol gan gynnig cyfle newydd i ddarllenwyr ledled y byd:

- Cyfle gwych i berthnasau neu ffrindiau ddarllen Golwg pryd bynnag a ble bynnag y maent yn y byd;
- Gallwch chwyddo neu leihau maint yr ysgrifen ar y dudalen a chwilio drwy'r cylchgrawn cyfan mewn un clic;
- Gostyngiadau pris sylweddol i bawb ac arbedion mawr i bobl sy'n byw dramor fydd am archebu'r fersiwn ar-sgrin, gydag amrywiol opsiynau o ran niferoedd y rhifynnau i'w prynu;
- Cynnig gwasanaeth unigryw ar gyffyrddiad botwm, gan roi cyfle i bobl ar draws y byd gadw'u bys ar byls newyddion Cymru.

Bydd posib gweld y fersiwn ar-sgrin am ddim trwy gydol mis Rhagfyr o safwe Golwg. Ewch draw i www.golwg.com <http://www.golwg.com/>

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y datblygiad yma cysylltwch â ni, (01570) 423529.

Yn gywir,

DEWI SIÔN
Swyddog Marchnata *Golwg*

Diolch

Dymuna pwyllgor Llanberis o'r Lleng Brydeinig ddiolch o galon i'r gwerthwyr, busnesau a'r prynwyr a gefnogodd Apêl Popi 2007.

Diolch hefyd i'r rhai a gymerodd ran yng ngwasanaeth Eglwys Sant Padarn ac yn ddiweddarach o flaen y Gofeb ar Sul y Cofio.

Cyfarfod Blynyddol yr Eco

- Croesawodd y Cadeirydd y 14 oedd yn bresennol a chafwyd 7 ymddiheuriad.
- Cyflwynwyd adroddiad ariannol am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2007 – gweler isod. Diolchwyd i Goronwy am ei waith dyfal yn gofalu am y cyllid.
- Gosodwyr a golygyddion – yn dilyn trafodaeth am y trefniadau gosod a golygu cafwyd enwau 10 sy'n fodlon dod i osod yr *Eco* yn y Sefydliad Coffa, Llanrug, am 5.00 o'r gloch ar y 4ydd nos Sul bob mis. Penderfynwyd hefyd i gyhoeddi'r dyddiad gosod yn yr *Eco* gyda gwahoddiad i eraill ddod i gynorthwyo. Os ceir mwy o wirfoddolwyr gellir rhannu yn ddau dîm i osod bob yn ail mis.
- Penderfynwyd ceisio eto denu gwirfoddolydd i fod yn gyfrifol am y dudalen flaen.
- Cytunwyd i newid mis Llanberis i blygu o rifyn Tachwedd i rifyn Medi a gofyn i Nant Peris os gallant hwy blygu rhifyn Tachwedd.

Cyfrifon

Incwm		
Gwerthiant		5860.03
Hysbysebion		9458.30
Dosbarthu taflenni		250.00
Rhoddion		1779.20
Grantiau		
Bwrdd yr Iaith Gymraeg	1306.00	
Cynghorau Cymuned		
Llanberis	0.00	
Llanddeiniolen	200.00	
Llanrug	550.00	
Waunfawr	0.00	
Betws Garmon	0.00	
		2056.00
Cystadleuaeth Tlws yr Eco		188.85
Llog Banc		266.37
Incwm arall		100.00
		19958.75
Gwariant		
Argraffu		17653.46
Post		404.51
Papur, amlenni ayyb		7.58
Offer		123.34
Costau Gwefan		176.25
Costau banc		0.00
		18365.14
'Elw' am y flwyddyn		**1593.61**

BWRDD YR IAITH GYMRAEG · WELSH LANGUAGE BOARD

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Y RHIFYN NESAF
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
NOS LUN, 11 RHAGFYR
Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, 20 RHAGFYR
Dyddiad Gosod
SUL 16 RHAGFYR am 5.30

Cofiwch ddefnyddio
SWYDDFA POST BETHEL
(01248) 670261
Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

ORIAU AGOR
6 a.m.–7.30 p.m. (Llun–Sadwrn)
6 a.m.–3 p.m. (Sul)

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

Darllen Dros y Dolig

Un o'r pethau gorau am y Nadolig yw cael AMSER. Amser i fod gyda theulu, i ymlacio gyda ffrindiau a hefyd i gael dau funud i eistedd i lawr mewn cornel gyfforddus a darllen llyfr da, gyda bocs o siocled wrth fy ochr, wrth gwrs!

Mae gweisg Cymru wedi bod yn brysur iawn yn meddwl am yr hyn y byddai mam a dad, taid a nain a'r hen blant eisiau eu gweld yn sbecian allan o'u hosan unwaith y daw 25 Rhagfyr, ac mae yna rywbeth i bawb o fyd cyhoeddi Cymru y Nadolig hwn.

Dyma nodi rhai o'r llyfrau a ddaw o'n gweisg lleol ni yn ardal Eco'r Wyddfa eleni.

Bydd Cyfres y Cewri poblogaidd Gwasg Gwynedd yn cyhoeddi dwy gyfrol y tro yma – un gan gawr go iawn o'r byd rygbi, *Crwt o'r Waun* gan Gareth Edwards, a *Hyd yn Hyn* gan Gillian Elisa, sy'n chwarae rhan Sabrina yn *Pobol y Cwm*.

Hefyd cyhoeddir nofel afaelgar a swmpus am addewid rhwng dau yng ngwres ieuenctid i ailgyfarfod ymhen deugain mlynedd, sef *Dyfi Tyncshion – y Dyn Blin*, gan Gareth F. Williams, awdur toreithiog iawn sy'n symud i faes oedolion am y tro cyntaf eleni.

Mae *Tinboeth* eisoes wedi cael llawer o sylw yn y wasg a'r cyfryngau gan ei bod yn gyfrol eitha gwahanol – straeon erotig gan naw o brif awduresau Cymru heddiw – y gamp i chi fydd dyfalu pwy sy wedi sgwennu be!! Un arall y mae disgwyl mawr amdani yw *Bywyd a Gwaith John Roberts Williams*, cyfrol deyrnged i frenin cyfathrebwyr Cymru, gynt o Lanrug, a fu farw yn Hydref 2004. Cawn atgofion a theyrngedau gan nifer fawr o'i gyfeillion a'i gyd-weithwyr, yn ogystal â detholiadau o'i waith.

Bydd Gwasg y Bwthyn yn cyflwyno hunangofiant Selwyn Griffith, *O Barc y Wern i Barc y Faenol*, sy'n adrodd hanes ei fywyd cynnar ym Methel, Arfon, hyd ei gyfnod fel Archdderwydd yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae cyfrol y Parchedig Harri Parri, *Er Budd Babis Ballybunion* am hynt a helynt cymeriadau Porth yr Aur eisoes yn llwyddiant ysgubol. Atgofion amrywiol plentyndod Rol Williams ym Mrynrefail gawn ni yn ei gyfrol *Nid Roc ond Rol*, sy'n cwmpasu ei gyfnod yn yr Awyrlu, ei waith gyda'r Weinyddiaeth Amaeth a'i gyfnod yn arwain Parti Eryri. Nofel unigryw gan saith o awduron benywaidd Cymraeg yw *Nerth Bôn Braich*, sy'n dilyn cystadleuaeth i ddarganfod merch gryfaf Cymru.

Gobeithio y cewch hwyl ar y darllen a'r prynu!

GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

Tinboeth

10 o Straeon Erotig gan Ferched: £5.95

Mae pob math o bethau difyr yn gallu cael eu trafod gan ferched dros baned a brechdan. A dyna'n union ddigwyddodd pan ddaeth criw bychan o awduresau ynghyd yn Nhŷ Newydd, Llanystumdwy. Canlyniad y sgwrs honno yw'r llyfr *Tinboeth* – deg o straeon erotig gan ferched – gafodd ei lansio gan Wasg Gwynedd yng nghlwb Pêl-droed Porthmadog yn ddiweddar.

Bethan Gwanas sy'n gyfrifol am olygu'r gyfrol, sy'n cynnwys straeon byrion gan Caryl Lewis, Fflur Dafydd, Meg Elis, Eigra Lewis Roberts, Gwyneth Glyn, Sian Northey, Lleucu Roberts a Gwen Lasarus, yn ogystal â'r golygydd ei hun. Un o'r pethau mwyaf nodweddiadol am y gyfrol yw nad yw'r darllenwyr yn gwybod pa awdures dydd wedi sgwennu pa stori.

Meddai Bethan,

'Gan fy mod i wedi hen arfer, roeddwn i'n gwbl hapus i roi fy enw wrth fy stori i. Ond roedd rhai o'r lleill yn teimlo'n gry tasan nhw'n gallu bod yn ddienw, mi fysan nhw'n fwy rhydd i sgwennu. Roedd rhai ohonyn nhw ofn pechu eu mamau, eu neiniau, neu hyd yn oed eu gwŷr efallai, dwi'm yn gwbod!'

Mae arddull y straeon yn amrywio, rhai'n ysgafn gyda digon o hiwmor ynddynt, rhai eraill sy'n fwy mentrus, a rhai'n hyfryd o farddonol a synhwyrus.' Ychwanega Bethan,

'Y briff roddais i i bawb oedd mai dyma'r math o lyf 'dan ni isio i bobl ei ddarllen ar eu gwyliau, neu'n ymlacio dros lasiad o win. Mae 'na alw wedi bod am lyfr fel hyn yn Gymreg erstalwm ac mae'r pwyslais ar yr erotig yn hytrach na'r budur, gobeithio!'

Y peth mwya difyr, wrth gwrs, fydd ceisio dyfalu pa awdures sy'n gyfrifol am ba stori. Ond i'r perwyl hwnnw, tydi Bethan yn rhoi dim i ffwrdd.

'Dienw ydi'r straeon yn y llyfr, a dienw fyddan nhw'n aros! Mae ambell awdures hyd yn oed wedi mynd allan o'i ffordd i guddio'i steil. Dwi'n meddwl bod y'n steil i'n gwbl amlwg, ond camp i chi ddyfalu'r gweddill!

FFAIR GAEAF : 2 Rhagfyr 11am – 4pm
Sion Corn, dweud stori gyda Mari Gwilym, paentio gwynebau, gwneud crefftau a lot o hwyl i bawb!

Cofiwch fod holl atyniadau'r amgueddfa, y siop a'r caffi ar agor drwy'r gaeaf ... ...felly dewch am dro!

AMSEROEDD AGOR
Tachwedd '07 – Mawrth '08 :
Sul – Gwener : 10am – 4pm
(Ar gau pob dydd Sadwrn)

Cyfnod y Nadolig
AR GAU: Rhagfyr 17 & 18 (hyfforddi staff),
Rhagfyr 24, 25, 26, 29 a 1 Ionawr 2008

AMGUEDDFA LECHI CYMRU
Y GILFACH DDU, PARC PADARN LLANBERIS
☎ 01286 870630
www.amgueddfacymru.ac.uk

BEICS MENAI

BEICS NEWYDD
ac OFFER BEICIO
AR GYFER YR HOLL DEULU
"TRIKES a QUADS" TRYDAN
i BLANT- *AM BRIS CALL!!*
Dewch i Weld Alan yn BEICS MENAI am Wasanaeth Personol

(01286)-676804
NEU
07770951007

BEICS MENAI • 1 CEI LLECHI CAERNARFON
e/bost- alan@dedwyddfan.freeserve.co.uk

CYFARCHION Y TYMOR A DYMUNIADAU GORAU

oddi wrth

Dylan Davies

MODURDY'R WYDDFA

LLANBERIS Ffôn: 870225

Ceir ar werth; M.O.T.

Gwasanaeth Torri Lawr Ddydd a Nos

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn

SIOP a FFERM FÊL YR WYDDFA

STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: 870218

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

★ Priodasau ★ Dathliadau
★ Achlysuron Arbennig
★ Cynadleddau ★ Pwyllgorau
★ Bwydlen Bar ★ Cinio Dydd Sul

ROYAL VICTORIA QUALITY HOTEL

LLANBERIS

Ffôn: 870253

wrth droed yr Wyddfa

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth bawb yn y gwesty.
Diolch am eich cefnogaeth trwy'r flwyddyn.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Sue Lowe

odyn copr

66 Stryd Fawr Llanberis

am lyfrau ac anrhegion Nadolig

Ffôn: **01286 871366**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

GwalltGo

Stryd Goodman, Llanberis
(Tu ôl i'r Bistro)

Siop trin gwallt Merched, Dynion a Phlant

Cysylltwch â Dilys neu Ffion

01286 872414

Oriau agor:
Mawrth – Iau: 9am – 5.30pm
Gwener: 9am – 7.30pm
Sadwrn: 9am – 4pm

CELF Y COPÄON

MOUNTAIN ART

STRYD FAWR
LLANBERIS 870925

Safle Gwe:
www.mountainart.co.uk
e-bost:
ginger@mountainart.co.uk

★ Am luniau mynyddoedd
★ Peintiadau
★ Printiadau

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Bawb

CYFARCHION NADOLIG

LLANBERIS

CYFARCHION Y TYMOR

i bawb yn yr ardal
oddi wrth

TRÊN BACH LLYN LLANBERIS

Mae Siôn Corn yn ôl efo ni ar Rhagfyr 8, 9, 15 ac 16

Ffôn: **01286 870549**
am fanylion

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

oddi wrth **Siop**

SPAR

LLANBERIS

Ffôn: 871050

Dewch atom am ddewis rhagorol o fwyd, diod a nwyddau eraill ar gyfer y Nadolig, am brisiau cystadleuol iawn.
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

DYMUNA Linda Williams, Carlinig, Ffordd Tŷ Du ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl gardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Diolch hefyd i feddygon a nyrsys Ysbyty Gwynedd a Meddygfa Llanberis ac i Nigel, Caryl ac Iwan am eu gofal.
LLONGYFARCHIADAU i Iwan Wyn Williams ar ennill cadair Eisteddfod Ysgol Brynrefail. Da iawn chdi, Mam, Dad a Caryl.
DYMUNA Andrew a Manon, 29 Dôl Elidir, ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a gawsant ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Mared Lois, ar yr 20fed o Fedi.
CAPEL COCH. Mae'n dda dweud fod yr Ysgol Sul yn tyfu wrth i ni ddal i groesawu plant newydd. Erbyn hyn, wrth gwrs, y Nadolig sydd o'n blaen, ac yr ydym wedi dechrau paratoi ar gyfer gwasanaeth arbennig y plant ar gyfer yr ŵyl. Mae rhai o'r plant hynaf yn gwneud cardiau Nadolig ar hyn o bryd, a chaiff y cardiau eu gwerthu er budd Apêl Sierra Leone, yr apêl arbennig sydd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru a Chymorth Cristnogol eleni. Mae rhywfaint o gardiau Nadolig y Cyngor Ysgolion Sul ar gael hefyd, gyda rhan o elw gwerthiant y cardiau hynny er budd yr Ysgol Sul. Rhan arall o brysurdeb y mis diwethaf fu'r bocsys Nadolig ar gyfer Ymgyrch Plentyn y Nadolig, a diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd focs neu rodd ariannol at yr Apêl hon.
DYMUNA Nan Wilson Evans, Manod, Ffordd Capel Coch, Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu a ffrindiau gan na fydd yn anfon cyfarchion unigol eleni.

Diolch hefyd i'r teulu a ffrindiau am y caredigrwydd a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.
EGLWYS ST. PERIS. Cynhelir y Ffair Nadolig ddydd Gwener, 30 Tachwedd, yn y Vaynol Arms. Bydd y Ffair yn agor am 11.00 y bore. Mynediad a phaned: £1.50 a'r elw at y gwaith o adnewyddu'r eglwys. Croeso cynnes i bawb.
CYMDEITHAS UNDEBOL. Cafwyd noson addysgiadol a diddorol yng nghwmni Mr Dafydd Roberts, Penrhyndeudraeth, nos Fawrth, 13 Tachwedd am 7.00 yn Festri Capel Coch. Bu'n sôn am y grefft gywrain o wneud ffidil a dangosodd inni amryw o wahanol rai sydd ganddo yn ei feddiant. Ar y terfyn cawsom ddatganiad gwych ar yr offeryn ganddo ple roedd yn cyfleu gwahanol synnau alawon dros wledydd y byd.

Llywyddwyd y noson gan Mr Gareth Jones a diolchwyd gan Mr John H. Hughes.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, 11 Rhagfyr am 7.00 yn y Festri. Byddwn yn dathlu'r Nadolig drwy ganu Carolau, cael paned a mins peis. Mae hon yn noson agored i'r ardal i gyd. Dowch i fwynhau dathlu Gŵyl y Geni.
DYMUNA Dilys Baylis Dangnefedd dros Ŵyl y Nadolig a Blwyddyn Newydd llawn bendithion i bawb.
EDDIE LENNON. Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, Bangor, ar 12 Tachwedd, bu farw Edward Lennon, Plas Tirion, yn 78 mlwydd oed.

Yn enedigol o Warrington, daeth i Lanberis yn y pum degau cynnar. Bu'n gweithio fel Asiant Yswiriant a Rheolwr Canolfan Deiars Firestone yng Nghaernarfon. Am flynyddoedd bu'n diddori cynulleidfaoedd fel aelod o fand Tom Lennon's Swingettes, lle roedd yn ddrymiwr heb ei ail. Cofir ef gan bawb fel person llawn hiwmor, cymdeithasol ac addfwyn. Roedd yn gefnogwr brwd a ffyddlon tîm pêl-droed Manchester United ac wedi dylanwadu ar aelodau eraill o'r teulu i barhau'r gefnogaeth.

Cynhaliwyd yr angladd yn Eglwys Sant Padarn Llanberis, dan weinyddiad y Parchedig Robert Townsend, Deon Bangor yr Hybarch Alun Hawkins a Mr Derek Jones. Yr organydd oedd Iwan Wyn Williams. Fe'i rhoddwyd i orffwys ym mynwent Nant Peris.

Y cludwyr oedd Gwyn Thomas, Gordon a Hefin Parry, Jonathan a Richard Parry a Michael Fox-Parry.

Y prif alarwyr oedd Moreen (priod), Ruth a Catrin (merched), Miriam (wyres), Gwyn (mab yng nghyfraith), Gordon a Gill, Hefin a Kate (brodyr yng nghyfraith) a'u gwragedd), Ann ac Awen (chwiorydd yng ngyfraith), Michael a Kate, Alison a Peter a'u teuluoedd (nai a nithoedd). Roedd yr eglwys yn orlawn o deulu, ffrindiau a chymdogion rhy niferus i'w henwi.

Cyflwynwyd blodau gan 'Mo', Ruth a Catrin, Gwyn, Miriam, Gordon, Gill a Mark, Ann a Gwyneth, Hefin, Kate a'r plant, Ann, Gareth a Sion.

Yn anffodus yn absennol yr oedd Gwyneth Parry a Jennie Lennon (chwiorydd yng nghyfraith), a Mark Parry (nai).

Cynhaliwyd y te yng Ngwesty'r Dolbadarn, Llanberis, a gwnaethpwyd y trefniadau gan Gwynfor Jones o gwmni E.W. Pritchard, Llanberis.
DIOLCH. Dymuna Moreen, Ruth, Catrin, Miriam a theulu y diweddar Eddie Lennon, Plas Tirion, ddiolch i'r ardal am y caredigrwydd a'r parch a ddangoswyd tuag at ŵr, tad a thaid annwyl ac unigryw iawn. Diolch i'r Parchedig Robert Townsend (Rheithor), yr Hybarch Alun Hawkins (Deon Bangor) a Mr Derek Jones am eu gwasanaeth yn yr eglwys. Hefyd i Iwan, yr organydd a diolch arbennig iawn i Gwynfor am ei drefniadau trylwyr a theimladwy.

Diolch o waelod calon i John Huw Hughes am ei deyrnged ac yn arbennig i Hefin am ei gofiant o Ed, a wnaeth y gwasanaeth yn un personol ac unigryw. Mawr yw ein dyled i bawb am y gefnogaeth a gawsom.
CYNGERDD NADOLIG
Bydd y Cyngerdd Nadolig Blynyddol yn cael ei gynnal yn yr Oriel (Mynydd Gwefru), Llanberis, am 2.00 o'r gloch ar brynhawn Sul, 16 Rhagfyr. (Gweler yr hysbyseb ar dudalen 21 am fwy o fanylion).

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

CYNGERDD NADOLIG
Bydd y Cyngerdd Nadolig Blynyddol yn cael ei gynnal yn yr Oriel (Mynydd Gwefru), Llanberis, am 2.00 o'r gloch ar brynhawn Sul, 16 Rhagfyr. (Gweler yr hysbyseb ar dudalen 21 am fwy o fanylion).
CYNGOR CYMUNED. Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Waunfawr yn y Ganolfan, Y Waunfawr ar 7 Tachwedd. Roedd y Cyng. C. James yn y gadair gyda'r Cyng V. Roberts yn ymddiheuro.

Nid yw'r Cyngor wedi derbyn gwybodaeth ymhellach oddi wrth Gyngor Gwynedd ynglŷn â lledu'r pafin rhwng Y Bwthyn ac Eryl Cottagae. Fodd bynnag mae Cyngor Gwynedd wedi cyhoeddi fersiwn drafft o orchymyn traffig (sef llinellau melyn dwbl) i atal parcio ger mynedfeydd Stad Erw Wen a Thŷ Mawr, er mwyn gwella'r mynd a dod.

Ar ôl derbyn adroddiad blynyddol oddi wrth Gymdeithas Cae Chwarae Caeathro, cytunodd y Cyngor i dalu am drwsio'r ffensys ar y cae chwarae newydd cyn iddynt ddifrodi ymhellach.

Derbyniwyd cadarnhad fod Cyngor Gwynedd wedi caniatáu estyniad bychan ar gyfer mânwerthu i Siop Londis. Nid oedd Cyngor Gwynedd wedi y mateb i'r cwynion ynglŷn â'r coed ar draws llwybr rhif 44.

Mewn ymateb i ymholiad i'r defnydd o adeiladau hen ysbyty Pen Cefn, roedd gan y tenant drwydded yn unig dros ran o'r safle. Felly penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd beidio adnewyddu neu ymestyn y cytundeb heb sicrhau mynediad diogel o'r briffordd i'r safle.

Penderfynwyd derbyn mantolen 2006/07 a mantolen am 6 mis cyntaf 2007/08. (Gellir gweld copïau ar hysbysfwrdd y pentref).

Cytunwyd i'r ceisiadau canlynol am gymorth ariannol eleni:
Cronfa Mynwent Caeathro: £150;
Clwb Merched Caeathro: £100;
Eco'r Wyddfa: £150;
Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd: £150;
Theatr Bara Caws: £50;
Ysgol Feithrin y Bontnewydd: £20;
Cynllun 'Efe' (Efengyl i Fro'r Eco): £200.

Bydd y cyfarfod nesaf yng Nghanolfan y Capel, Caeathro am 7.15 nos Fawrth, 11 Rhagfyr.
BETH SYDD MEWN ENW? Beth yw ystyr enw ein pentref? Yn ei lyfr newydd *Dictionary of the Place Names of Wales*, mae'r Athro Hywel Wyn Evans yn meddwl ei fod wedi darganfod y gwir! Achos llys sydd wedi ei oleuo. Daeth yr Athro Melville Richards o hyd i achos cyfreithiol o 1364 pan oedd Gwenllian, merch yr Athro, o flaen ei gwell. Roedd yr Athro yn trigo lle mae Caeathro rŵan! Ond cred rhai fod cysylltiad at yr ysgol deithiol yn y ddeunawfed ganrif. Beth am y cae 'athraw' (sef 'acw') neu'r cae â thro? Ar hyn o bryd mae'r arian clyfar ar dad Gwenllian, yr Athro doeth!
CLWB JIWDO SEGONTIWM
Bydd cyfarfod blynyddol y Clwb am 7.00 o'r gloch nos Lun, 10 Rhagfyr yng Nghanolfan y Capel.
TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae ar gyfer mis Tachwedd oedd: £40: (100) Hugh Jones, 22 Tai Glangwna; £25 (31) Dilys Griffiths, Delfryn; £15: (109) Alan Burford, 2 Erw Wen; £5: (80) Mark a Linda, Tŷ Newydd.
PEN-BLWYDD Y '*BUS PASS*'. Llongyfarchiadau i Roy Roberts, Sea View, ar dderbyn yr hawl i deithio ar fws i'r clwb golff am ddim.
CWPWRDD DILLAD. Diolch i gamerâu teledu, rydan ni rŵan yn gwybod pwy yw'r gwisgwr mwyaf trendi yng Nghaeathro. Yn y rhaglen *Cwpwrdd Dillad* cafodd Nia Parri'r fraint o archwilio cwpwrdd dillad Huw Edwin, Stad Glandŵr.
GWASANAETHAU'R CAPEL. Disgwylir yr oedfaon canlynol yn ystod mis Rhagfyr

2: 11.00 Ysgol Sul
2.00 Parch Iorwerth Jones Owen
9: 11.00 Ysgol Sul
16: 11.00 Ysgol Sul
2.00 Parch Marcus Robinson
23: 11.00 Ysgol Sul
5.30 Oedfa Nadolig (lluniaeth ysgafn i ddilyn)
30: Dim oedfaon

FFAIR NADOLIG. Cynhelir y Ffair Nadolig am 7.00 o'r gloch nos Iau, 6 Rhagfyr, yng Nghanolfan y Capel. Bydd stondinau, gemau a lluniaeth ysgafn. Croeso i bawb. Bydd Canolfan y Capel yn agored ar gyfer rhoddion o bob math rhwng 9.00–9.30 yr hwyr nos Fercher, 5 Rhagfyr, a rhwng 10.00–11.00 y bore dydd Iau, 6 Rhagfyr.
PARTI PLANT. O dan nawdd Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro, bydd Siôn Corn yn ymweld â phlant Caeathro am 5.30 nos Lun, 17 Rhagfyr, yng Nghanolfan y Capel. Yn ogystal bydd parti ac adloniant.
CANU CAROLAU. Ar nos Iau, 20 Rhagfyr, am 7.00 yr hwyr bydd Seindorf Iau Llanrug yn arwain canu Carolau o amgylch y goeden Nadolig. Wedyn bydd cyfle i sgwrsio dros y cawl cartref enwog (pe bai'r tywydd yn anffafriol bydd y canu yng Nghanolfan y Capel).

NJ

Gwasanaeth Cwnsela
Nerys John BSc. Dip. Couns.MBACP

Sesiynau yng Nghaernarfon gyda chwnselydd cymwysiedig. Cyfle i ddod o hyd i ffordd eich hun i ddelio gyda gwrthdynfa, gwrthdaro, newidiadau anodd neu phrofiadau anodd. Fe wneir hyn mewn sefyllfa nad yw yn feirniadol gan ddilyn canllawiau proffesiynol y BACP.

Ffoniwch 07796376158

NWYDDAU GROSER
LLYSIAU • FFRWYTHAU • BWYDYDD
AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES

GARTH MAELOG

51 Stryd Fawr, LLanberis

Ffôn: 870840

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Jill a Peter

Am anrhegion y Nadolig dowch i
Siop Nwyddau Tŷ a Gardd

FORMAG

41A Stryd Fawr
Llanberis 872501

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth
Ifor a Margaret
Diolch am eich cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

H.E. HUGHES

A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
Ffôn: 870444

★ Gwerthwr Glo
★ Olew Gwres Canolog
i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

GRAHAM A JEAN
A PHAWB YN Y

PRINCE OF WALES
LLANBERIS
870708

Cwrw Blasus
Croeso Cartrefol

CYFARCHION NADOLIG
LLANBERIS

Cefnogwch
ein
Hysbysebwyr

Fframia

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth
Dewis eang yn cynnwys:
WILLIAM SELWYN :: KEITH ANDREW
KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

www.fframia.com

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn

Sychlanhau • Altro
Ailwnïo
Gwasanaeth
Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: **870088**

SWIGOD A SEBON

GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

Siop Bysgod a Sglodion

Seafresh

56 Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: **872686**

Mae Monika a'r criw yn diolch i'n holl gwsmeriaid, hen a newydd, am eu cefnogaeth ers cymryd drosodd y busnes yn gynharach yn y flwyddyn.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd

Gwesty

Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth Aneuryn a'r staff

- Papurau Newydd
- Bwyd a Diod
- *'Off Licence'*
- Roliau a brechdanau poeth *Bake'n Bite*
- DVD's a Fideo
- Ar agor Llun – Sadwrn 6.30am – 10pm
  Sul 7am – 10pm
- Peiriant tynnu pres

Stryd Fawr Llanberis
(01286) 870434

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth
berchnogion a phawb yn Siop

Costcutter
LLANBERIS

Edrychwn ymlaen at eich gwasanaethu drwy gydol 2008

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb
yn Rheilffordd yr Wyddfa

SNOWDON MOUNTAIN RAILWAY
LLANBERIS
• To the Summit since 1896 •

CRIB GOCH

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth **Dylan**
Stryd Fawr Llanberis
Ffôn: **870777**

- Galwch i mewn am anrhegion Nadolig chwaethus ac anghyffredin yn cynnwys Crefftau Cymreig a lluniau lleol.
- Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn.

Crefftau Deiniol
52 STRYD FAWR, LLANBERIS (01286) 871717
DEFNYDD GWNEUD CARDIAU • GWAITH LLAW
LLYFR TAMEIDIAU • GWLAN • CORNEL Y PLANT

DMM

Nadolig Llawen
a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn
DMM
LLANBERIS

www.dmmwales.com

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis
Ffôn: (01286) 870202
TREFNWYR ANGLADDAU • CEIR AR GYFER PRIODASAU
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn Llanberis a'r cylch

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chwi oll
oddi wrth bawb yn siop
HAIRLINES
Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870328

D YSGOL YRRU L
AL-DRIVE
LLANBERIS A'R ARDAL
- *GWERSI FESUL AWR*
- *CYRSIAU GLOYWI*
- *GOSTYNGIAD PAN YN BWCIO MEWN BLOC*
- *HYFFORDDIANT TRAFFORDD*
- *"PASS PLUS" – YSWIRIANT RHATACH!!*
- *GWERSI DWYIEITHOG*

ALED JONES A.D.I
FFÔN:- (01286) 872144 / 07917888631 /www.aldrive.net

Costcutter

Beran Deiniolen

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth pawb yng Ngorsaf Betrol Beran,
Deiniolen.

Ar agor 7yb – 9yh bob diwrnod
Petrol, Nwy Calor a Glo
Loteri, Off Licence, Bake'n Bite
Brechdanau a Diodydd poeth

(01286) 871521

Cyfarchion Nadolig
PENISARWAUN
a DEINIOLEN

Dymuna **DAFYDD** a staff
Y TARW (Bull Inn)
DEINIOLEN
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
I'W CWSMERIAID A FFRINDIAU OLL

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
I HOLL DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA
oddi wrth
bawb yn
ARFON GARAGE
DEINIOLEN
(Ffôn: Llanberis 870287)
Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

R.M. (DIC) PARRY
PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i ddarllenwyr yr Eco

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol
TROS-Y-WAEN PENISARWAUN
Yn Gwasanaethu'r holl ardal yn cynnwys-
PENISARWAUN · DEINIOLEN · LLANRUG A LLANBERIS
Ffoniwch Dylan(Llys)
ar 871833
Symudol-07778127394
Gwasanaeth Teimladwy
Urddasol a Phersonol
24 awr y dydd
Capel Gorffwys Preifet

Hefyd

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch Mewn Steil- Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

Am gymorth:
- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

MANTELL GWYNEDD
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups
cysylltwch â Mantell Gwynedd
– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1066851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

Nadolig Llawen
a diolch am eich
cefnogaeth
oddi wrth
Alwyn a Sarah Penisarwaun Ffôn **870605**

Blodau Racca

- Rithoedd Celyn, Coed Nadolig a 'Crem Pots' a Rithoedd Drws
- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/*Talking Pages* 118 247
- Hefyd, *Bouquets* Nadoligaidd

RHODD O'R GALON YW BLODAU

Pwy sy'n Dathlu?

Pa sawl bugail sydd yn dathlu
Diwrnod geni dydd yr Iesu?
Pwy sy'n cofio gwair y côr
Lle y ganwyd Brenin Iôr?

Clywn ni cco pell y tanciau
Dros y môr lle mae y bomiau;
Ar ben-blwydd ei eni Ef
Gwaed sy'n llifo yn y dref.

'Doethion heddiw' sydd yn barnu,
Y nhw mewn grym sydd yn trefnu
Pwy sy'n marw, pwy sy'n byw,
Y gair olaf sydd gan Dduw.

Pwy sydd heddiw'n rhoi anrhegion
Ac yn darllen y Damhegion?
Pwy sy'n rhoi ei aur i gyd
I'r cardotyn ar y stryd?

Rwyf o hyd yn ddi-asgwrn cefn,
Ac rwyf yn plygu lawr i'r drefn;
Euog wyf o hyn i gyd,
'Mynd tu arall' yn y stryd.

JOHN V. MORRIS
Rhianfa, Clwt-y-bonn

DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd Ffôn: (872133)

LLONGYFARCHIADAU mawr i Nia a Iolo, Caerdydd, ar enedigaeth mab, Efan Arthur, ar 10 Hydref, ŵyr cyntaf i Eric a Janice, Cae Hob, ac Ian a Sulwen, Llanbedrog.

DIOLCH. Dymuna Iolo a Nia, Caerdydd, ddiolch o waelod calon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, anrhegion, galwadau ffôn ac ymweliadau maent wedi eu derbyn ar enedigaeth eu mab, Efan Arthur.

DYMUNA Alwyn a Falmai, Rhes Faenol, ddiolch o waelod calon i Fand Deiniolen, ac yn enwedig i Meirion a Dylan, am eu gwaith ardderchog yn trefnu'r Noson Lawen i Iwan yn ddiweddar.

Diolch i'r noddwyr, yr artistiaid a'r gynulleidfa gartrefol am noson fythgofiadwy. Diolch i bawb - ymhell ac agos – a gyfrannodd tuag at yr apêl, ac am y cardiau, yr e-byst, y llythyrau, yr ymweliadau a'r galwadau ffôn.

Mae wedi bod yn gymorth mawr i ni fel teulu wybod fod pawb yn yr ardal mor gefnogol ac mae hyn yn gefn mawr i ni.

Diolch yn fawr iawn.

DIOLCH. Hoffai Hywel ac Eirlys Williams, Bwthyn y Waun, 3 Pentre Helen, ddiolch o galon i'r teulu a'u ffrindiau am y llu cardiau a phopeth arall a wnaeth y diwrnod o ddathlu 60 mlynedd o fywyd priodasol yn un hapus iawn. Diolch yn fawr i chi i gyd.

DYMUNA Elan, Elena, Bethan a'r teulu oll ddiolch o galon am y galwadau ffôn, yr ymweliadau, y cardiau a'r rhoddion hael tuag at Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Hefyd diolch i staff Alaw, y nyrsys cymuned ac i'r Parchedig John Pritchard, Emyr Gibson a Dylan Griffiths am eu gwasanaeth.

LLONGYFARCHIADAU i Daniel Wyn Jones a enillodd y wobr gyntaf ar yr Unawd Offerynnol o dan 12 oed yn Eisteddfod Gwaun Gynfi.

DYMUNA Alun a Lona, Rhydfadog, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu Priodas Ruddem yn ddiweddar.

EGLWYS ST. PERIS. Cynhelir y Ffair Nadolig ddydd Gwener, 30 Tachwedd, yn y Vaynol Arms. Bydd y Ffair yn agor am 11.00 y bore. Mynediad a phaned: £1.50 a'r elw at y gwaith o adnewyddu'r eglwys. Croeso cynnes i bawb.

CYNGERDD NADOLIG

Bydd y Cyngerdd Nadolig Blynyddol yn cael ei gynnal yn yr Oriel (Mynydd Gwefru), Llanberis, am 2.00 o'r gloch ar brynhawn Sul, 16 Rhagfyr. (Gweler yr hysbyseb ar dudalen 21 am fwy o fanylion.

YSGOL GWAUN GYNFI

Cyngerdd Nadolig. Eto eleni, oherwydd nad oes goleuadau argyfwng yma bydd raid i ni gynnal dau berfformiad o'r cyngerdd yn y prynhawn, sef 11 a 12 o Ragfyr, i gychwyn am 2.00 o'r gloch. Bydd y tocynnau ar werth wythnos cyn y cyngerdd.

Mae'n ddrwg iawn gennym na allwn gynnal y cyngerdd yn ystod y min nos ond mae'r gyfraith yn dweud na chawn gynnal gweithgareddau yn y nos heb oleuadau argyfwng.

Ymgyrch Plentyn y Nadolig. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd at yr Apêl yma. Casglwyd 85 o focsys eleni.

Plant Mewn Angen. Casglwyd £226. Cynhaliwyd diwrnod gwisgo i lawr gyda phawb yn talu £1 o ffein. Bu rhai o blant blwyddyn 6 yn brysur yn gwerthu cacennau ac yn eistedd yn dawel am y diwrnod! Diolch yn fawr i bawb.

Cardiau Nadolig. Ni fydd staff yr ysgol yn rhoi cardiau Nadolig i'w gilydd eleni ond yn cyfrannu £3 tuag at yr elusen Oxfam.

Gwyliau Nadolig. Bydd yr ysgol yn cau am y gwyliau am 3.30 ar ddydd Gwener, 21 Rhagfyr ac yn ailagor i'r plant ar ddydd Mawrth, 8 Ionawr 2008.

EISTEDDFOD GADEIRIOL GWAUN GYNFI

Cyhaliwyd yr Eisteddfod eleni yn festri Capel Ebeneser ar ddydd Sadwrn, 27 Hydref.

Yn beirniadu oedd, Cerdd: Einir Wyn Williams; Llefaru: Aled Jones Evans; Llenyddiaeth: Karen Owen; Celf a Chrefft: Pat Jones a Gwilym Williams.

Cafwyd Eisteddfod ardderchog eleni eto a bu cystadlu brwd gyda safon uchel iawn drwy'r dydd. Roedd y Beirniaid i gyd yn llongyfarch pob cystadleuydd. Llongyfarchiadau i'r enillwyr a diolch i bawb fu'n cystadlu.

Llywydd cyfarfod y pnawn oedd Alaw Mari Huws a Dyfan Siôn yng nghyfarfod y nos. Braf oedd cael eu gwahodd yn ôl i'r Eisteddfod.

Enillydd y Gadair oedd John Norman Davies, Llangefni, a'r Fedal Lenyddol dan 25 oed yn mynd i Medi Vaughan Wilkinson, Caernarfon.

Canlyniadau

Ysgol a Dosbarth Meithrin
Adrodd: 1. Leon; 2. Osian; 3. Hanna.
Canu: 1. Leon; 2. Dafydd; Cydradd 3. Osian, Beca a Hannah.
Dosbarth Derbyn
Adrodd: 1. Elliw; 2. Tara; 3. Gwion.
Canu: 1. Alice; 2. Deian; 3. Gwion.
Blwyddyn 1 a 2
Adrodd: 1. Alaw; 2. Beca; 3. Glain.
Canu: 1. Alaw; 2. Anna; 3. Beca.
Blwyddyn 3 a 4
Adrodd: 1. Rhys Meilir; 2. Bethan; Cydradd 3. Prys a Gerwyn. *Canu:* 1. Rhys Meilir; 2. Sian; 3. Bethan.
Unawd Pres dan 10 oed
1. Deian.
Blwyddyn 5 a 6
Adrodd: 1. Lucy Kelly; 2. Miriam; 3. Elliw. *Canu:* 1. Lucy Kelly; 2. Ceinwen.
Unawad Cerdd Dant dan 12 oed
1. Mared; 2. Anest; 3. Rhys.
Alaw werin dan 12 oed
1. Lucy; 2. Mared; Cydradd 3. Sian ac Anest.
Parti Adrodd dan 12 oed
Genethod Deiniolen
Unawd Offerynnol dan 12 oed
1. Daniel; Cydradd 2. Steffan a Damien; 3. Llŷr.
Canu emyn dan 12 oed
1. Mared; 2. Catrin; Cydradd 3. Ceinwen ac Emma.

Rhai o blant yr ysgol gyda'r bocsys Ymgyrch Plentyn y Nadolig.

Plant Ysgol Feithrin Deiniolen ar Ddiwrnod Plant Mewn Angen wedi gwisgo'u pyjamas i godi arian.

Grŵp Offerynnol
1. Deiniolen.
Unawd Piano dan 12 oed
1. Catrin
Parti Canu dan 12 oed
1. Parti Mawr; 2. Parti Bach.
Ymgais orau yn yr Adran Adrodd dan 12 oed: Lucy Kelly
Ymgais orau yn yr Adran Cerdd dan 12 oed: Lucy Kelly
Unawd dan 16 oed
1. Caryl; 2. Bethan Owen; 3. Kim Rowlands.
Adrodd dan 16 oed
1. Bethan; 2. Kim.
Unawad Offerynnol dan 16 oed
1. Manon; 2. Wil; Cydradd 3. Daniel a Gwenno.
Grŵp Offerynnol
1. Gavin Saynor a Wil Marsten.
Unawd Cerdd Dant dan 21 oed
1. Elen Gwenllian; 2. Kim; Cydradd 3. Caryl a Berthan.
Unawd Alaw Werin dan 21 oed
1. Gwenllian Mai; 2. Bethan; Cydradd 3. Elen Gwenllian a Kim.
Adrodd 16–21 oed
1. Elen Gwenllian.
Unawd Piano dan 21 oed
1. Gwenno Glyn; 2. Elen Gwenllian; 3. Gwenllian Mai.
Cân allan o Sioe Gerdd
1. Gwenllian Mai; 2. Elen Gwenllian; Cydradd 3. Kim a Caryl.
Unawd 16–21 oed
1. Gwenllian Mai
Adroddiad Digri
1. Elen Gwenllian; 2. Owen Parry.
Deuawd Agored
1. Gwenllian Mai a Caryl.
Canu Emyn dros 50 oed
1. Owen Parry; 2. Glenys Jones; 3. Tecwyn Blainey.
Unawd Alaw Werin
1. Elen Gwenllian; 2. Gwenllian Mai; 3. Caryl.
Prif Adroddiad
1. Elen Gwenllian
Her Unawd
1. Gwenllian Mai
Cyfansoddi Emyn dôn
1. Valmai Williams
Cwpan am ymdrech orau yn yr Adran Gerdd dan 21 oed
Gwenno Glyn
Tlws y Cerddor
Siôn Elwyn

Adran Lenyddol
Ysgol Feithrin a Dosbarth Meithrin
Cydradd 1. Leon a Sophie; Cydradd 2. Gwion, Megan ac Ellen; Cydradd 3. Ruby a Chloe.
Blwyddyn Derbyn
Cydradd 1. Jac, Amy a Jacob; Cydradd 2. Elliw, Tara a Liam. 3. Alis.
Blwyddyn 1
1. Angharad Jones; Cydradd 2. Elin Worth, Cai Heddwyn Thomas a Glain Meleri Hughes; Cydradd 3. Anna Lewis a Victoria Williams.
Blwyddyn 2
1. Lee Roberts; 2. Chris Lloyd; 3. Joseff Jon Williams.
Blwyddyn 3
1. Ceinwen; Cydradd 2. Lisa a Kenny; 3. Rhys.
Blwyddyn 4
1. Gwydion; 2. Harri; Cydradd 3. Michael ac Alex.
Blwyddyn 5
1. Rachel; 2. Osian; 3. Lowri.
Blwyddyn 6
1. Iola Bryn; 2. Llŷr; 3. Lee
Tlws am yr ymdrech orau yn yr Adran Lenyddol dan 12 oed
Rachel
Rhyddiaith dan 16 oed
1. Kim Rowlands.
Stori Fer
1. Gwen Evans; 2. Bethan Wiliams; 3. Kim Rowlands.
Englyn
1. Meirion Jones; 2 a 3. Richard Lloyd Jones.
Telyneg
1. John Lewis Jones.
Limrig
1. John B. Jones; 2. Gwen Griffiths; 3. Richard Llwyd Jones.
Llinell Goll
1. Richard Llwyd Jones; 2. John B. Jones; 3. Carys Briddon.
Tlws am yr ymdrech orau gan blant Blwyddyn 5 a 6 mewn arlunio
Elliw Geraint Hughes.

Gwaith Llaw
Blwyddyn Derbyn, 1 a 2
1. Alis Mair Jones; 2. Beca Medi Jones; 3. Cian Pleming.
Blwyddyn 3 a 4
1. Alex Parry; 2. Prys Wyn Owen; 3. Siôn Alun.
Blwyddyn 5 a 6
1. Osian Worth; 2. Elliw Geraint

Hughes; 3. Damian Parry.
Ymgais orau yn yr Adran Celf a Chrefft o 12–21 oed
Osian Worth
Gwau
Blwyddyn 3–6
1. Ffion Warner; 2. Catrin Medi Jones; 3. Elliw Geraint Hughes.
Agored
1. Ann Jane Owen; 2. Margaret Evans; Cydradd 3. Diane Davies a Gwen Griffiths.
Crosio
1. Brenda Williams; 2. Margaret Evans.
Gwau Tedi Twt
1. Hilda Parry; 2. Gwen Griffiths; 3. Diane Davies.
Gwnio
Blwyddyn Derbyn, 1 a 2
1. Awel Fflur Ellis; 2. Victoria Williams; Cydradd 3. Beca Medi Jones a Glain Meleri Hughes.
Blwyddyn 3–6
1. Osian Worth; Cydradd 2. Catrin Elen Jones a Ffion Warner; 3. Tanya Jones.
Pwyth Croes
1. Mona Parry; 2. Diane Davies.
Cwpan am y cynnyrch gorau yn yr Adran Gwau a Gwnio
Mona Parry

Coginio

Blwyddyn Derbyn, 1 a 2
1. Tara Owen; Cydradd 2. Jacob Bolton ac Awel Fflur Ellis; 3. Elliw Owen.
Blwyddyn 3–6
1. Osian Worth; 2. Prys Hughes.
Bara Brith
1. Mona Parry; 2. Gwen Griffiths; 3. Margaret Wyn Jones.
Teisen Sbwng Fictoria
1. Margaret Evans.
Dynion yn Unig
Flapjac
1. Gwil Jones; 2. Charles White.

Gwaith Coed

1. Osian Worth; 2. Harri Jones; 3. Shane Roberts.
Y cwpan am y cynnyrch gorau yn yr Adran Gwaith Coed
Osian Worth

Ffotograffiaeth

Ysgol Gwaun Gynfi
1. Ella Jones; 2. Beca Medi Jones; 3. Alis Mair Jones.
Agored
1. Geraint Hughes; 2. Margaret Williams; 3. Marina Marzelos Jones.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant yr Eisteddfod a gofynnir i unrhyw berson sydd â diddorddeb, ddod i'r Pwyllgor Cyffredinol sydd i'w gynnal ym mis Ionawr, er mwyn sicrhau dyfodol yr Eisteddfod.

Dowch yn llu. Mae gwir angen gwaed newydd i helpu mewn unrhyw ffordd.

YSGOL FEITHRIN

Hoffai'r Pwyllgor ddiolch o galon i bawb a gefnogodd y Noson Tân Gwyllt yn yr Ysgol Feithrin y mis diwethaf, boed hynny drwy rodd at raffl, eitemau i'r stondinau neu rodd ariannol. Diolch i'r rhieni a chyfeillion a fu'n brysur ar y noson, gyda diolch arbennig i Bryan, Colin, Dilwyn a Noel, ac wrth gwrs i bawb a ddaeth i wneud y noson yn un llwyddiannus eto eleni.

Daeth y plant (a'r staff!) i'r Ysgol Feithrin yn eu pyjamas ar Ddiwrnod Plant Mewn Angen a thalu 50c yr un. Gwnaed elw o £13 tuag at yr achos.

EGLWYS LLANDINORWIG

Cynhelir Cyngerdd Nadolig yn yr Eglwys ar nos Sul, 2 Rhagfyr am 6.30pm. Yr artistiaid fydd Seindorf Arian Deiniolen, Côr Adlais, Elfed Morgan Morris, Côr Cwmni Pot Jam, Ffion Angharad, Caryl Angharad a Manon Elwyn, gyda Glyn Tomos yn arwain y noson. Y llywydd yw Mrs Alwena Hughes Jones, Llanrug, a phris mynediad fydd £3 (sy'n cynnwys paned a mins pei). Croeso cynnes i bawb.

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

CYNGERDD NADOLIG

Bydd y Cyngerdd Nadolig Blynyddol yn cael ei gynnal yn yr Oriel (Mynydd Gwefru), Llanberis, am 2.00 o'r gloch ar brynhawn Sul, 16 Rhagfyr. (Gweler yr hysbyseb ar dudalen 21 am fwy o fanylion.

YR YSGOL GYMUNED

Tynnu Lluniau. Daeth Mr Gwynant Parri draw i'r ysgol bnawn dydd Iau, 8 Tachwedd, a chafodd pawb dynnu ei lun. Rydym yn edrych ymlaen at eu cael yn barod cyn y Nadolig.

Urdd Adran Ysgol a Champau'r Ddraig. Mae'r gweithgareddau yn cael eu cynnal ar yn ail, bob dydd Llun am 3.15 o'r gloch. Mae 20 o blant wedi ymaelodi â'r Urdd hyd yma ac mae cyfle i unrhyw un arall sy'n dymuno gwneud hynny cyn gynted â phosib.

Ymgyrch Plentyn y Nadolig. Casglwyd 27 o focsys ar gyfer yr elusen yma eleni. Diolch i bawb am eu cefnogaeth er mwyn sicrhau cymorth i blant bach llai ffodus.

Plant Mewn Angen. Dydd Gwener, 16 Tachwedd, daeth y plant i'r ysgol wedi gwisgo yn eu gwisg nos a rhai o'r staff wedi gwisgo i fyny'n ddigon o ryfeddod hefyd! Bu'r plant yn brysur yn gwerthu cacennau amser chwarae. Casglwyd £65 i'r gronfa.

Ffair Nadolig. Cynhelir y Ffair Nadolig nos Fercher, 5 Rhagfyr, am 6.30 o'r gloch. Bydd amryw o stondiau, tombola a raffl a gobeithir cael ymweliad gan Siôn Corn. Croeso cynnes i bawb.

Sioe Nadolig. Cynhelir y sioe Nadolig 'Hon yw ei Stori Ef' bnawn dydd Mawrth, 11 Rhagfyr, am 1.30 o'r gloch a nos Fercher, 12 Rhagfyr, am 6.00 o'r gloch. Tocynnau ar gael yn yr ysgol.

Cinio Nadolig. Bydd Anti Carolyn yn paratoi cinio Nadolig blasus dydd Gwener, 14 Rhagfyr. Mae croeso i'r plant sydd yn arfer cael pecyn bwyd i ymuno yn y cinio Nadolig.

Noson Wasael. Bydd rhai o blant yr ysgol yn cymryd rhan yn y Noson Wasael a drefnir gan y Pwyllgor Neuadd nos Fercher, 19 Rhagfyr.

Pantomeim. Byddwn yn mynd â phlant dosbarthiadau derbyn i flwyddyn 6 i weld y pantomeim 'Macsen' yn Theatr Gwynedd fore dydd Iau, 20 Rhagfyr.

PÊL BONWS LOTERI. Enillydd mis Hydref oedd Mrs Gwyneth Jones, 25 Bryn Tirion, gyda rhif 3. Llongyfarchiadau a chofion annwyl atoch.

FFAIR NADOLIG Y PENSIYNWYR. Cynhelir y Ffair yn y Neuadd Gymuned nos Iau, 29 Tachwedd am 6.30. Croeso cynnes i bawb.

DIOLCH. Dymuna Mrs Catherine Williams, 20 Bryn Tirion, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd yn ystod ei arhosiad yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

Dymuna Delyth, Pen y Gaer, ddiolch i bawb am eu consyrn a'u caredigrwydd yn ystod ac yn dilyn ei arhosiad yn yr ysbyty yn dilyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

Dymuna Rhian, Bryn Afon, Penygroes, ddiolch o galon am y cardiau a'r dymuniadau da a'r rhoddion yn dilyn ei llawdriniaeth hithau.

GWELLHAD. Mawr obeithir fod pawb sy'n sâl yn gwella ac y byddwch yn teimlo'n well erbyn y Nadolig. Ein cofion atoch chwi, Mrs Gwyneth Jones, sy'n gwella yn Ysbyty Eryri

PEN-BLWYDD ARBENNIG.

Llongyfarchiadau i Lois Eifion ar achlysur ei phen-blwydd yn 18 oed. Llongyfarchiadau iddi hefyd ar ei phenodiad yn Ddirprwy Brif Eneth Ysgol Brynrefail. Pob dymuniad da i'r dyfodol, Lois.

YSGOL SUL BOSRA.

Cynahliwyd gwasanaeth Sul y Cofio, fore Sul 11 Tachwedd o 10–10.30. Cofiwyd am y tri a ddisgynnodd yn y Rhyfel, dau frawd i Arnold Jones, Trysorydd y Capel, dau ewythr i'w ferch, Ffiona, a dau or-ewythr i Ianto a Catrin, aelodau ifanc yr Ysgol Sul a chefnder i Arnold oedd y llall.

AR Y CYD Â'R EGLWYS.

Ymunodd aelodau Ysgol Sul Bosra gydag aelodau Eglwys Santes Helen o flaen y Gofeb wrth yr Eglwys am 11.00 o'r gloch. Cafwyd munud o dawelwch a chafodd plant Ysgol Sul Bosra a'r Eglwys gyfle i roi croes fechan wrth y Gofeb. Gwerthfawrogwyd y darlleniadau a'r gweddïau gan Huw Tegid a bu'n wasanaeth dwys a chofiadwy iawn i bawb.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant y Neuadd ac enillwyr Tachwedd yw: E.W. Jones, 3 Bryn Tirion; Siôn Philips, 7 Tai Arthur; Gwen Roberts, Weirglodd Wen

I ddathlu'r Nadolig, cynhelir *Noson Wasael* ar nos Fercher, 19 Rhagfyr am 6.30 yn y Neuadd Gymuned. Bydd aelodau o Fand Deiniolen yn ymuno â ni – i chwyddo'r canu – a byddwn yn canu'r hen Garolau traddodiadol. Ceir eitemau gan blant yr Ysgol hefyd a cheir cyfle i gael pwnsh a mins pei. Dowch atom i ddathlu'r ŵyl a chael hwyl.

NADOLIG LLAWEN. Dymuna Mrs Blodwen Pritchad, 10 Llys y Gwynt, Nadolig dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion.

Nia, Lowri a Cai, cynrychiolwyr Cyngor yr Ysgol, yn rhoi help llaw i lwytho'r bocsys ar fan Ymgyrch Nadolig y Plant. Casglwyd 27 o focsys. Diolch i bawb.

Plant Ysgol Penisarwaun ar ddiwrnod Plant Mewn Angen, 16 Tachwedd 2007.

Bywyd Gwag

Bywyd gwag yn llawn o newyn,
Yn 'run lle ar hyd y flwyddyn,
Bywyd trist, heb Grist na chrefydd,
Dal i gerdded yr hen lefydd;
Wedi chwalu mae 'mreuddwydion,
Dim byd newydd mewn newyddion,
Mynd yn ôl i hen orffennol
Dyna gwestiwn sy'n ddadleuol.

Byw heb obaith a heb egni,
Bywyd cas yn llawn o regi,
Bywyd gwan heb ddim cymeriad,
Dyna lle mae'r camgymeriad;
Byw heb fflam na golau cannwyll,
Byw mewn uffern yn y gwyll,
Byw mewn nos a'r haul yn machlud,
Byw mewn byd sydd mor grintachlyd.

Cael llond bol ar gâr a theulu,
Rhoddi popeth nawr o'r neilltu,
Cael llond bol ar gystadlu
Cael llond bol ar anadlu;
Ond daeth gobaith o hen gân,
Gwelais fflam yng ngolau'r tân;
Gwelais wynfyd haul y bore
Pan ddaeth bywyd ar ei ore.
Ac rwy'n dal o hyd i gredu
Wrth glywed 'Dyn oedd yr Iesu'.

JOHN V. MORRIS
Rhianfa, Clwt-y-bont

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

EGLWYS ST. PERIS. Cynhelir y Ffair Nadolig ddydd Gwener, 30 Tachwedd, yn y Vaynol Arms. Bydd y Ffair yn agor am 11.00 y bore. Mynediad a phaned: £1.50 a'r elw at y gwaith o adnewyddu'r eglwys. Croeso cynnes i bawb.

CYNGERDD NADOLIG

Bydd y Cyngerdd Nadolig Blynyddol yn cael ei gynnal yn yr Oriel (Mynydd Gwefru), Llanberis, am 2.00 o'r gloch ar brynhawn Sul, 16 Rhagfyr. (Gweler yr hysbyseb ar dudalen 21 am fwy o fanylion).

CAPEL Y RHOS. Mae mis Rhagfyr yn fis prysur a phwysig i Gapel y Rhos. Eleni byddwn yn dathlu canmlwyddiant y capel. Bore Sul, Rhagfyr 2il cynhelir gwasanaeth arbennig am 10 o'r gloch. Cynhelir y gwasanaeth dathlu gan y gweinidog.

Ar y nos Fercher, Rhagfyr 5ed am 7 o'r gloch, bydd Mr. Dafydd Whiteside Thomas yn rhoi cyflwyniad o hanes y capel, a bydd hwn maes o law yn cael ei groniclo mewn llyfr fydd ar werth ddechrau'r flwyddyn. Bydd modd archebu copi ymlaen llaw. Bydd lluniaeth ysgafn yn dilyn y sgwrs.

Yna, ar fore Sul, Rhagfyr 16eg am 10 o'r gloch bydd plant yr Ysgol Sul yn cyflwyno eu gwasanaeth arbennig hwy fydd yn cyfuno dathlu'r Nadolig a'r Canmlwyddiant. Mae croeso i bawb ymuno gyda ni yn y dathliadau arbennig yma.

SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr Clwb Cant mis Tachwedd oedd: £20: Mrs S. Owen, 56 Bro Rhyddallt; £7: A. Parry, Bryn Heli; £5: Mrs B. Williams, Disgwylfa.

BABI NEWYDD. Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i Arwyn a Cathy (Bwthyn Glanffynnon) o Stryd Goodman, Llanberis, ar enedigaeth eu merch fach, Cadi Fôn, ar 13 Medi. Llongyfarchiadau i Taid a Nain, John a Nerys, ac i hen Nain, Mrs Mair Jones, Glan Moelyn.

DYMUNIADAU NADOLIG. Fe ddymuna Mrs Jean Walsh, Cartref Foelas, Nadolig Hapus iawn i bawb gyda diolch yn fawr am yr holl garedigrwydd mae yn ei dderbyn yn y Cartref ac am yr holl ymweliadau gan y teulu, ffrindiau a phentrefwyr Llanrug dros y flwyddyn. Ni fydd yn anfon cardiau Nadolig.

Hefyd fe ddymuna Mrs Beti Roberts, Meifod, Ffordd y r Orsaf, ddiolch o galon i bawb am y caredigrwydd a'r gefnogaeth a dderbyniwyd ganddi dros y misoedd diwethaf. Gan na fydd yn anfon cardiau eleni, fe ddymuna Selwyn a hithau Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

PROFEDIGAETH. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant i Ruth Lennon a Miriam, Tegfan, Ffordd yr Orsaf, yn eu profedigaeth lem o golli tad a thaid annwyl, Mr Tom Lennon, Llanberis, ac i Ann Parry, Ffordd Bryngwyn, ei chwaer yng nghyfraith.

DIOLCHIADAU. Fe ddymuna Iolo ac Aislinn (Bryn Moelyn) ddiolch yn fawr iawn am ddymuniadau da, cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch fach, Iuilín. Nadolig Llawen i bawb.

PEN-BLWYDD ARBENNIG. Llongyfarchiadau i Natalie, Dolwen, Ffordd yr Orsaf, ar ddathlu ei phen-blwydd arbennig yn un ar hugain oed ar 7 Rhagfyr. Pen-blwydd hapus iawn a llawer o gariad oddi wrth Mam, Dad, Elain a'r teulu i gyd.

MERCHED Y WAWR.

Cychwynnwyd y cyfarfod gyda chân Merched y Wawr ac estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Llywydd, Megan Roberts. Atgoffwyd pawb am y Cwis Hwyl yn y Stables ar 23 Tachwedd a'r Ysgol Undydd i'r Dysgwyr yn Ysgol Maesincla fore Sadwrn, 17 Tachwedd. Cynhelir Twrnameint Bowlio Deg ar 18 Ionawr ym Mhwllheli – bydd angen 6 mewn tîm ac mae Pat yn barod i gymryd enwau.

Gwestai'r noson oedd Enid Mummery, yn enedigol o Langaffo, un weithgar hefo Undeb y Postfeistri ac yn cadw'r post yn Lôn y Bryn, Llanbeblig, Caernarfon. Cafwyd orig ddifyr yn gwrando arni'n olrhain hanes yr hen grefft o ddefnyddio moresg – planhigyn a ddaeth o dde Affrica ac sydd, fel arfer, yn tyfu ar yr arfordir. Ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd y diwydiant o ddefnyddio moresg yn amlwg iawn yn Sir Fôn, yn ardal Niwbwrch. Cychwynnwyd cymdeithasau gwneud matiau mawr ar gyfer teisi gwair y ffermwyr. Gan fod y dynion i ffwrdd am fisoedd yn gweithio ar y llongau, y merched fyddai'n cywain neu brynu'r moresg a'i wneud yn ysgubau, yna wedi iddo sychu, ei socian eto cyn ei blethu'n rhaffau a matiau a basgedi. Roedd y plant hwythau yn rhaffu ar y penwythnosau.

Gan fod y moresg yn prinhau, gorchmynwyd ei warchod. Gwaharddwyd y merched rhag ei gasglu gan fod ei angen i warchod y twyni tywod rhag erydu. Y mae'r moresg felly yn dal yn werthfawr heddiw i achub ein harfordir hardd rhag erydiaeth a diflaniad rhai o'n traethau mwyaf poblogaidd.

Diolchwyd i Enid am sgwrs tu hwnt o ddifyr gan y Llywydd a diolchwyd i Meirwen, Gwenda, Carys a Mair am y baned. Enillydd y raffl oedd Ann Thomas.

Gofynnir i bawb sy'n dod i'r Cinio Nadolig gyrraedd Seiont Manor erbyn 7.00 o'r gloch. Byddwn yn gwledda am 7.30.

Eisteddfod Bentref Llanrug a Cwm-y-Glo

Siôn Eifion Land Bl 3
Enillydd Cwpan Celf Emma Bernard.

Leisa Gwenllian Bl.1
Enillydd Cadair Lowri
(Enillydd Unawd Bl 1 a 2).

Enillydd Cadair yr Eisteddfod – Carwyn George,
Tlws yr Ifanc – Heledd Anna Roberts.

Ceri Griffiths Bl 3
Unigolyn gorau yn y cystadlaethau canu ac adrodd Cynradd.

Aduniad 50 mlynedd cyn-ddisgyblion Ysgol Brynrefail Llanrug

(Cefn, chwith i'r dde): Glyn Sadrach, Gethin Evans, Geraint Elis, Robart Alan, Valere Lambrecht, Irfon Williams.
(Canol): Robart Wyn, Gwilym Williams, Idris Williams, Arwel Jones, Les Jones, Eirlys Jones, Helen, Gwawr Madog Jones, Gwenda Thomas.
(Blaen): Irfon Thomas, Nancy Williams, June Williams, Lynda Lyall, Dilys Mai Maxwell, Pat Williams ac Ann Davies
(Meirion Griffiths nad oedd yn y llun.)

Cynhaliwyd noson ddifyr o gyn-ddisgyblion Brynrefail yn y Victoria, Llanberis, yn ddiweddar. Roedd pawb oedd yn bresennol wedi cychwyn yn yr ysgol yn 1957 neu wedi ymuno â'r flwyddyn yn nes ymlaen. Cafwyd noson ddifyr o sgwrsio, hel atgofion ac edrych ar hen luniau.

Trist oedd cofio am y cynifer o gyd-ddisgyblion oedd wedi ein gadael. Cafwyd pryd blasus a chynhaliwyd raffl, gan wneud elw o £70 fydd yn cael ei gyflwyno i'r ysgol.

Ymddiheuriadau fod cyfenwau'r merched i gyd fel ac yr oeddynt yn yr ysgol!

Eglwys Sant Padarn
Nos Sul Rhagfyr 23ian
am 7.30yh

"Neges y Nadolig ar Lafar a Chân"

yng nghwmni

LL55

(Côr Unedig Eglwysi Llanberis)

Tocynnau ar gael yn siop Formag, gan aelodau neu wrth y drws.

Ysgol Brynrefail

Eisteddfod Ysgol Brynrefail

Dyma un o brif ddigwyddiadau'r ysgol dros y blynyddoedd, a braf yw gallu dweud fod y traddodiad yn parhau unwaith eto eleni. Dros yr wythnosau a arweiniodd at yr eisteddfod gwelwyd myfyrwyr y chweched dosbarth yn cymryd yr awenau ac yn arwain gweddill y disgyblion trwy'r amryfal gystadlaethau. Pan ddaeth y diwrnod mawr ei hun, roedd neuadd yr ysgol dan ei sang a pharhaodd felly o un ar ddeg o'r gloch y bore hyd chwarter i hanner nos!!! Dyma rai'r buddugwyr :

Tlws yr Adran Gymraeg: Gwen Tomos, Blwyddyn 8
Tlws y nifer fwyaf o farciau o flaen llaw: Gwen Tomos, Blwyddyn 8
Tlws Celf: Angharad Gwyn, Blwyddyn 12
Tlws Celf Iau: Lydia Stronge, Blwyddyn 9
Tlws Saesneg: Nicola Owen, Blwyddyn 12
Tlws Saesneg Iau: Manon Elwyn Hughes, Blwyddyn 9
Tlws Mathemateg: Owain Glyn, Blwyddyn 9
Tlws Enillydd y mwyaf o farciau oddi ar y llwyfan: Huw Owen, Blwyddyn 7
Tlws y mwyaf o farciau o flaen llaw: Eryri
Parti Merched: Elidir
Parti Bechgyn: Eilian
Ensemble: Gwyrfai
Parti Ffrangeg: Elidir
Sgets: Elidir
Parti Ffrangeg: Elidir
Dawnsio Disgo: Elidir
Y Gân Ysgafn: Eilian
Parti Llefaru: Elidir
Côr: Eilian
Y Gadair: Iwan Williams, Blwyddyn 12
Tlws yr Ifanc: Gethin Griffith, Blwyddyn 9

Enillydd y Gadair Iwan Williams

Bu bron i 80 o ddisgyblion gystadlu am y gadair eleni a braf yw gallu datgan fod y beirniad, Mrs. Gwyneth Metcalfe, wedi datgan ei balchder parthed safon yr ymdrechion. Canmolwyd iaith, cystrawen a mynegiant ein disgyblion, a nodwyd fod 'awduron', heb amheuaeth, yn eu mysg. Gwaith anodd oedd dewis un ymgeisydd o blith cynifer, ond llwyddodd Iwan i ysgrifennu'n aeddfed a llithrig, ac roedd y cyfan yn syml a diwastraff.

Mae Iwan yn ddisgybl ym Mlwyddyn 12 yr ysgol ac yn astudio Cymraeg, Cerddoriaeth, Hanes a Chemeg. Ei ddiddordebau yw cerddoriaeth – ef yw cyfeilydd Côr newydd sbon LL55, ac mae'n chwarae'r organ yn Eglwys San Padarn bob Sul. Mae o hefyd yn mwynhau seiclo i gadw'n heini. Ei hoff awdures yw Eigra Lewis Roberts. Mae o wedi bod yn rhan allweddol o lwyddiant tŷ Eilian eleni. Dyma stori Iwan:

Colli

'Heb ofni colli'r frwydyr
Na bore na phrynhawn.'

Canodd Edward Ifans fel eos o sedd fawr y capel ymysg plant eraill yr Ysgol Sul. Wedi adrodd y gras rhedai'r plant am adref, newid i ddillad chwarae ac allan am weddill y prynhawn i ymgolli mewn gêm bêl-droed.

* * *

'Mr Ifans! 'Da chi wedi colli coffi hyd grys glân arall! Rhaid chi gymryd mwy o ofal. Mae 'na ddigon o waith i mi yn y lle 'ma heb orfod poeni am grys newydd i chi bob amser paned!' Roedd y metron wedi gwylltio'n gacwn, strempiodd allan o'r parlwr yn melltithio dan ei gwynt.

Eisteddai Edward Ifans yn fud yn ei gadair, syllodd ar batrwm y carped a byseddodd y crys gwlyb wrth i'r coffi dreiddio drwyddo. Ymhen hir a hwyr daeth y metron yn ei hôl, 'Dyma'r crys ola heddiw,' siarsiodd a thaflu'r dilledyn i wyneb yr hen ŵr. Ynganodd yntau yr un gair, dim ond derbyn y driniaeth anheg.

'My God, mae nhw i gyd 'di cholli hi!' meddai'r metron yn surbwch, taflodd un gipolwg dros weddill o aelodau'r parlwr cyn mynd yn ôl at y stori ddifyr yn ei chylchgrawn.

'Heb ofni colli'r frwydyr,
Na bore na phrynhawn.'

Canodd Edward Ifans gan daro pob nodyn o linell y tenoriaid yn berffaith i ddiweddu oedfa arall. Ar ôl ffarwelio â gweddill y dynion ifanc a rhoi winc obeithiol i Mari wrth yr organ, cychwynnodd Edward am adref gyda'i dad. Rhaid oedd disgwyl tan oedfa'r hwyr cyn cael cip arall o Mari'r Hendre; roedd y disgwyl yn hir a melys ac werth pob eiliad.

* * *

'Oh for pity's sake, Mr Ifans! Eto heddiw! Dwi 'di dweud a dweud am hyn yn do, colli coffi eto heddiw!' Roedd Edward wedi colli eto heddiw, colli gafael ar realiti... Dechreuodd ferwi wrth iddo sylweddoli ei gamgymeriad, roedd o wedi gwylltio'r metron eto. Roedd yn saff o ddioddef cerydd am ei esgeulustod.

Tynnodd y metron grys Edward oddi arno'n wyllt gan adael i bawb arall yn y 'stafell weld ei groen, gweld ei wrid a gweld ei gywilydd. Eisteddodd yn ei gadair a'i gefn wedi crymu, roedd ei ben yn ei blu a theimlai fel plentyn ysgol yn cael ffrae. Roedd Edward druan wedi colli ei annibyniaeth eisoes, roedd nawr yn brysur golli ei hunan barch. Llefodd yn dawel a threiglodd y dagrau'n hallt i lawr ei ruddiau rhychiog. Roedd Edward Ifans wedi cyrraedd dechrau'r diwedd ac yn colli'r frwydr.

* * *

'Heb ofni colli'r frwydyr,
na bore na phrynhawn.'

Canodd Edward Ifans yr hen eiriau cyfarwydd, llinell y bâs a ddeuai o'i enau y tro yma. Wedi ffarwelio â hwn a'r llall aeth allan am y car a gyrru am adref. Roedd arogl cinio Dydd Sul yn llenwi'r gegin a Mari yno'n disgwyl yn eiddgar am adolygiad o bregeth y bore hwnnw.

* * *

Yn raddol diflannodd yr arogl cinio ac aeth ffilm meddwl Edward yn dywyll ac aneglur... Deffrodd o drwmgwsg, roedd arogl coffi yn poenydio ei ffroenau.

Roedd yn amlwg wedi colli'r ffordd ar lwybrau heddiw ac wedi ymgolli'n llwyr yn y gorffennol. Brwydrodd y metron, ac ennill unwaith eto. Llwyddodd i fychanu Edward a'i israddio,

'Senile old man, 'di colli'r plot a'i farblis!'

* * *

'Heb ofni colli'r frwydyr,
na bore na phrynhawn.'

Roedd canu go-lew yn yr oedfa'r bore hwnnw hefyd, ond am y tro cyntaf erioed nid oedd meddwl Edward ar y bregeth na'r gân. Roedd ei feddwl ar Mari, ei anwylyd. Roedd y cwpwl wedi dathlu eu priodas aur ychydig ddyddiau ynghynt, ond nawr, roedd Mari yn arnofio ar ffin bywyd a marwolaeth yn yr ysbyty, wedi dioddef trawiad ar ei chalon. Diflannodd Edward o'r capel yn bur sydyn y Sul hwnnw. Roedd y newyddion a dderbyniodd yn y prynhawn yn ormod o ergyd iddo, roedd Mari wedi huno.

O ddydd i ddydd wedi marwolaeth ei wraig dirywiodd cyflwr Edward hefyd. Roedd wedi torri ei galon. Ymhen blwyddyn bu iddo orfod symud i gartref i'r henoed. Hyn oedd dechrau'r diwedd.

* * *

Bu farw Edward Ifans ym mlwyddyn ei ganmlwyddiant. Darganfwyd ef yn ei loft gan y metron. Roedd cwpan goffi wag yn eistedd ar ei soser wrth y gwely a phecyn gwag tabledi yn nwylo Edward.

Y metron gollodd y frwydr y diwrnod hwnnw, nid Edward. Collodd yntau afael ar y presennol ond enillodd lawer mwy drwy'r gorffennol.

Profodd greulondeb drwy dafod a dwylo'r metron yn y cartref ond nawr roedd wedi dianc o boen y byd hwnnw.

* * *

'Chollodd neb y ffordd i'r
Nefoedd,
Wrth dy ganlyn di erioed.'

Nid llais peraidd y bachgen Ysgol Sul, na llais aeddfed y tenor ffol, na llais y baswr bodlon oedd yn atseinio rhwng muriau'r capel y prynhawn yma. Dim ond atsain gwag i feddwl Edward Ifans ac yntau yn ei oedfa olaf, ei angladd.

Chollodd Edward Ifans mo'r ffordd i'r Nefoedd er gwaetha'r driniaeth greulon ac anheg a dderbyniodd yn ystod blynyddoedd olaf ei fywyd.

Mae bellach yn byw'n dragwyddol yn yr oes a fu, wedi ymgolli'n lân yng ngogoniant ei ieuenctid.

Tlws yr Ifanc Gethin Griffiths

Mae Gethin yn ddisgybl ym Mlwyddyn 9. Ymysg ei ddiddordebau mae Gethin yn rhestru pêl-droed, darllen a phob math o gerddoriaeth. Ei hoff awdures yw Bethan Gwanas a'i hoff grŵp yw Derwyddon Dr. Gonzo. Gellir gweld Gethin ar y teledu'n wythnosol gan ei fod yn ddiweddar wedi cael ei ddewis fel gohebydd ar y gyfres deledu boblogaidd *Mosgito*. Yn y dyfodol mae'n gobeithio dilyn gyrfa ym myd cerddoriaeth. Dyma stori Gethin:

Damwain

Clep, clep, clep. Daeth traed mawr i'r golwg mewn ystafell dywyll gyda dim ond cannwyll fel golau.

'Mae'n amser,' dywedodd y dyn tenau, gyda mwstash taclus. Cerddodd ymlaen i wyneb y golau. Yn sydyn, gwelwyd wyneb blin, gyda gwallt blêr yn goron am ei ben.

'Hwn yw'r cynllun gorau ers lladd yr Archddug dau ddegawd yn ôl.' Cerddodd dau ddyn blewog ato, yn gwisgo iwnifform werdd gyda llawer o fedalau arnynt.

'Rydan ni'n barod Syr,' meddai un, yn ei acen Almaeneg gref.

'Mae popeth yn ei le, yn barod i roi uffern i genedl diflas y Pwyl!' medd y llall.

'Ymlaen â chi,' meddai'r arweinydd. Ymgrymodd y ddau arall a gadawsant yr ystafell.

(Ddau fis yn ddiweddarach.)

Cytunodd Elisa bris am ei horiawr gyda'r gŵr busnes a oedd yn sefyll yn llipa y tu ôl i fwrdd brown di-fywyd, a oedd 'nawr yn wag ar ôl diwrnod prysur o waith. Diolchodd hi iddo'n glir, a cherddodd i ffwrdd. Roedd ganddi wallt euraidd a oedd yn sibrwd geiriau tra roedd y gwynt yn ei chwythu. Roedd ganddi lygaid du di-fywyd, a oedd yn adlewyrchu ei bywyd yn berffaith. Cerddodd tuag adref, ei choesau'n denau fel matsen, a'i breichiau'n gleisiau i gyd ar ôl y ffrwgwd ddyddiol a gai hi gan ladron penffordd.

Yn cuddio yng nghornel y stryd yr oedd Synagog – mor ddiflas a hen dŷ gwag. Fel y cerddai hi i'r ardal honno bob dydd, byddai hi'n rhoi ei phen i lawr a sibrwd y gair 'gobaith'. Er fod Iddewiaeth yn grefydd digon poblogaidd yng Ngwlad Pwyl, Cristnogion oedd yn cael y

flaenoriaeth yno. Yn sydyn, clywodd sgrech. Gwelodd ddyn gyda mwgwd tywyll yn rhedeg yn wyllt. Gwaeddodd,

'Esgusodwch fi, ond fedrwch chi ddweud beth sydd yn digwydd?' Anwybyddu wnaeth yntau. Clywodd sŵn bwledi'n taro rhywbeth, a dilynodd sgrech fyddarol. Fe wyddai yn syth beth oedd achos y ffrwgwd. Roedd hi wedi ofni'r diwrnod yma ers pasio deddf Iddewiaeth yn yr Almaen. Atseiniodd llais Almaenwr yn uchel, mor uchel â chloch. Er prin deall Almaeneg yr oedd hi, deallodd hi'r geiriau 'Iddewon' a 'rheolau'.

Rhedodd tuag at dŷ ei chynwarchodwr, a oedd yn groes i'w chynlluniau. Doedd hi ddim eisiau bod yn unig yn y sefyllfa yma.

Pan gyrhaeddodd hi'r bont, sylwodd fod Almaenwr wedi cuddio oddi tano. Penderfynodd fentro, ond roedd rhaid iddi fod yn ddistaw. Du oedd ei dyfodol, meddyliodd. Fel y rhoddodd ei throed ar y bont, neidiodd yr Almaenwr dros yr ochr amdani. Yna, drwy lwc, sylweddolodd nad Almaenwr oedd o, ond dyn bychan, tenau gyda gwallt melyn, yn gwisgo hen grys llwyd. Roedd ei drowsus fel pin mewn papur, yn amlwg ar ei ffordd i achlysur arbennig.

'Helo,' meddai'n dawel.

'Helo, pwy ydach chi?' gofynnodd Elisa'n ofnus,

'Sdim angen poeni,' meddai'r dyn. 'Olam ydw i. Rydw i'n cuddio oddi wrth Almaenwr. Cyrnol, dwi'n meddwl.'

'Ydan ni'n cael ein cosbi am ein crefydd?' gofynnodd hi'n boenus.

'O, ydach chi'n Iddew hefyd felly?' gofynnodd Olam, a nodiodd Elisa. 'R'on i'n meddwl. Dwi'n ofni fod pŵer yr Almaen yn ormod i ni.'

'Rydw i'n gwybod am le i ni fynd. Tŷ Sierra Walbövik,' meddai Elisa'n frysiog. Rhedodd y ddau â'u gwynt yn eu dyrnau.

Erbyn cyrraedd y tŷ roedd lefel sain y bwledi wedi cynyddu'n sylweddol. Roedd y tŷ yn edrych yn wag, ond gwyddai yn iawn fod Sierra fach yn gorwedd yn ddistaw ar y soffa. Cnociodd y ddau'n frysiog a gwaeddodd Elisa,

'Ni sydd yma, Sierra!'

Erbyn i'r drws agor, roedd yr Almaenwyr wedi cychwyn dinistrio'r stryd.

'Dewch i mewn!' mynnodd Sierra, a dyna a wnaethant.

* * *

Y tu mewn i dŷ Sierra, roedd tân glo mawr yn danllwyth o hanes ac atgofion. Cerddodd y tri drwy ystafell wag, ac eistedd ar y llawr.

'Mae'n nhw'n bwerus,' meddai Sierra. 'Mae'n nhw'n beryglus.'

Dywedodd y ddau wrthi am eu hantur ddiweddaraf.

'Mae'n rhaid i ni gael cynllun!' meddai Olam, cyn darganfod fod darn o'r llawr yn rhydd.

'Dyna yw'n cynllun,' meddai Sierra gan bwyntio at y darn o'r llawr.

'Beth yw ein cynllun?' gofynnodd Olam, a oedd wedi drysu.

'Y llawr.' Pwyntiodd Sierra eto at y pren y tarodd Olam yn gynharach. 'Rydan ni fel teulu wedi adeiladu...'

'Teulu?' torrodd Elisa ar ei thraws.

'Ie, fy meibion a finna. Rydym wedi adeiladu twnnel sy'n arwain i goedwig hanner milltir i ffwrdd.'

'Pam?' gofynnodd Olam.

'Ffoi rŵan, cwestiynnu wedyn.'

* * *

Fel y disgynnon nhw i'r twll, clywson nhw danc yn rholio i mewn i'r stryd fel eliffant mawr gwyrdd.

'Lwcus,' meddai Olam o dan ei wynt. Ar ôl cryn dipyn o gropian gwelsant gerflun bach o Fwdha caled allan o garreg.

'Mae hwnna yma ers i ni fod yma y tro diwetha, mae'n rhaid,' meddai Sierra yn sydyn. 'Brysiwch,' meddai hi wedyn. Pan gyrhaeddodd y tri'r goedwig, gwelson nhw bum cant o dyllau bach, yn llawn o bobl yn bwyta bwydydd o bob math.

'Croeso i'r Undeb Iddewiaeth,' meddai Sierra. 'Lle i'r Iddewon ffoi o fywyd cas, sydd yn addas iawn ar gyfer yr adeg yma.' Edrychodd Olam i fyny, gwelodd fflachiadau o'r dref. Gofynnodd Elisa,

'Pwy yn union wyt ti, Olam?'

'Mi o'n i'n byw mewn cartref preswyl yn Awstria. Rydw i'n Iddew, a dwi'n meddwl mai Gregory oedd enw fy nhad. Dwi gwybod dim mwy.' Atebodd yntau a'i wyneb mor wyn ag eira. Cerddodd y tri i mewn i dwll gwag a sibrydodd Sierra,

Mae gennyf i frawd o'r enw Gregory hefyd.' Pendronodd y tri'n ddistaw.

'Beth yw'r cynllun? Pryd y mae'r brwydro'n mynd i ostegu? Mae arna i ofn,' meddai Elisa.

'Yli, Elisa. Cofia'r dyfyniad hwn, "Na ofna ddyfodol gwell." Golyga hynny, dwyt ti ddim yn gwybod beth sydd i ddod, er fod heddiw'n ddiwrnod tywyll.'

'Sh!' meddai Olam, yn poeni am oresgyniad yr Almaenwyr.

* * *

'Rydw i'n llwglyd. Mi a i i chwilio am fwyd i ni i gyd,' meddai Elisa, cyn rhedeg i ganol y goedwig gydag aelodau o deuluoedd eraill.

'D'wed wrthaf fi, Olam, beth oedd swydd dy dad?' gofynnodd Sierra.

'Saer, dwi'n tybio,' atebodd.

'Saer? Sut wyt ti'n gwybod hynny?'

'Oherwydd fod yr enw G.Kokjvik ar hen gadair bren a oedd gen i adref," meddai, a'i wallt yn siffrwd yn y gwynt ysgafn, a oedd yn cael ei fyddaru gan ddüwch bwledi'r Almaenwyr.

'Kokjvik?' gofynnodd Sierra. 'Faint yw oed dy dad?'

'Mae wedi marw ers 1923, dyna pam yr ydw i wedi bod yn byw mewn cartref preswyl ers i mi ddod i oed y flwyddyn ddiwethaf,' medd yntau'n drist.

'Marw wrth...?' Gofynnodd Sierra yn hy.

'Disgyn oddi ar bont. Baglu dros Fwdha bach, ddywedodd yr heddlu pan es i yno i holi.'

'Bwdha? Mae'n swnio'n gyfarwydd iawn.'

'Ydy o? Sut felly?'

'Ie, y Bwdha yn y twnnel. Dywedodd fy mab ei fod wedi darganfod Bwdha ar y bont lle bu... farw fy mrawd.' Dechreuodd dagrau fyrlymu fel afon fach o'i llygaid mawr.

'Olam Kokjvik?'

'Ie,' meddai yntau'n ddryslyd.

'Olam, fi yw dy fodryb, Sierra Walbörvik,' meddai Sierra cyn ei gofleidio'n ddiddiwedd. 'Kokjvic oedd fy nghyfenw cyn priodi 'sti.'

'Waw, drwy ddamwain y gwnes i gael hyd ichi!' gwenodd Olam.

'Mae fy nyfyniad yn wir felly, tydi. Daeth da allan o ddrygioni'r Hitler 'na yn y diwedd. Ond cofia di, dwi dal yn ei gasau o!'

'Fedrwch chi ddweud mwy am fy nhad, felly?' gofynnodd Olam yn obeithiol.

'Medraf,' medd hithau. 'Mi roedd o'n driw i'r Synagog ers ei fod o'n blentyn – yn moli Duw o ddydd i ddydd.' Gollyngodd ei dwylo oddi am Olam a dechreuodd grio eto.

'Roedd o wedi disgyn mewn cariad â dynes ifanc o'r enw Bernie Anne pan oedd yn ei ugeiniau cynnar. Nid oedd o'n gwybod mai ei ddarpar wraig oedd hi, cofia. Fe aeth y ddau i Fienna yn Awstria i briodi yn 1919. Cofia di, rydw i lawer hŷn na dy dad, o dri deg mlynedd bron. Wedyn, aeth y ddau i fyw i bedwar ban byd nes cyrraedd yn ôl yma yng ngwlad Pwyl.

'A dyna pryd...'

Cyn iddi gael cyfle i orffen disgynnodd y Bwdha allan o'r twll ffoi ac i mewn i dân. Ffrwydrodd hwnnw a chlywodd y ddau weiddi mawr.

'Yn y goedwig!'

'Mae Iddewon yn cuddio yno,' dywedodd dyn arall cyn saethu bwled anferth o'i danc.

Rhedodd Elisa'n ôl drwy'r goedwig gyda'i gwynt yn ei dwrn gan weiddi

'Rhedwch!'

Aeth Olam yn wallgo a rhedodd nerth ei draed i ddarganfod lleoliad i guddio.

Meddyliodd Elisa am y Bwdha – y Bwdha a laddodd brawd Sierra, yr un Bwdha a oedd wedi datgelu cuddfan degau o Iddewon. Dringodd y tri y goeden agosaf, ond disgynnodd Sierra i lawr oherwydd roedd wedi blino'n llwyr

Tarannodd cannoedd o filwyr a phum tanc drwy'r coed a gafaelodd y rhai oedd ar droed yn Sierra. Gwaeddodd hi,

'Achubwch eich hunain, mi fydda i yn iawn.'

'Anti Sierra!' gwaeddodd y ddau arall mewn unsain. Disgynnodd y ddau o'r goeden fel roedd yr Almaenwyr ar fin ei thorri, i mewn i'w gafael cas. Cawsant eu trywannu gan hylif cysgu mewn chwistrell, ac aeth y byd i gyd yn ddu.

* * *

Pan ddeffrodd y ddau ynghanol y nos, roeddent mewn car gwyrdd, yn cael ei lywio gan Almaenwr main, gyda phen moel.

Drwy lwc roedd y ddau wedi deffro wrth ymyl ei gilydd. Gwaeddodd Olam,

'Lle mae Sierra Walbövik?'

'Yn rhywle gwell,' atebodd y gyrrwr yn ei Almaeneg graenus. Stopiodd y car yn stond ac aeth yr Almaenwr allan cyn agor y drws cefn a thynnu'r ddau allan. Gosodwyd sgarffiau du am eu cegau.

Cerddodd y ddau o dan oruchwyliaeth yr Almaenwyr at ddesg. Dywedodd y ddynes y tu ôl iddi,

'Bechgyn, i mewn i fanna!' a phwyntio at yr adeilad enfawr y tu ôl iddynt. Ni wyddent lle yr oeddent o gwbwl. Cerddodd Olam i mewn a cheisiodd Elisa sgrechian.

'A chi, ferched – i mewn i'r ystafell ymolchi, chi'n edrych yn fudur, madam!' ychwanegodd.

'Dilynwch fi, miss,' meddai Almaenwr arall, a dyna wnaeth hi yn ufudd.

Roedd yr adeilad yn llawn siambrau a oedd yn edrych fel rhes o gawodydd.

'Dim ond cawod fach fydd e,' meddai'r Almaenwr. 'Ewch i mewn.'

Aeth i mewn yn y gobaith mai dyna oedd.

'Enw, plis!'

Elisa...'

'O ia, rhif 23 y'ch chi, miss!' gwenodd yn slei. Caeodd y drws yn glep ar y siambr, 'Rhif 23?' meddyliodd Elisa. Cychwynnodd y siambr boethi a daeth dŵr glân gloyw o dan ei thraed, ond nid dyna a ddaeth allan o'r chwistrell uwchben ond nwy gwyrdd afiach.

'HELP!' gwaeddodd. 'MAE RHYWBETH WEDI MALU,' cyn sylweddoli mai dyma'n union oedd y cynllun. 'HELP!' gwaeddodd eto, ac eto, ac eto nes iddi ddechrau mygu, a mygu, a mygu, a... marw. Disgynnodd ar lawr y siambr cyn i'r Almaenwr wthio botwm a wnaeth i'r siambr ollwng y corff i berfeddion du gwersyll yr Almaenwyr. Drwy ddamwain y darganfuwyd y tri – drwy grefydd y digwyddodd y ddamwain.

Eisteddfod Bentref Llanrug a Chwm y Glo

Wrth i'r *Eco* fynd i'r wasg daeth canlyniadau'r eisteddfod bentref i law. Braf yw gallu cyhoeddi mwy fyth o lwyddiant i nifer o ddisgyblion yr ysgol yn y maes eisteddfodol.

Yn fuddugol yng nghystadleuaeth y Gadair roedd Carwyn George o flwyddyn 13, ac yn fuddugol yn Nhlws yr Ifanc roedd Heledd Anna Roberts o flwyddyn 9. Llongyfarchiadau gwresog i'r ddau ohonoch.

Eisteddfod Ysgol Brynrefail

Capteiniaid Eilian ac Eryri, y tai buddugol.

Capteiniaid Elidir.

Genod Elidir yn Dawnsio Disgo.

Gwen Tomos – Tlws Cymraeg a thlws am y mwyaf o farciau ymlaen llaw.

Huw Owen – enillydd tlws am y nifer mwyaf o farciau o'r llwyfan.

Lydia Stronge – Tlws Celf Iau.

Manon Elwyn – Tlws Saesneg Iau.

Owain Glyn – Tlws Mathemateg.

Nicola Owen – Tlws Saenseg.

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- **Pob math o ddodrefn tŷ**
- **Cegin, 'stafell fyw, llofft**
- **Prisiau cystadleuol**
- **Carpedi, Llenni a Lloriau Pren**

CYFARCHION TYMOR

i bawb yn yr ardal
oddi wrth
TRÊN BACH LLYN LLANBERIS
Mae Siôn Corn yn ôl efo ni ar Rhagfyr 8, 9, 15 ac 16

Ffôn: **01286 870549**
am fanylion

Perchnogion Llongau yn y Chwarel

Cawsoch hanes yr Undeb y mis diwethaf, a paham y daeth i fodolaeth. Y mis hwn fe gewch bwtyn o'r ochr arall i'r geiniog – sef, bod yn y chwarel hefyd berchnogion cyfranddaliadau mewn cwmnïau llongau.

Un cwmni a oedd yn enwog am gael chwarelwyr yn gyfranddalwyr ynddo oedd y Gwynedd Shipping Company, a oedd â swyddfa yng Nghaernarfon. Roedd ganddynt bedair o longau barque haearn, sef y *Moel Eilian*, *Moel y Don*, *Moel Tyrfan* a *Moel Rhiwan*. Y pedair wedi eu hadeiladu gan William Doxford yn Sunderland.

Allan o 143 o gyfranddalwyr y cwmni, roedd 121 ohonynt yn chwarelwyr o bentrefi Llanberis, Deiniolen, Waunfawr a Rhostryfan.

Fe sefydlwyd cwmni arall, sef Cwmni Llongau Arfon, gyda'u swyddfa yn 24 Bangor Street, Caernarfon, a hefyd Cwmni Llongau Eryri. Roedd y cwmnïau hyn yn berchnogion ar y llongau *Glandinorwic*, *Glanperis*, *Glanpadarn* a'r *Glanivor*.

Byddai'r llongau yn cwrydro o amgylch y byd. Yn aml iawn gwnaent fordeithiau i bob cyfandir a byddent i ffwrdd am fisoedd maith yn y degawdau 1880 ac 1890au. Eu prif gargo fyddai guano o Peru neu wenith o dde America.

Erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg roeddynt, fel cwmnïau, wedi darfod â bod a'r llongau wedi eu colli neu eu gwerthu.

* * *

Roedd gan gwmni llongau o Gaerdydd, sef Evan Thomas & Radcliffe Co. Ltd., ddwy long stêm o'r enw *Llanberis*. Roedd y *Llanberis* gyntaf yn nwylo'r cwmni o 1890 i 1912 yn pwyso 2269 tunnell, ac wedi ei hadeiladu yn 1890 gan Roper o Stockport. Fe'i hailenwyd hi yn *Baiminton* yn 1910 ac wedyn ei gwerthu i wlad Groeg yn 1912 a'i hailenwi eto yn *Coronians*.

Fe gafodd yr ail *Llanberis* ei hadeiladu gan Harland & Wolf, Belfast, yn 1928 ac roedd yn llynges y cwmni tan 1950. Roedd hi yn un o'r pum llong a ddaeth trwy'r Ail Ryfel Byd allan o bymtheg o longau oedd gan y cwmni yn 1939. Pwysau'r llong oedd 5055 tunnell, ac eto fe'i gwerthwyd i wlad Groeg a'i henwi yn *Theoskepasti*.

Llongau tramp oedd y rhain fel y rhan fwyaf o longau Caerdydd. Glo allan, ac unrhyw gargo adref.

R. Elwyn Griffith

Anfonwyd y llun hwn o'r holl arwyddion sy'n eich arwain i faes parcio gwesty Victoria i'r Eco gan un o'n darllenwyr!

Oes angen geiriau!!

Anrhegion Nadolig Perffaith

CRYNO DDISGIAU: Bob Owen Croesor: Dyfed Evans £7.
Dwy bregeth: Emlyn Richards £6.
Morgan Griffith, Penmount/Dafydd Parry, Ocsiwniar: Meirion Lloyd Davies £6.
Llosgi Penyberth 1936: Geraint Jones. £5.
LLYFRAU: Melin Faesog: Sophia Pari-Jones £4.
Trefor: Dafydd Williams a Geraint Jones £5.
Eben Fardd: Dawi Griffiths £4.
Hen Ysgol Eben Fardd: Emlyn Richards £3.

Ar gael yn eich siop lyfrau neu trwy'r post o Ganolfan Hanes Uwchgwyrfai, Clynnog Fawr, Caernarfon. LL54 5BT
☎01286 660 853 ebost: hanes@uwchgwyrfai.com

Hywel Williams
Aelod Seneddol

Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth
8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE

neu

e-bost: **williamsgw@parliment.uk**



J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Silver STAR
GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333

Ar Ben Arall y Lein

Adroddiad y Cadeirydd 2007

Yn ystod ail wythnos mis Hydref rwyf wrthi'n dechrau ysgrifennu'r adroddiad blynyddol ar weithgareddau'r Gymdeithas ac, fel mae'n digwydd mae'n gyfnod o ddyddiau heulog braf. Da i ddim i 'sgotwyr, yn ôl y sôn, ac eto heddiw roedd aelodau yn pwyso ar bont Crawia yn yr haul ac yn gwylio hanner dwsin o eog braf yn y rhediad wrth ochr y llwybr. Pysgod da hefyd. Roedd un pysgotwr yn diddanu'r lleill drwy taflu pluen felen drostynt, a'r pysgod yn cymryd dim mymryn o sylw heblaw bod y bluen yn dod yn syth amdanynt – a'r amser hynny roeddynt yn symud yn urddasol i'r ochr cyn closio'n ôl at ei gilydd wedi i'r bluen basio. Sbel fach o hwyl mewn tymor cymysg.

Bu tywydd tebyg ar ddechrau'r tymor hefyd a'r afonydd yn 'sgota'n dda am frithyll o'r dechrau. Roedd y llynnoedd hefyd wedi dechrau'n dda ac wrth i'r cynhesrwydd barhau roedd daliadau'n dod yn gyson ar Nantlle a Chwellyn, yn arbennig.

Ac wedyn fe ddechreuodd fwrw glaw am wythnosau, ac roedd hi'n bleser gweld y ffasiwn ddŵr. Fe aeth mwy nac un aelod allan ar bob lli i chwilio am eog yn gynt na'r arfer, ond siom gafodd y rhan fwyaf. Ym mis Gorffennaf fe ddechreuodd y sewin redeg i'r Afon Llyfni ac, yn ôl pob sôn, maent wedi dal i redeg ers hynny. Daliwyd niferoedd da o bob maint yn ystod y dydd, yn arbennig felly yn ystod oriau'r nos dros yr wythnosau canlynol. Roedd straeon am resi o 'sgotwyr ym Mhontllyfni a phawb yn dal. Ni chlywyd fawr o sôn am ddaliadau ar y Gwyrfai, ac am dymor arall prin oedd y sewin ar y Seiont tan y dyddiau dwythaf.

Wnaeth y dŵr ddim drwg i'r llynnoedd chwaith ac yn ystod yr haf, unwaith eto, roedd aelodau ac ymwelwyr yn cael llwyddiant ar lannau Llyn Dywarchen. Cafwyd torgoch yn yr haf ar Lyn Padarn a daeth nifer dda o frithyll i'r rhwyd yno hefyd, rhai da iawn yn eu plith.

Gwaetha'r modd cafwyd mis Medi cymharol sych, ond pan ddaeth lli ar ddiwedd y mis roedd hi'n amlwg fod pysgod wedi rhuthro o'r môr ar hyd y Seiont. Roedd un neu ddau wedi aros am ychydig mewn ambell bwll neu rediad, a daliwyd nifer dda o eog. Rhai yn eithaf bach eu maint ond ffres fel swllt newydd a llau môr â chynffonau hir arnynt. Tybed bod rhai o'r rhain yn bysgod na welwyd yn y blynyddoedd ddiweddar tra bod yr holl rwydo ar arfordir yr Iwerddon? Edrychwn ymlaen at yr estyniad eto at ganol mis Tachwedd. Gobeithiwn y daw tywydd hydrefol i lenwi'r afon o bryd i'w gilydd yn ystod y mis, a bydd rhai o ddarllenwyr yr adroddiad yma wedi cael hwyl arni yng nghyfnod yr estyniad fel y cawsom y llynedd.

Cofiwch hefyd ein bod ni wedi rhyddhau gleisiaid *(smolts)* yn ystod y gwanwyn o'r ddeorfa yng Nghrawia. Y gobaith yw y dychwelant i'r Seiont yn ystod 2008. Maent wedi cael torri'r asgell fras cyn eu rhyddhau ac fe fydd yn bwysig y tymor nesaf nodi unrhyw eog heb asgell fras sy'n cael ei ddal. Braf fuasai gweld cynnydd yn y daliad a hwnnw'n cynnwys y pysgod yma.

Mae cryn dipyn o ddadlau wedi bod ynglŷn â manteision neu anfanteision stocio. Wrth i ni ddechrau'r cynllun flwyddyn yn ôl roedd Asiantaeth yr Amgylchedd yn gefnogol iawn ond, yn annisgwyl yn ystod 2007, maent wedi penderfynu na allant gefnogi'r cynllun ymhellach – oherwydd costau ariannol a pholisi cenedlaethol yr Asiantaeth ar stocio – ymysg rhesymau eraill. Fe'n siomwyd i raddau sylweddol gan rai o weithgareddau'r Asiantaeth eleni.

Bu'r aelodau a'r pwyllgor yn brysur mewn meysydd eraill hefyd. Flwyddyn yn ôl fe drefnwyd cyfarfod rhwng y pwyllgor gwaith a'n Aelod Cynulliad, Alun Ffred. Trafodwyd sawl mater ond eto ac eto daeth y sgwrs yn ôl at y bygythiad i'n hawliau gan y canŵs. Gyda braw y clywsom Alun Ffred yn dechrau'r drafodaeth drwy ofyn,

'Beth yw'r broblem sydd ganddoch efo'u caniatáu nhw?'

Ond, wrth drafod, fe ddaeth yn amlwg mai anwybodaeth cymharol ddiniwed o'r sefyllfa oedd wedi arwain at y cwestiwn. Erbyn diwedd y noson roedd wedi dysgu cryn dipyn am y ddadl o'n hochr ni, y rhai sydd yn berchen ar y tir, y dyfroedd a'r hawliau sydd dan fygythiad. Cytunodd nad oedd yr un ffordd ymlaen ar wahân i gytundebau gwirfoddol, ac nad oedd mynediad agored am fod yn dderbyniol. Gawn ni weld!

Cafwyd arwerthiant llwyddiannus a hwyliog yng Ngwesty'r Dolbadarn ym mis Mawrth. Mae diolch mawr i'r rhai a ddaeth ag offer i'w werthu ac i bawb a gefnogodd y noson, yn arbennig i'r rhai a wnaeth y trefniadau.

Mae'r clwb wedi bod mewn bodolaeth mewn un ffurf neu'i gilydd ers y flwyddyn 1908. Mae cenedlaethau o bysgotwyr lleol wedi profi yr un wefr a'r un amheuon â ni dros ganrif o dymhorau ar lannau hynafol ein dyfroedd, tra bod cymdeithas a'r byd wedi newid tu hwnt i ddychymyg yr un o'n cyndeidiau. Prin y buasai pysgotwr hamdden oes y Rhyfel Mawr yn adnabod ein byd ni, ac eto petai posib ei gwrdd ar lan yr afon tybiwn y buasai sgwrs ddifyr a melys yn ein huno mewn ychydig funudau.

Mae angen dathlu llwyddiant y Gymdeithas, nid yn unig i oroesi, ond i ffynnu a llwyddo i gynnig pysgota ar ddewis eang o lynnoedd ac afonydd yr ardal. Mae angen diolch i pawb sydd wedi cefnogi'r Gymdeithas dros y degawdau. Yn arbennig felly eleni, fe gawsom longyfarch Mr Cledwyn Jones, Caeathro, sydd wedi gwasanaethu ar y pwyllgor gwaith am hanner canrif.

Roeddym wedi meddwl rhoi llyfryn at ei gilydd gyda rhywfaint o erthyglau a lluniau yn adlewyrchu hanes y Gymdeithas a physgota yn y cylch i ddathlu'r canmlwyddiant. Ond, yn anffodus ychydig iawn o ddeunydd sydd wedi dod i'r golwg. Efallai, wrth gwrs, bod hyn yn adlewyrchu hanes yr ardal, a bod camera yn beth anghyffredin ymysg pysgotwyr a theuluoedd y fro tan y degawdau diweddar. Os oes lluniau neu unrhyw ddeunydd ysgrifenedig am y blynyddoedd â fu ar gael yn rhywle, buasai'r ysgrifennydd yn falch iawn o'u gweld. Nid oes penderfyniad pendant wedi ei wneud ynglŷn â'r posibilrwydd o gynhyrchu llyfryn hyd yn hyn.

Diolchaf ar eich rhan i bawb sydd wedi cyfrannu at weithgareddau'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn. Hoffwn ddiolch ar ddiwedd y flwyddyn yn arbennig i'r ysgrifennydd am ei waith yn 2007. Diolchaf hefyd i'r trysorydd, y cyfarwyddwyr a holl aleodau'r pwyllgor am eu gwaith.

Ar ran y Pwyllgor a'r swyddogion hoffwn gynnig ein dymuniadau gorau i chi a'ch teuluoedd dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, a phob hwyl gyda'r enwair yn 2008.

DR. ROBIN PARRY, LLANBERIS
CADEIRYDD

Emyr a Siân Wyn Gibson

perthyn

Mae'r brawd a chwaer amryddawn o Ddeiniolen yn rhyddhau CD ar y cyd am y tro cyntaf. Mae gan Siân gefndir clasurol ac mae ei doniau wedi mynd â hi o lwyfannau eisteddfodau lleol i'r byd canu opera proffesiynnol.

Adnabyddir ei brawd, Emyr, am fath arall o opera, sef ei ran fel Meical yn yr opera sebon *Rownd a Rownd*. Clywir ef hefyd mewn sioeau cerdd a thrwy berfformiadau bywiog efo'i fand – Emyr Gibson a'i Fand.

Yma maent yn creu dehongliadau newydd, cyffrous o ganeuon poblogaidd; eu steiliau gwahanol yn asio yn y modd mwyaf naturiol Profir unwaith eto, ymysg cantorion, pa mor hynod lwyddiannus ydi cywaith teuluol.

Bydd y CD newydd yn cael ei ryddhau mewn cyngerdd arbennig yn Galeri, Caernarfon, nos Iau, 13 Rhagfyr am 7.30 o'r gloch. Yn ymuno gyda'r ddau bydd y gantores werin a'r actories, Siwan Llynor, a fu'n lansio'i CD cyntaf yn Galeri y llynedd. Hefyd, John Eifion a Lois Eifion Jones, ynghyd â band byw. Tocynnau £8.00

I archebu'r crynoddisg yma ewch i www.traciaucymraeg/.com neu ffoniwch Recordiau Aran ar (01286) 831345.

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

Ymweliad

Croesawyd Susan Hill o gwmni Cynefin. Mae'r cwmni hwnnw, mewn cydweithrediad â chwmni arall, yn gwneud gwaith ymchwil i Gyngor Gwynedd (CG) ar safle hen chwarel Glyn Rhonwy. Ystyried dyfodol y lle ydi'r bwriad a phenderfynu beth fyddai'n addas ar gyfer y dyfodol. Beth sy'n debyg o siwtio'r safle a beth sy'n debyg o lwyddo, gan ystyried anghenion lleol.

Holwyd a oedd angen un cynllun mawr os oedd angen datblygu'r safle o gwbwl. Pwysleisiwyd y dylai beth bynnag a sefydlir yno fod yn rhan o wead yr ardal yn hytrach na bod yn sefydliad hunan gynhaliol. Dywedwyd nad datblygiad mawr twristaidd uchelgeisiol a fyddai'n dod â gweithwyr o'r tu allan oedd yr unig ateb, ac fod angen cofio fod cyflwr y ffordd a oedd yn arwain i Lanberis o'r ddau gyfeiriad yn anaddas i gynydd sylweddol mewn trafnidiaeth. Holwyd onid oedd ychydig o dai fforddiadwy yn un dewis gwerth ei ystyried ar ran o'r safle. Diolchwyd i Susan Hill am ddod i gyfarfod y Cyngor, a gofynnwyd iddi sicrhau fod y Cyngor yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau pellach.

Materion yn Codi o'r Cofnodion

• Adroddwyd fod rhai o'r canghennau oedd yn gwyro dros y llwybr cerdded wedi eu torri rhwng Llanberis a Phenllyn.

• Adroddodd y Clerc fod Cyngor Gwynedd wedi ei atgoffa mai cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned (CC) ydi'r ddwy arosfa bysiau, y naill ger Stesion Wyddfa a'r llall yn Nantperis. Penderfynwyd trefnu i'w glanhau cyn gynted â phosib.

• Tir Pont Fictoria. Mae'r Clerc wedi ysgrifennu at berchnogion yr arwyddion yn gofyn yn garedig iddynt eu symud cyn diwedd Tachwedd. Ychwanegodd nad oedd eto wedi cael gwybod mwy am ganllawiau a rheolau gosod arwyddion oddi wrth CG.

• Bu'r Prif Gwnstabl, Richard Brunstrom ar ymweliad â Llanberis ar yr 22ain o Hydref. Cerddodd o gwmpas y pentref yng nghwmni nifer o heddweision eraill, yn cynnwys yr Heddwas Cymunedol, Cadeirydd a Clerc y CC a'r Cynghorydd Trefor Edwards.

Adroddwyd ei fod wedi cyfeirio at nifer o ddiffygion a bu cryn drafod ar flerwch diangen mewn mannau. Cyfeiriwyd a thrafodwyd amryw feiau; bylchau mewn waliau, sbwriel, graffiti, arwyddion parcio hen a diangen, ynghyd â rhai cyfreithlon mewn lleoedd peryglus (e.e. Pont Fictoria). Tir wedi tyfu yn wyllt, parcio ar balmant yn y maes parcio ar draws y ffordd i Glwb y Legion, gwair heb ei dorri, giât ar goll, meinciau angen eu trwsio.

Er fod hon yn ymddangos yn rhestr hir, mân bethau ydynt yma ac acw mewn gwirionedd, ac ar y cyfan roedd y PG o'r farn fod y pentref yn edrych yn bur dda. Roedd yn amlwg, meddai, fod y mwyafrif o bobl â balchder yn eu heiddo a'u cymuned. Fe drefnodd i'w swyddogion fynd ar ôl rhai pethau a bydd y Cyngor yma'n edrych ar y gweddill. Cytunwyd mai da o beth oedd cael ymweliad gan Brif Gwnstabl Heddlu'r Gogledd, a gobeithir y bydd yr ymweliad a'r trafod yn ddigwyddiad blynyddol. Diolchwyd iddo ar ran y CC gan y Cadeirydd ED.

Yn dilyn yr adroddiad gan y Cadeirydd a'r Clerc cafwyd trafodaeth bellach. Adroddwyd i'r Cynghorydd Sir ddweud fod cynllun i ehangu'r maes parcio y cyfeiriwyd ato uchod, ac i godi tâl am barcio yno. Nid pawb oedd yn hapus â hynny gan y gallai gael effaith ar y pentref, a nodwyd fod rhai gweithwyr yn y pentref yn parcio yno drwy'r dydd. Ym marn rhai, gresyn fyddai colli'r boncen welltog, sy'n boblogaidd i rai'n cael picnic, rhwng y maes parcio a'r llyn; ond byddai ehangu'r safle o bosib yn golygu na fyddai parcio wedyn ar y palmant. Mae hynny yn broblem sylweddol ar hyn o bryd. Adroddwyd gan y Clerc fod llythyr wedi mynd at Gyngor Gwynedd ynglŷn â'r parcio anghyfreithlon hwn. Nodwyd hefyd fod carafanetiau yn parcio yno'n gyson dros nos, yn ddi-dâl.

Mewn trafodaeth bellach nodwyd mai da o beth fyddai clustnodi swm o arian, yn y flwyddyn ariannol nesaf, tuag at gyflogi rhywun yn achlysurol i dwtio a chymenu rhannau o'r pentref. Cytunwyd i drafod hynny adeg y praesebiad blynyddol.

• Gorchymyn Traffig Arfaethedig, 22 Stryd Fawr, Llanberis. – Adroddwyd fod llythyr wedi ei dderbyn oddi wrth berchennog y siop trin gwallt yn gwrthwynebu'r cais yma; ac yn rhyfeddu na fu i'r CC ystyried gwrthwynebu. Adroddodd y Clerc ei fod wedi cysylltu rhag blaen â CG, a'i fod wedi cael ar ddeall na fydd y man parcio anabl yn cael ei sefydlu o flaen rhif 22, ac y bydd ailystyried y mater ymhellach. Roedd hefyd wedi cysylltu â pherchennog y siop ac egluro'n llawn y cefndir. Nodwyd fod angen ystyried materion fel hyn yn fwy gofalus yn y dyfodol.

• Un Llais Cymru: cafwyd adroddiad gan y Cadeirydd fod cynlluniau ar y gweill gan ULlC i hyfforddi cynghorwyr ac y bydd Cod Ymddygiad Cynghorwyr newydd yn ymddangos yn fuan.

Cynllunio

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE):

• NP3/15/T173A – *Gosod paneli haul ar edrychiad deheuol y to, gosod ffliw allanol ar yr edrychiad gorllewinol, a codi tyrbin gwynt. (8m o uchel, 1.7m ar draws y llafnau)* – Helfa Fawr, Llanberis – dim gwrthwynebiad.

Apêl

Cafwyd llythyr oddi wrth APCE yn nodi fod Apêl i'w gynnal mewn perthynas â Chais Cynllunio Rhif: NPS/15/22G – *Dymchwel garej yng nghefn y G&B, codi 2 dŷ pâr. Adnewyddu a throsi G&B yn dŷ 4 ystafell wely a siop* – Glyn Peris a thir ger Glyn Peris, Nantperis.

Rhif Apêl yr Arolygiaeth: APP/H9504/A/07/2059003/WF.

Mae llythyr APCE yn gofyn a ydi'r CC am i'r llythyrau o wrthwynebiad a anfonwyd ganddo sefyll ar gyfer yr Apêl, neu a oes unrhyw beth arall i'w ychwanegu. Penderfynwyd nad oedd, ac y dylai'r ohebiaeth fod yn rhan o'r Apêl. Mae chwech wythnos o'r 9fed o Dachwedd ar gyfer unrhyw gysylltu pellach â'r Arolygiaeth.

Wedi eu Caniatáu / Gwrthod CG:

Gwrthod:

• C06A/0906/15/LL: - *Codi un tŷ* – 9 Llainwen Uchaf, Llanberis.

Caniatáu

• CO7A/0561/15/LL – *Estyniad cefn a newidiadau allanol i'r adeilad presennol yn ogystal â newidiadau mewnol i'r bwyty a chreu llety gwyliau gwasanaethol ac ystafell aml bwrpas* – Y Bistro, Stryd Fawr, Llanberis.

• CO7A/0670/15/LL – *Estyniad yn y cefn* – Meifod, 53 Stryd Fawr, Llanberis.

• CO7A/0704/15/LL – *Estyniad ochr/cefn deulawr* – Penygraig, 8 Tŷ Du, Llanberis.

Gohebiaeth

• Cau Ffordd: Adroddwyd fod rhybudd wedi ei dderbyn am y bwriad i gau'r ffordd fawr adeg Marathon Eryri

• Cafwyd gwahoddiad i'r Cadeirydd a'r Clerc i ymuno â Chadeirydd CG i gael golwg ar y gwaith adnewyddu a wnaed ym Mhlas Pengwaith, Llanberis bnawn Mercher y 5ed o Ragfyr.

• Derbyniwyd llythyr oddi wrth Uwch Syrfëwr Stadau CG yn holi a oedd y CC yn dymuno adnewyddu prydles 'Angorfa', 2 Stryd y Ffynnon. Mae'n meddiant y Cyngor ers 1996, ond daeth i ben rai blynyddoedd yn ôl. Mae gan y Cyngor dri dewis, adnewyddu'r brydles hadnewyddu ar rent y farchnad, prynu'r rhyddfraint wedi'r eiddo gael ei brisio gan y Prisiwr Dosbarth neu ildio'r brydles. Byddai CG wedyn yn gwerthu'r eiddo. Trafodwyd y mater ond gan mai nifer fechan o gynghorwyr oedd yn bresennol ac fod angen cartref i Arddangosfa T. Rowland Hughes, penderfynwyd gohirio'r penderfyniad am y tro. Yn y cyfamser gofynnwyd i'r Clerc gael sgwrs bellach â'r Uwch Syrfëwr Stadau. Cynnig ac eilio: DP / IO.

Derbyniwyd nifer o ddogfennau ymgynghorol.

1. Cynllunio Gwastraff Rhanbarthol – OG
2. Gweledigaeth y Bwrdd Iechyd Lleol, Strategaeth Drafft Gwell Iechyd – Gwell Gwynedd – HS
3. Ymgynghoriad Pellach ar Ddyfodol Llawfeddygaeth y Fron yn Ysbyty Llandudno – HS
4. Cynllun Gwella Gwynedd – Clerc

Unrhyw Fater Arall

• Adroddwyd fod y CC wedi derbyn tâl gan y Cyngor Eglwysig am dorri gwair Mynwent Sant Peris.

• Cytunwyd y dylid gwneud cais i'r Heddlu i atal trafnidiaeth yn y Stryd Fawr yn ystod gwasanaeth Sul y Cofio wrth y Gofeb y flwyddyn nesa. Bu sawl un eleni yn dweud fod sŵn y drafnidiaeth wedi tarfu ar y gwasanaeth. Dywedwyd os gellir atal trafnidiaeth ar gyfer rasys rhedeg blynyddol yn y pentref yna dylid gwneud hynny hefyd ar yr un diwrnod arbennig yma.

• Derbyniwyd cynnig HS trwy'r Cadeirydd i gyfethol Bethan Holding yn aelod o'r Cyngor. Cynnig ac eilio ED / DJ. Cytunwyd yn unfrydol.

• Nodwyd fod llecyn ger y llyn yn fwdlyd, ac nad oedd y gwair wedi ei dorri o gwmpas y polion tu allan i'r maes chwarae. Mae angen hefyd trwsio'r wal gerllaw.

• Nodwyd fod ffenestr Siop Castle Gifts yn ymddangos yn beryglus i gerddwyr sydd yn mynd heibio.

• Penderfynwyd gofyn i'r warden cŵn ddod i Nantperis, am fod rhywrai'n gadael i'w cŵn faeddu o gwmpas y pentref.

• Holwyd eto onid oedd modd gwneud rhywbeth i arafu trafnidiaeth yn Nantperis.

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

Mae'r Cyngor eto eleni yn estyn gwahoddiad i fudiadau gwirfoddol lleol wneud cais am gymorth ariannol o Gronfa Cymorthdaliadau Bychan y Cyngor. Cyfyngir y ceisiadau i fudiadau lleol neu fudiadau sy'n gweithredu'n lleol.

Dylid anfon cais yn ogystal â mantolen ariannol at y Clerc cyn y dydd olaf o Ragfyr, 2007.

Anfonwch at:

Clerc Cyngor Cymuned
Llanberis (EW),
Ty'n Twll,
Nantperis,
Caernarfon LL55 4UL.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i gwsmeriaid hen a newydd oddi wrth **SUE a TED**

the snowdon inn Y FRICSAN



CWM-Y-GLO

Dewch i'n gweld yn 2008 am gwrw lleol, bwyd da a miwsig byw o'r ansawdd uchaf.

Ewch i gael golwg ar ein gwefan am fwydlenni a dyddiadau digwyddiadau.

Ar agor bob dydd o hanner dydd ymlaen.

01286 870289 **www.yfricsan.co.uk**



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

i'n holl gwsmeriaid oddi wrth bawb ym

menter fachwen

(01286) 872014



OAK AM BETROL, DEISEL OLEW AC AMRYFAL ANRHEGION MODURO **OAK**

GORSAF BETROL LONDON GARAGE CWM-Y-GLO

Ffôn: Llanberis 872046

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

SWYDDFA'R POST

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb ym menter gymunedol

Cyfeillion Y CWM a SWYDDFA'R POST CWM Y GLO.

Ffôn: **872722**

Diolch am eich cefnogaeth yn 2007 Edrychwn ymlaen i'ch gwasanaethu drwy gydol 2008

ORIAU AGOR:

SIOP
Llun - Gwener
9 – 12

POST
9 – 12 Llun – Gwener

Dewch yma am ddewis da o nwyddau masnach deg a chynhyrchion Cymraeg traddodiadol fel jam a chaws

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

ODDI WRTH

MORRIS BROS.

BECWS GORS BACH, CWM Y GLO

Ffôn: Llanberis 870430

HEFYD YM
MECWS PEN Y BRYN
LLANBERIS Ffôn: Llanberis 870268
70 STRYD LLYN CAERNARFON Ffôn: 675526

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl gwsmeriaid hen a newydd

Richard S. Humphreys

FINE ART TRADE GUILD

ORIEL CWM

Cwm-y-glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

oddi wrth **IRFON** a phawb yn

LONDON GARAGE

Cwm-y-glo

Ffôn: 870234

Ar agor: 8.30–6 Llun–Gwener
8.30–1 Sadwrn

MOT. Disel, Petrol
Gwasanaeth ac Atgyweirio

Nadolig Llawen A Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr yr Eco

Hoffwn ddiolch i'n cwsmeriaid lleol am eu cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn!

Caffi Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org **caban@caban-cyf.org**
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

caban cyf

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

CYNGERDD NADOLIG
Bydd y Cyngerdd Nadolig Blynyddol yn cael ei gynnal yn yr Oriel (Mynydd Gwefru), Llanberis, am 2.00 o'r gloch ar brynhawn Sul, 16 Rhagfyr. (Gweler yr hysbyseb ar dudalen 21 am fwy o fanylion).
YR EGLWYS BRESBYTERAIDD
OEDFA'R AELODAU. Trefnwyd oedfa dan nawdd yr aelodau yn absenoldeb ein cennad nos Sul, 28 Hydref. Cymerwyd y rhan agoriadol gan Gwyn Hefin ac Ifanwy Jones, gydag adroddiad ar fywyd cymdeithasol a chrefyddol brodorion De Affrica yn dilyn eu hymweliad â'r wlad yn ddiweddar, gan gysylltu hynny â'r sefyllfa yn Sierra Leone, y wlad dlotaf sydd yn derbyn sylw gan y Cyfundeb yn eu hapêl arbennig eleni. Yr apêl honno gafodd sylw hefyd yng nghyfraniad Verna Jones. Cymerwyd rhan ymhellach mewn emyn a gweddi gan Bertie Roberts. Yn dilyn cafwyd darlleniadau o'r Ysgrythur i arwain at rhai argraffiadau o Gymdeithasfa'r Gogledd gan Lowri Roberts Williams, a fu'n cynrychioli Henaduriaeth Arfon ym Machynlleth ar 19 Hydref. Terfynwyd y gwasanaeth ar y thema diolch gan Norman Williams. Trefnwyd y gwasanaeth a diolchwyd i bawb am eu cyfraniad gan lywydd y mis, Jennie A. Roberts.
BLYCHAU ANRHEGION NADOLIG. Mae ein diolch yn arbennig i bawb a gefnogodd yr apêl eto eleni a pharatoi nifer sylweddol o flychau anrhegion. Diolch i Jennie A. Roberts unwaith eto am drefnu'r ymgyrch.
OEDFAON RHAGFYR
2 am 5.30: Parchg Huw Gwynfa Robers, Llanwnda;
9fed am 2.00: Parchg. Gwynfor Williams, Caernarfon;
16eg am 5.30: Parchg. Harri Parri, Caernarfon;
23ain am 10.00: Gwasanaeth Nadolig
30ain am 5.30: Parch Reuben Roberts, Bontnewydd.

LANSIO LLYFR. Bnawn Iau, 15 Tachwedd, roedd bwyty'r Caban yn rhwydd lawn i lansiad llyfr gan un a anwyd ac a fagwyd yn y pentref, sef Rol Williams, Glanffrwd, gynt. Bu'n bnawn hwyliog gyda Geraint Lloyd Owen yn arwain y gweithrediadau. Cyfranwyd i'r cyfarfod gan Dafydd Ellis, Gweledfa; Gwyndaf Hughes, Llanrug; Ifor Hughes, Caeathro, gyda Meira Turner, Waunfawr yn adrodd detholiad o waith yr awdur. Cyflwynwyd y copi cyntaf o'r gyfrol *Nid Roc ond Rol*, ar ran Gwasg y Bwthyn gan June Jones. Mae rhan gyntaf y llyfr yn naturiol yn cynnwys llawer o atgofion yr awdur am bentref Brynrefail a rhai o'i gymeriadau unigryw.

UN FUNUD FACH

Yr unig siawns sydd gen i o ennill y loteri ydy os bydd rhywun wedi cael gafael ar ddisgiau'r Lwfans Plant a dwyn fy manylion personol a phrynu tocyn yn fy enw! Fel arall, does gen i ddim gobaith caneri gan na fyddaf fyth yn prynu tocyn. Ond nid yw siawns y miliynau sy'n prynu tocyn bob wythnos fawr gwell na hynny. Wyddech chi mai siawns o 1 mewn 13,983,816 sydd gan unrhyw un o ennill y jacpot? Siawns go denau, a deud y lleiaf!

Rydych chi fel finnau'n nabod digon o bobl dda: pobl sy'n gwneud gwahaniaeth i'w cymdeithas; pobl sy'n gwasanaethu o fewn eu cymdogaeth; pobl sy'n gofalu am deulu a ffrindiau; pobl sy'n gwneud daioni lle bynnag yr ant. Mae llawer ohonynt yn credu yn Nuw a llawer hefyd heb gredu ynddo. Mae gan bawb ohonom, diolch am hynny, obaith go lew o weld amryw o bobl dda bob dydd. Ond pa siawns sydd gennych o gyfarfod â rhywun perffaith? Y gwir yw bod eich siawns o ennill y lotri yn uwch o lawer na'ch siawns o ddod o hyd i ddyn neu ddynes berffaith. 'Nid oes neb perffaith, nac oes un,' meddai'r Beibl.

A dyna pam fod neges y Nadolig am eni'r Iesu mor eithriadol o bwysig. Y mae ein hamherffeithrwydd yn rhan ohonom fel dynoliaeth: mae o'n rhan o'n gwneuthuriad. Mor sicr ag y byddwn yn anadlu a symud a meddwl, byddwn hefyd yn hwyr neu hwyrach yn siŵr o bechu yn erbyn Duw. Allwn ni ddim peidio pechu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd am y rheswm syml ein bod yn ddynol. 'Pechod gwreiddiol' yw'r term technegol am y peth: y pechod sydd wedi ei wreiddio'n ddwfn o'n mewn. Mae'r holl bobl dda a welwn yn amherffaith, a'r gorau ohonom yn bechaduriaid yng ngolwg Duw. Ond bydd y Nadolig unwaith eto'n ein hatgoffa o'r hyn a ddigwyddodd gyda'r beichiogi gwyrthiol. Holl bwynt yr hanes am Mair yn disgwyl plentyn heb iddi erioed gael cyfathrach rywiol ag unrhyw ddyn yw bod Iesu'n wahanol i bawb arall a fu ar y ddaear erioed. Mae'n debyg i ni am ei fod yn ddyn go iawn, wedi ei eni yn naturiol i Mair. Ond mae'n wahanol hefyd am ei fod yn llawer mwy na dyn, gan ei fod yn Fab Duw.

Mae perffeithrwydd Duw ei hun yn Iesu Grist, yr unig ddyn perffaith a welodd y byd. Nid yw'r duedd i bechu ynddo, ac nid yw'r osgo at y drwg yn perthyn iddo o gwbl. A rhyfeddod y Nadolig yw'r addewid y byddai baban perffaith Bethlehem yn cyfnewid ei berffeithrwydd ef am ein hamherffeithrwydd ni ar groes Calfaria. Dim ond Iesu, yr unig ddyn perffaith i droedio'n daear fedrai wneud hynny.

JOHN PRITCHARD

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Plant Ysgol Cwm y Glo yn casglu bocsys ar gyfer Ymgyrch Plentyn y Nadolig. Casglwyd dros 40 o focsys – da iawn blant.

EGLWYS ST. PERIS. Cynhelir y Ffair Nadolig ddydd Gwener, 30 Tachwedd, yn y Vaynol Arms. Bydd y Ffair yn agor am 11.00 y bore. Mynediad a phaned: £1.50 a'r elw at y gwaith o adnewyddu'r eglwys. Croeso cynnes i bawb.
YSGOL CWM Y GLO
Cafodd dosbarth hynaf yr ysgol fynd ar ymweliad i Gae'r Gors, Rhosgadfan, sef cartref Kate Roberts. Bu cyfle iddynt ddysgu am yr awdures a'i chynefin yn ogystal â threulio amser gyda Angharad Tomos yn trafod y grefft o ysgrifennu stori. Roedd pawb wedi mwynhau yn arw.

Diolchwn i'r holl blant am godi £116 ar gyfer Plant Mewn Angen. Diolchwn yn arbennig i'r Cyngor Ysgol a phlant Blwyddyn 6 am drefnu gwerthiant teisennau a theganau.

Diolchwn yn fawr iawn hefyd i blant, rhieni, neiniau a staff yr ysgol am roi eu hamser ar Ddydd Sadwrn i bacio bagiau mewn archfarchnad leol er mwyn codi arian i'r ysgol. Diolch i'n Cymdeithas Rieni ac Athrawon weithgar am drefnu hyn oll.
CYNGERDD NADOLIG
Bydd y Cyngerdd Nadolig Blynyddol yn cael ei gynnal yn yr Oriel (Mynydd Gwefru), Llanberis, am 2.00 o'r gloch ar brynhawn Sul, 16 Rhagfyr. (Gweler yr hysbyseb ar dudalen 21 am fwy o fanylion.
LLONGYFARCHIADAU i Sandra ac Arwel, 20 Dôl Afon, ar fod yn Nain a Taid am y tro cyntaf. Ganwyd mab bach, Aaron Lee, i Heather a Jamie.
GWELLHAD. Anfonwn ein cofion gan ddymuno gwellhad buan i bawb sydd heb fod yn dda yn y pentref.
UNDEB Y MAMAU. Cyfarfu'r gangen yn yr ysgol gymuned nos Lun, 12 Tachwedd. Croesawodd Mrs Dorothy Jones, Arweinydd y Gangen, pawb i'r cyfarfod a chafwyd gwasanaeth byr. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs Marjorie Roberts. Darllenwyr cofnodion o'r cyfarfod a gafwyd ym mis Hydrtef a phasiwyd eu bod yn rhai cywir.

Trafodwyd materion perthnasol gan Dorothy a chafwyd adroddiad am Gyfarfod y Ddeoniaeth a gynhaliwyd yn y Felinheli y mis diwethaf.

Mae angen rhoddion o ddillad gwlâu, tyweli wedi treulio, cadachau ymolchi, sebonau ac ymlaen yn uned 'Action & Outreach', i'w gadael gyda Dorothy os gwelwch yn dda..

Mae pedair aelod o'r gangen wedi cytuno i fod yn bresennol yng nghyfarfod y cyngor yn Eglwys Sant Mair, Bangor.

Y wraig wadd oedd Mrs Kath Broadbent, sef Llywydd y Ddeoniaeth a chafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddi ar gymdeithas Undeb y Mamau.

Y gwesteion oedd Mrs Gwyneth Roberts a Mrs Hilda Orritt; rhoddwyd y raffl ganddynt ac fe'i henillwyd gan Mrs Gwen Owen. Diolchwyd i Kath a'r gwestion gan Gwen.

Cynhelir Gwasanaeth o Garolau nos Lun, 10 Rhagfyr.

Terfynwyd trwy adrodd y Gras.

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir Dinorwig. Ffôn: 870292

CYNGERDD NADOLIG
Bydd y Cyngerdd Nadolig Blynyddol yn cael ei gynnal yn yr Oriel (Mynydd Gwefru), Llanberis, am 2.00 o'r gloch ar brynhawn Sul, 16 Rhagfyr. (Gweler yr hysbyseb ar dudalen 21 am fwy o fanylion).
COFION. A ninnau unwaith eto ar drothwy'r Nadolig, yr ydym yn anfon ein cofion at:
Mrs Katie Lloyd Hughes, 2 Maes Eilian gynt, sydd yn cartrefu ym Mhlas Garnedd, Llanberis;
Mrs Laura Williams, Tan y Fron gynt, hithau hefyd yn cartrefu ym Mhlas Garnedd.
Mrs Alice Thomas, 1 Bro Elidir gynt, sydd yn cartrefu ym Mhlas Pengwaith, Llanberis.

Yr ydym yn dymuno Nadolig Llawen iawn i'r tair a Blwyddyn Newydd Dda iddynt pan ddaw. Pob bendith arnoch a gobeithio am iechyd i'r flwyddyn a ddel.

CHWILOTA

ELOR-GERBYD LLANDDEINIOLEN

Roedd y 'Cwt Hers' yn adeilad cyffredin ym mhob ardal yng Nghymru ar un cyfnod, yn enwedig cyn y cyfnod pan gychwynnodd ymgymerwyr ar eu gwaith. Teulu'r ymadawedig neu y cymdogion a fyddai fel arfer yn gyfrifol am drefnu'r cynhebrwng, a byddai angen hers neu elor-gerbyd i wneud hynny. Cyn dyfodiad yr hers fodur, ceffyl neu geffylau a ddefnyddid i wneud y gwaith o dynnu'r elor-gerbyd o gartref yr ymadawedig i'r fynwent. Roedd angen talu am brynu elor-gerbyd blwyfol a lle i'w chadw'n ddiogel, ond byddai yno at ddefnydd y plwyfolion. Roedd hefyd yn arferiad mewn llawer o blwyfi i dalu tâl aelodaeth tuag at yr hawl o gael defnydd o'r elor-gerbyd.

Yn ddiweddar cefais fenthyg tocyn aelodaeth elor-gerbyd rhan ganol plwyf Llanddeiniolen. Mae'n amlwg felly fod tri elor-gerbyd yn berthynol i'r plwyf ar un adeg – y rhan isaf, sef ardal Bethel a Seion, y rhan ganol, sef ardal Penisarwaun, a'r rhan uchaf, sef ardal Deiniolen a Dinorwig. Ble tybed roedd yr adeilad lle cedwid elor-gerbyd rhannau uchaf ac isaf y plwyf? Roedd elor-gerbyd canol y plwyf yng ngwaelod rhes Bryn Hyfryd, Penisarwaun, sef lleoliad 'Hafan' erbyn heddiw.

Mae'r tocyn aelodaeth yn gosod allan y rheolau ynglŷn â phwy sydd i gael defnydd o'r elor-gerbyd. Yr aelodau eu hunain, gyda thaliad o bedwar swllt yr un a brynodd yr elor-gerbyd a lle addas i'w chadw ym Mhenisarwaun. Roedd y tâl hwn yn benodol ar gyfer y flwyddyn 1922, ac yr oedd pwyllgor wedi ei ethol o blith yr aelodau rheini i weithredu'r rheolau ac i fod yn gyfrifol am yr adeilad ac am yr elor-gerbyd.

Roedd yn bosibl dod yn gyfranddaliwr am naw swllt, ac yr oedd gan y cyfranddalwyr flaenoriaeth ar unrhyw un arall o fewn rhan ganol y plwyf.

Roedd hawl gan rai yn derbyn cymorth plwyfol i ddefnydd yr elor-gerbyd hefyd, a hynny am dâl o ddeuswllt. Os digwyddai dau deulu fod angen ei defnyddio ar yr un pryd, yna y cyfranddaliwr fyddai'n cael blaenoriaeth. Os byddai dau gyfranddaliwr angen ei defnydd yr un pryd, yna 'y cyntaf i'r felin' amdani wedyn, onibai fod un ohonynt yn farwolaeth oherwydd achos heintus.

Gallai rhai heb fod yn gyfranddalwyr ddefnyddio'r elor-gerbyd hefyd; wyth swllt i rai oedd yn byw o fewn rhan ganol Llanddeiniolen, ond deg swllt a chwecheiniog i rai o'r tu allan. Ac yr oedd yn rhaid gofalu am eich ceffyl eich hunan a rhywun i ofalu am y ceffyl!

Ble'n hollol oedd rhan ganol Llanddeiniolen? Rhoir y terfynau'n ddigon eglur ar y tocyn aelodaeth 'O Benllyn ar hyd yr afon Seiont i Bont Crawiau; yna'r ffordd sydd yn arwain at Gapel y Cysegr hyd at afon Rhydfawr gan ei dilyn at Rhydfawr, yna dilyner y ffordd sydd yn arwain o Rydfawr at Benybryn gan gymeryd i fewn Benybryn ynghyd â Thanydderwen; yna ymlaen at Ynys Iago gan gymeryd Braich yr Iffri i mewn; dilyner ffordd Ebenezer hyd at Rhiwen ac i lawr at y Gerlan, Capel Ysgoldy a Bryn Derw bach; yna i Ty'n Drwfwl a chymeryd llinell unionsyth i Bont Penllyn.'

Yna rhoir cymal ychwanegol yn y rheolau yn nodi fod hawl gan rai oedd yn byw 'ar y terfynau' i ddod yn gyfranddalwyr. Roedd plant â hawl ar gyfran eu rhieni nes byddent yn 21 oed, ond os byddai cyfranddaliwr yn symud mwy na phum milltir o'r tu allan i'r ardal, yna collai ei hawl ar ddefnydd yr elor-gerbyd. Os deuai'n ôl i'r ardal i fyw, yna disgwylid iddo dalu pedwar swllt unwaith eto tuag at gynnal yr adeilad lle cedwid yr elor-gerbyd.

Mae'n debyg fod rheolau tebyg yn bodoli ynglŷn â phob un arall o elor-gerbydau plwyfi'r fro. Roedd cwt hers yn y Waunfawr ac yn Llanrug, ac y mae eu lleoliadau'n wybyddus. Ond ble roedd un Llanberis? A ble roedd rhai dwy ran arall plwyf Llanddeiniolen? Byddai hefyd yn ddiddorol cael gwybod pryd y daeth yr arfer o ddefnyddio elor-gerbyd blwyfol i ben yn yr ardal hon. A thybed oes gan unrhyw un o'r darllenwyr luniau ohonynt ar gael?

Enwogion Bro

Diddorol oedd darllen y golofn 'O Siambar Selwyn' y mis diwethaf yn disgrifio'r holl enwogion eisteddfodol sy'n gysylltiedig â'r fro. Soniais rai blynyddoedd yn ôl bellach fod angen creu, nid Bywgraffiadur o enwogion bro'r *Eco*, ond 'Brograffiadur'. Ac nid enwogion cenedlaethol yn unig ddylai gael eu cynnwys ynddo 'chwaith, ond yr enwogion lleol a wnaeth gymaint i hybu diwylliant a diwydiant o fewn yr ardal.

A dyma un arall i'w ychwanegu at y rhestr: Monallt. Bardd yn gysylltiedig â Lerpwl yn fwyaf arbennig, ac wedi ei fagu ym Môn, fel yr awgryma ei enw barddol, ond ym mro'r *Eco* y cafodd ei eni. Roedd yn fab i Ellis ac Elizabeth Roberts; y tad yn nyddwr yn ffatri Llanberis, ond pan gauodd y ffatri honno ym 1904 symudodd y teulu i Fôn i fyw. Pa un oedd 'ffatri Llanberis'? Ai ffatri Bedwargoed oedd hi tybed?

Poncan Peel, Llanberis

Dyma'r tro cyntaf i mi glywed am yr enw hwn ar graig ar ochr y ffordd yn ymyl Llanberis, ond daeth llythyr gan Rhian Williams, Caerdydd yn holi am yr enw. '*Yng Nghyfrifiad 1881 deuthum ar draws enw gŵr o'r enw John Peel, yn byw gyda'i wraig Ellen a'i ferch Grace, yn rhif 1 Eilian Terrace, Llanberis. Mae yna graig fawr yn Llanberis o'r enw Poncan Peel. Mae wrth y tro olaf yn y ffordd cyn dod i'r pentref o gyfeiriad Caernarfon.*' Holi mae Rhian ai'r John Peel hwn o Eilian Terrace a roes ei enw i'r graig, a pham?

Granvillefab

Llawer o ddiolch i W. Arvon Roberts o Bwllheli am anfon gwybodaeth am D. R. Griffith, sef enw cywir Granvillefab. Yr oedd yn byw yn Exeter, California, pan gafodd ei dderbyn yn aelod o'r Orsedd Americanaidd mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn San Francisco ar 15fed o Awst 1915. Agorodd ef, a dau Gymro arall, sef David G. Hughes, Llanllyfni, a Richard Owen o Fôn, chwarel Rocky Point yn Exeter, Swydd Tulare, California. Roedd nifer o Gymry yn cael eu cyflogi yno. Yn ôl pob tebyg, Granvillefab oedd y cyntaf i blannu coed oren a lemon yn yr ardal honno.

Aelodau'r staff, Ysgol y Babanod, Deiniolen, ym mis Medi 1928. Nesta Jones, genedigol o'r Quarry Arms, Clwt y Bont, ac un arall o deulu Bryn Derw, Brynrefail, yw'r ferch ifanc ar y dde yn y cefn.Does dim gwybodaeth am y tair arall.

Ffowc Jones (gyda'r het) yn sefyll o'r tu allan i'r Quarry Arms, Clwt y Bont. Hefyd yn y llun mae Anne Jones (gwraig Ffowc) gyda'r plant, Nesta Jones a William Ffowc Jones. Mary Foulk yw'r wraig arall, ond does dim gwybodaeth am y ferch dal ar y dde.

Dyna'r ychydig fanylion gwerthfawr a gafwyd gan yr arbenigwr o Bwllheli ar Gymry America. Ond mae'n siŵr fod llawer mwy i'w ddarganfod am y gŵr amryddawn hwn: bardd, chwarelwr a pherllanwr.

Gŵyl Cadair Dinorwig

Fe ddaeth ymateb o'r diwedd, a diolch i Mrs Hazel Roberts, Caernarfon, ac i Eifion Roberts, Llanberis, am gysylltu gyda gwybodaeth am un teulu arbennig sy'n amlwg yn y llun a ddangoswyd yn rhifyn Hydref.

Y ferch sy'n sefyll wrth y piano gyda'r het flodeuog yw Jane Foulkes, chwaer Mary Foulkes Jones, (sef hen nain Mrs Hazel Roberts). Roedd hwn yn deulu cerddorol, sef teulu Bryn Derw, Brynrefail, gyda William Ffowc Jones, (mab Mary) yn arweinydd Band Deiniolen ar un cyfnod. Bryd hynny roeddent yn byw yn y Quarry Arms yng Nghlwt y Bont.

Aeth gŵr Mary Foulkes, sef Ffowc Jones, i'r America – ie i Granville (tybed oedd o'n adnabod Granvillefab?) ychydig cyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Y bwriad oedd i'w wraig ei ddilyn, ond oherwydd y rhyfel, fe'i perswadiwyd i beidio â mentro rhag ofn ymosodiad gan yr Almaenwyr. Bu Ffowc Jones yn llythyru ac yn anfon arian yn ôl i'r teulu yng Nghlwt y Bont am wyth mlynedd. Yna daeth neges yn dweud ei fod am fentro i'r gorllewin, tua mynyddoedd y Rockies, ac i'r teulu fod yn oddefgar am gyfnod gan na wyddai pa mor aml y gallai gysylltu. Yn anffodus, ni chlywyd dim o'i hanes wedi hynny.

Cwta bythefnos fydd yna cyn i rifyn y Nadolig ddod o'r wasg, felly does fawr o amser i chwi ymateb i unrhyw wybodaeth am y mis hwn, er hynny, cofiwch fod digonedd o amser cyn y daw rhifyn Chwefror 2008 o'r wasg.

Y tro nesaf cawn olwg ar siop sydd wedi diflannu o Benisarwaun a hanes Arch Noa rywle ym mro'r *Eco*. Cysylltwch gydag unrhyw ymholiad neu ymateb, ac anfonwch at Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (Ffôn: 01286 673515)

Eglwys Crist, Llandinorwig
DEINIOLEN

Cyngerdd Nadolig

Nos Sul
Rhagfyr 2, 2007
6.30pm
gyda
Seindorf Arian Deiniolen
Côr Adlais
Elfed Morgan Morris
Côr Cwmni Pot Jam
Caryl Angharad
Ffion Angharad
Manon Elwyn
Arweinydd y Noson: **Glyn Tomos**
Llwydd: **Mrs Alwena Hughes Jones**

Mynediad £3
(Cynnwys paned a mins pei)

Elw tuag at Eglwys Crist

AROS PRYD
hefo'r 'un garw am ei fol'

Siop Coffi a Chacen E.B. Deiniolen

Ia! wir i chwi, cyn gynted ag y gwnes i gamu dros riniog drws adeilad ar y stryd Fawr yn Neiniolan, mi wyddwn o'r eiliad cynta, fy mod i mewn ciaffi hynod drwsiadus, a'r byrdda wedi eu trefnu'n dda, hefo popath, welwch chwi, hefo sglein da iddo, a chefa's yno,-do! groeso bendigedig.

Hyn i gyd, pa well onide, yn un o froydd Cymreig *Eco'r Wyddfa*, ac ewadd bach doedd 'na ddim byd yn ormod o draffarth gan y staff, a'r cyfan oll y mae'n rhaid imi ddeud, (a dylid cofio hynny, gan fy mod i'n un garw am fy mol), yn cynnwys panad tra derbyniol, (hefo clamp o debot te i gadw cwmni i'r gwpan), a rhwbath swmpus o flasus, (diolch i ti Meirwen, a'r staff yn y gegin!) – ia, teisan gartra blasfawr, hefo mefus yn dew ar ei thop, a chacan gwerth-ei-cha'l-bob-tamad, ac hynny am bris tu hwnt o resymol. Mewn lleoedd eraill, a berthyn i wledydd Prydain, a thros y dŵr ran hynny, mi fyddech chwi'n talu drwy eich trwyna am hyn i gyd, (diolch byth mai yma yng Nghymru ein gwlad rydan ni'n byw!)

Ew! mi roedd yma rwbath at ddant pawb – yn fara brith, teisan dêt a chnau ffrengig, teisenna hufan! Ew! Yn tynnu dŵr yn genlli o'ch dannadd onid ydyw?

Ymweliad sydyn oedd hwn i fod, ond hir y pery, mewn hyn o gof ifanc, ddechra'r pnawn dan sylw, yn enwedig yr hyn a welais, (ac a flaswyd), yno!

Gweld Rhys wrth ei waith, a'i amynadd dibendraw tra'n creu blycha cacenna; Meirwen wedyn yn gwibio yma a thraw, ac eto'n canfod amsar i siarad hefo'r cwsmeriaid. Yn ôl a ddeallais Mairwen sydd yn gofalu am baratoi'r bwydydd, nid yn unig er mwyn y diben o'u gwerthu yn y ciaffi'n Neiniolan, ond hefyd yng nghanolfana Antur Fachwen, a chanolfanau eraill sy'n gefnogol i'r fentar.

Fel roeddwn i ar ymadael, ymwelodd nifar o ferchad ieuainc o'r fro, a'u plant i'w canlyn, hefo'r ciaffi. Yr oeddynt yno i fwynhau'r bwydydd a'u paneidia, ac yn ca'l gryn hwyl wrth drafod hyn ac arall, yn ogystal â thynnu coes fel dwn i ddim be. Mi roedd Siop Cacen a Choffi E.B. yn ganolfan iddynt, ac yn lle da i gyfarfod. Da gweld hynny, a chefnogaeth i'r ciaffi.

Oes, mae 'na fentro wedi bod ar ran Antur Fachwen, a da gweld pobol y gymdeithas yn cefnogi mentr o'r fath. Rhan o drefniant Antur Fachwen ydyw'r ciaffi hwn, ac fel y ciaffis eriall nodedig o'u heiddo a geir yng Nghwm y glo a Llanrug, ac hefyd ar un amsar yn Y Fachwen, ger llyn Peris, y mae hwn eto'n rhoi gwaith i'n hieuenctid, ac yn cynnig profiad gwerthfawr iddynt ym maes darparu bwydydd Cymreig.

Annogaf chwi, os am flasu awyrgylch Cymreig a bwydydd tra rhagorol, fynd ati i fwrw tamiad o'ch amsar yno! Ac o ymweld, 'steddwch! Dotiwch! Mwynhewch!

Wrth derfynu dymunaf ddiolch o waelod calon, (a'm 'stumog ran hynny), i Antur Fachwen am wireddu'r weledigaeth o greu ciaffi ar y Stryd Fawr yn Neiniolan. Hir oes, a phob bendith i chwi'n y blynyddoedd sydd ar ddyfod.

Oriau'r caffi: 10.00 – 16.00:
Dyddiau Llun–Gwener.

A'r tro nesa? Mynnwch gopi da chwi o *Eco'r Wyddfa* mis Chwefror, 2008, pryd y bydd rhif (5) o'r gyfres Aros Pryd yn ymddangos.

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon
Ffôn: (01286) 871820

EGLWYS ST. PERIS. Cynhelir y Ffair Nadolig ddydd Gwener, 30 Tachwedd, yn y Vaynol Arms. Bydd y Ffair yn agor am 11.00 y bore. Mynediad a phaned: £1.50 a'r elw at y gwaith o adnewyddu'r eglwys. Croeso cynnes i bawb.

Y Frenhines Sara yn agor y gystadleuaeth Crefftau yn Ffair Nant.

FFAIR NANT. Cafwyd wythnos lwyddiannus eto eleni a phawb yn mwynhau'r nosweithiau o weithgareddau. Nid oedd y tywydd yn ffafriol iawn ar ddiwedd y Ffair ond ni tharddodd ar y mwynhad.

Hoffai'r pwyllgor ddiolch o galon i bawb a gefnogodd yr ŵyl trwy arddangos eu crefftau a'u celfi ac i bawb a gymerodd ran yn yr Adran Coginio. Diolch hefyd i bawb a fu mor garedig â chefnogi eto eleni drwy roi nwyddau tuag at y raffl. Diolch yn fawr iawn.

Enillwyr Celf a Chrefft 2007

Llun neu Baentiad wedi ei ysbrydoli gan artist enwog
Categori A: 1. Kes Thomas;
Categori B: 1. Sioned Cumberton; 2. Ellie Thomas; 3. Aled Johnson.
Categori D: 1. Mrs Lennon; 2. Mrs Lennon; Cydradd 3. Sian Davies a S. Owen.
Portread o Aelod o'r Teulu
Categori A: Cydradd 1. Kes Thomas a Liam Hughes; Cydradd 2: Emily Hughes a Thomas Hughes; 3. Eban Jones.
Categori B: 1. Sioned Cumberton; 2. Ellie Thomas; 3. Daniel Roberts;
Categori D: 1. Mrs Lennon; 2. Mrs Lennon.
Ffotograffiaeth: Anifail Gwyllt
Categori B: 1. Aled Johnson; 2. Aled Johnson.
Categori D: 1. Sian Davies; 2. Hefin Owen; 3. Hefin Owen.
Golygfa Ddiwydiannol Gymreig
Categori B: Cydradd 1 efo fo'i hun. Aled Johnson; Cydradd 2: Emerson Hughes a Sian Davies.
Pobl Pentref
Categori B: Cydradd 1. Sioned Cumberton a Philip Thomas; 2. Simon Stacey; 3. John Mainwaring.
Gwydr Lliw
Categori D: 1. Phil Thomas; 2. Catrin Lennon Thomas; 3. Phil Thomas.

Cerdyn Cyfarchiad
Categori A: 1. Kes Thomas; 2. Aaron Jones; 3. Eban Jones.
Categori B: 1. Ellie Thomas; 2. Daniel Roberts; 3. Kate Pritchard.
Categori D: 1. Margaret Roberts; 2. Mrs Lennon; 3. Gwenda A. Roberts.
Gwaith Coed
Categori D: 1. Roger Savage; 2. Gwyn Thomas; 3. Gwyn Thomas.
Brodwaith
Categori D: 1. Mrs Lennon.
Gwau: Gorchudd Pram
Categori D: 1. Menai Angel; 2. Gwenda A. Roberts.
Gwnio: Anifail wedi'i stwffio
Categori A: 1. Aeron Jones; 2. Eban Jones.
Categori D: 1. Sioned Owen; 2. Dorothy Jones.
Gwaith Crosio: Cas clustog
Categori D: Mrs Lennon; 2. Mrs Lennon.
Pwyth Croes: Sampler
Categori B: 1. Kate Pritchard.
Categori C: 1. Alice Cumberton.
Categori D: 1. Wendy Jones; 2. Wendy Jones; 3. Catrin Lennon Thomas.
Het Bapur
Categori A: 1. Emily Hughes; Cydradd 2. Aaron Jones a Liam Hughes; 3. Kes Thomas.
Categori B: 1. Sioned Cumberton; 2. Ellie Thomas; Cydradd 3: Daniel Roberts a Megan Pritchard.
Coginio: Cacen Sbwng
Categori C: 1. Mari Wyn Pritchard; 2. Jessica Sibley.
Categori D: 1. Janice Thomas.
Bara Brith
Categori C: 1. Victoria Roberts.
Categori D: Cydradd 1: Eirian Roberts ac Ian Hughes; Cydradd 2: Betty Humphreys a Rhian Pritchard; 3. Shirley Davies.
Cacen Siocled
Categori C: 1. Miriam Pritchard; 2. Cadi Wyn Pritchard.
Categori D: 1. Eirian Roberts; 2. Jennie Jones; Cydradd 3. Gwenda Roberts a Betty Humphreys.
Cacen Foron
Categori D: 1. Ann Parry; 2. Eirian Roberts.
Tarten Ffrwyth
Categori D: 1. Lyne Jarvis
Cacennau Tylwyth Teg
Categori A: 1. Aaron Jones; Cydradd 2. Kes Thomas ac Eban Jones.
Categori B: 1. Ellie Thomas; 2. Elin Thomas; Cydradd 3. Megan Pritchard, Daniel Roberts a Kate Pritchard.
Categori C: 1. Victoria Roberts.
Cacennau Creision Siocled
Categori A: 1. Kes Thomas; 2. Eban Jones; 3. Aaron Jones.
Categori B: 1. Kate Pritchard; 2. Daniel Roberts; 3. Ellie Thomas.
Categori C: 1. Victoria Roberts.
Treiffl
Categori B: 1: Ellie Thomas.
Categori C: 1. Sara Parry; 2. Victoria Roberts.
Categori D: 1. Janice Thomas; 2. Eirian Roberts.
Jam neu Farmaled
Categori A: 1. Ann Parry; Cydradd 2 efo hi'i hun: Mrs Lennon; 3. Beva Annwyl.
Picalili neu Siytni
Categori D: 1. Eirian Roberts; 2. Eirian Roberts; 3. Ann Parry.
Trefniant Blodau yn Ymgorffori Llechen.
Categori D: 1. Gwenda Roberts; 2. Shirley Davies; 3. Margaret Ellis.
Dyn neu Anifail wedi'i wneud o Lysiau
Categori A: 1. Aaron Jones; 2. Kes Thomas; 3. Eban Jones.
Categori B: 1. Ellie Thomas; 2. Daniel Roberts.
Gardd ar Blât
Categori A: 1. Miriam Catrin; 2. Aaron Jones.
Categorti B: 1. Ellie Thomas; 2. Daniel Roberts.
Categori C: Sioned Cumberton.

CATEGORI AGORED

Categori A: 1. Kes Thomas; 2. Aaron Jones; 3. Eban Jones.
Categori B: 1. Aled Johnson; 2. Daniel Roberts; Cydradd 3: Sioned Cumberton ac Ellie Thomas.
Categori D: Gwau
1. Gwenda A. Roberts; 2. Bev Anwyl; 3. Menai Angel.
Crefftau: 1. Gwenda A. Roberts; 2. Mrs Lennon; 3. Gwenda A. Roberts.
Cwiltiau: 1, 2 a 3: Sian Davies.

Gwobr i'r Gorau yn y Sioe

Oedolion: Roger Savage
Plant: Ellie Thomas

CYNGERDD NADOLIG

Bydd y Cyngerdd Nadolig Blynyddol yn cael ei gynnal yn yr Oriel (Mynydd Gwefru), Llanberis, am 2.00 o'r gloch ar brynhawn Sul, 16 Rhagfyr. (Gweler yr hysbyseb ar dudalen 21 am fwy o fanylion.

CYFADRAN DATBLYGU - GWASANAETHAU YSGOLION
YSGOLION UWCHRADD

YSGOL BRYNREFAIL, LLANRUG

(Ysgol Gyfun 11 – 18 oed, 719 o ddisgyblion)

ARCHWILWYR ARHOLIADAU ALLANOL
RHAN AMSER - ACHLYSUROL

Amser - mor fuan â phosib
Cyflog - £10:00 yr awr

Mae'r newidiadau mewn amodau gwaith athrawon yn gofyn ar i ysgolion benodi archwilwyr allanol ar gyfer arholiadau allanol a ffug arholiadau mewnol. Bydd y rhai fydd yn cael eu penodi yn cael eu defnyddio yn bennaf yn ystod cyfnodau arholiadau allanol misoedd Ionawr, Mai a Mehefin a/neu yn ystod cyfnod arholiadau ffug Blwyddyn 11 ym mis Rhagfyr. Bydd yn bosib i'r oriau fod yn hyblyg oddi fewn i amserlen yr arholiadau a bydd hyfforddiant priodol ar gael.

Manylion pellach i'w cael gan:
Mr. Kevin Wyn Owen, Swyddog Gweinyddol, Ysgol Brynrefail, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4AD.
Rhif Ffôn: **01286 672381**
E-bost: sg@brynrefail.gwynedd.sch.uk
Ceisiadau drwy lythyr neu e-bost i Mr. Owen mor fuan â phosib.

Colofn y Plant

Clwtyn Criw Triw

Ann...nnnnn...wyl Atishw! Bl...l...ant,
Dwbirdirhew! Dwhw! wedi bod ar fy nhglustog rasio crand o'i go, ac wedi glanio ynghanol twmpath o eira, a dyna ble roeddwn i'n sownd wrth fy nhrwyn, wedi fy nal ar ben coeden Dolig. Ia, fi, Smonach Bach.

Mi roedd fy nillad yn wlyb i gyd. Dwbididwbwd!

'RRRydddw i'n oerr...rrrr iawn iawn iawn,' meddwn wrth fy nhglustog rasio crand o'i go. Ni wnaeth o atab. Dydy clustoga rasio ddim yn medru siarad! Dyna pam na wnaeth o fy atab.

Y diwrnod wedyn, mi roeddwn yn dal i grrr...ynnnu a rhrhrh...ynnu. Mi roeddwn yn wyn fel eira pan fo neb wedi bod yn cerdded drosto. Ow! Ow! Mi gefais annwyd trwm trwm trwm iawn! Atish ww! A dyna estyn am fy hancas fawr hefo llunia o drwyna bach a mawr arni. Mae gen i drwyn mawr mawr iawn iawn, ac mi gymerodd naw cant a thair hancas cyn imi fedru cael gwarad yn gyfangwbl o'r annwyd.

*** Y mis nesa mi fydd o, Smonach Mawr, yn ei ôl hefo chwi, tra y bydda i'n crwydro'r byd ar fy ngwylia mewn gwledydd pell!
Tan hynny
Hwyl
oddi wrth Smonach Bach

Y Golygydd: Hei, Smonach Bach, wyt ti wedi anghofio rwbath?
Anghofio?
Y Golygydd: Roeddwn i'n meddwl fod gen ti stori inni!
O, Oes! Oes! Stori am Rowland Robin Goch.

Rowland Robin Goch

Mae rhywbeth ofnadwy iawn yn poeni Rowland Robin Goch. Y gaeaf hwnnw o'r holl Robinod sy'n byw yn Waunfawr, fo oedd yr unig Robin heb frest goch!

'W! W!' ebe Roland, 'Pam nad oes brest goch gen i?'

'Wedi colli dy frest goch wyt ti,' ebe Cnonyn y Dyn Eira, a oedd wedi dyfod i lawr i'r pentra o Mynydd Waunfawr.

'W! W!'

'Mi fydd yn ddigon hawdd iti weld dy frest ynghanol yr eira 'ma,' ebe Cnonyn wrtho. 'Ond fedra i ddim dy helpu di, mi rydw i'n disgwyl i blant y pentra ddŵad â het i mi.'

'Het?'

'Ia, er mwyn cadw fy mhen i'n gynnes,' atebodd Cnonyn. 'Ac mae 'na blant caredig wedi mynd adra i nôl moryn!'

'Moryn?'

'Ia. Mi wnaiff hwnnw drwyn penigamp imi.'

Ac felly ar ei ben ei hun bach yr aeth Rowland i chwilio am ei frest goch a oedd ar goll ynghanol yr eira.

Mi ddylai fod yn hawdd canfod brest goch ynghanol y gwynder, meddyliodd Rowland ond, er chwilio a chwilio, methodd yn lân â gweld un.

Aeth adref i 45 Nyth Robin a'i ben yn ei blu a dagrau mawr yn hongian o dan ei lygaid a, gan ei bod mor oer, roeddynt wedi troi'n glychau iâ. Wir i chi!

Mi gysgodd Rowland Robin Goch yn ei wely mwsogl a dail yn 45 Nyth Robin a phan ddeffrodd y bore wedyn, mi

roedd yr eira wedi – ia, wedi toddi i gyd! Aeth i chwilio am Gnonyn y Dyn Eira ond doedd dim golwg ohono yn unman. Y cyfan oedd ar ôl wedi i'r eira ddiflannu ydoedd ei het, a'r moryn!

Ac yna, beth a welodd Rowland yn hongian ar frigau'r goeden Nadolig honno sydd yn y Waunfawr ond llygaid a chlustiau Cnonyn, ei gyfaill!

'Gefaist ti hyd i'th frest goch?' holodd y Dyn Eira.

'W! W! Naddo!' ebe Rowland wrtho.

'Aros tan y flwyddyn nesa fuaswn i,' ebe'r Dyn Eira. 'Mi ddaw pan ddaw!' A phan ddaeth hi'n amser i'r adar nythu mi roedd gan Rowland Robin Goch frest goch, a phawb yn dweud ei bod yr hardda yn y Waun, os nad yng Nghymru a'r holl fyd.

Mi glywais i yn ddistaw bach bod Siôn Corn wedi danfon brest goch i Rowland yn anrheg, a hynny yn ystod y Nadolig.

A Cnonyn? Do, mi gyrhaeddodd y Dyn Eira bentref Waunfawr y Dolig wedyn, a doedd neb hapusach nag ef o weld Rowland yn gwisgo ei frest goch newydd sbon danlli.

O SIAMBAR SELWYN

Dwi wedi bod yn crwydro tipyn yn ystod yr wythnosau diwetha 'ma, yn lleol, tros y ffin yn Lloegr a thros y dŵr am ychydig o wyliau. Mae'n braf cael ymlacio yn Cala Bona, yn ôl fy arferiad ddwywaith y flwyddyn. I'r un gwesty ac i'r un ystafell y bydda i'n mynd, a'r un petha fydda i yn eu gwneud yno, sef diogi, darllen a diota. Howld on, diota? Wel, ambell wydraid o win coch, yntê – mae o'n gwneud lles i chi yn ôl yr arbenigwyr.

Tra roeddwn i yn Majorca, fe glywais am farw sydyn Ray Gravell, ac yntau hefyd ar ei wyliau gyda'i deulu ar yr ynys. Braint arbennig i mi oedd cael cydweithio â Ray yn ystod seremonïau'r Orsedd. Roedd ganddon ni drefniant syml. Dim ond cydio yng ngharn y cledd yr oeddwn i, Ray oedd yn gwneud y tynnu. Mae Cymru gyfan yn teimlo'r golled, nid yn unig y Byd Rygbi a'r Eisteddfod, ond hefyd y miloedd o wrandawyr a oedd yn cael y pleser a'r mwynhad o wrando arno ar y radio yn ddyddiol. Braint arbennig i mi oedd cael adnabod Ray o'r Mynydd.

Dwi wedi crwydro cryn dipyn yn lleol yn ystod y mis diwetha 'ma hefyd. Cyfarfodydd y gaeaf wedi cychwyn a minnau yn cael nosweithiau difyr yng nghwmni merched. Mae yna gymdeithasau merched ynghlwm wrth eglwysi Seilo, Caernarfon, a Berea Newydd, Bangor. Roedd Merched Berea wedi estyn gwahoddiad i'r dynion droi i mewn hefyd, ac fe fanteisiodd rhyw hanner dwsin ar y cyfle. Oedd, roedd 'na tua hanner cant neu fwy yn y ddau gyfarfod. Lisabeth, neu Lis, gynt o Lanberis oedd yn cadeirio'r cyfarfod ym Mangor, ac fe atgoffodd fi mai hi â'm cyrchodd i'r llwyfan pan enillais fy nghoron gynta un, a hynny yn Eisteddfod Gorffwysfa, Llanberis. Ie, sawl blwyddyn yn ôl bellach! Rodd hithau, fel finnau, yn cofio geiriau yr 'Archdderwydd' ar y noson, sef y diweddar Llwyd o'r Bryn, wrth weini'r cledd uwch fy mhen. Dydi Capel Gorffwysfa ddim yno bellach ond fe erys yr atgofion.

Noson ddifyr arall a dreuliais oedd yn y Bala, a hynny ar nos Sadwrn. Dyma'r unig Gymdeithas Lenyddol y gwn i amdani sy'n cyfarfod ar nos Sadwrn. Criw da wedi troi i mewn yma hefyd, ac yn eu plith hen gyfaill i mi, sef Tecwyn (Tyddyn Forgan, gynt). Cawsom sgwrs ddifyr am hen gymeriadau Bethel, ac yn enwedig am John Cefn Bach. Tecwyn ddywedodd wrtha i fod Cyril, un arall o'm cyfoedion, yn ddifrifol wael ac, ymhen ychydig ddyddiau yn ddiweddarach, bûm yn talu'r gymwynas olaf iddo yn Eglwys y Santes Fair, y Felinheli. Roedd o wedi symud tua thair blynedd yn ôl i ardal y Parc, y Bala, pan dderbyniodd ei briod alwad i weinidogaethu yno. Does 'na fawr ohonom ar ôl o'r llun o blant Ysgol Bethel bellach.

Mi fentrais i dros y ffin i Loegr hefyd. Yn wir mi es i yno ddwywaith, ac i'r un lle, sef i Ganolfan y Crynwyr, Lerpwl. Dyma Gymdeithas Lenyddol sy'n cyfarfod yn wythnosol. Ond, pam mynd yno ddwywaith? Wel, roedd fy nghyfaill, Geraint Lloyd Owen, yn darlithio yno wythnos o fy mlaen i, a chan fy mod i yn ddreifar sy'n arbenigwr ar golli ei ffordd, mi fanteisiais ar y cyfle i fynd gydag o, fel y medrwn gyfarwyddo fy sioffar ffyddlon, Karen Owen, sut i gyrraedd y Ganolfan yr wythnos ddilynol. Mi wnes i fwynhau darlith Geraint ar y 'Busnas Barddoni 'ma', ac mi gafodd Cymry Lerpwl foddhad hefyd.

Profiad pleserus ydi cyfarfod rhai sydd â chysylltiad â Bethel, neu Fro'r Eco, pan af ar y teithiau hyn, a chanfod bod cymaint yn derbyn yr *Eco* yn rheolaidd. Daeth nifer ohonynt ata i yn Lerpwl, un â'i mam wedi ei geni ym Methel; un arall yn dwyn i gof fy nyddiau yn cadw'r gôl i dîm Caernarfon ac yntau, ar y pryd, yn gefnogwr selog i dîm Pwllheli o dan ofal y diweddar Tommy Jones. Profiad hapus i Myra oedd cyfarfod â nyrs a fu'n cydweithio â hi yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor, flynyddoedd yn ôl. Wrth gwrs, mi ges i sgwrs hir a difyr gyda Cadeirydd y noson, sef y Parchedig Ddoctor D. Ben Rees. Y ddau ohonom yn atgoffa'n gilydd am yr eisteddfodau llwyddiannus a gynhaliwyd yn Lerpwl yn wythdegau'r ganrif ddiwethaf. Cefais innau'r fraint o feirniadu yno ac, yn 1986, cefais yr anrhydedd o ennill cadair yno – un o'r cadeiriau eisteddfodol harddaf sydd gen i.

Yn wir, roedd hi'n anodd cychwyn am adra, roedd y sgwrs a'r awyrgylch groesawgar mor felys. Chawson ni fawr o gyfle i gael sgwrs ar y ffordd adre, roedd Karen yn gyrru fel cath i gythraul a dwi'n siŵr i ni gyrraedd Penisa'rwaun mewn llai o amser nag y mae gêm bêl-droed yn gymryd yn Anfield. Noson ddifyr iawn.

Ydi, mae'n braf cael mynd dros y ffin at Gymdeithasau Cymraeg yn achlysurol, ond mae'n braf cael gwahoddiad i lefydd agos hefyd. Rwy'n lwcus eleni, dwi'n cael mynd i bentrefi lleol Llanberis, Deiniolen a Bethel, a thri chyhoeddiad gyda gwahanol gymdeithasau yng Nghaernarfon. Mi fydda i'n gwrthod mynd i lefydd pell yn ystod misoedd Ionawr a Chwefror, pan fydd y ffyrdd yn dueddol o fod yn llithrig. Na, does gen i fawr o ffydd ynof fy hun fel dreifar.

Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

RHYFEDDOD?

Dydd Iau Mai 3ydd, 2007, cafwyd tywydd braf odia'th, pryd nad oedd y ddaear heb fod yn rhy wlyb a llithrig, a chymerais fy hynt o ochor Pont Gromlech, ym Mwlch Llanberis, tuag at bartha ucha Cwm Glas. Unigedd? Bobol bach, ni all yr un enaid byw fod yn unig yn y fath le! Onid oes 'na r'wbath o hyd yn digwydd yno?

Toc wedi 11.15 a.m. cododd aderyn ar aden. Wedi bod yn gwlychu ei ylfin mewn nant wrth ymyl yr oedd o. Un hefo lliwiau du a gwyn ydoedd, ac am y tro cynta erioed yn fy hanas mi roeddwn wedi taro ar brydferthwch *mwyalchen y mynydd*. Ceiliog a welais, a chefais yn noson honno, wedi imi dychwelyd adra, ail-fyw'r cyffro hefo llun godidog ohono, sef portread lliw Islwyn Williams, Penisarwaun, a darllen yr hyn sy gan y diweddar Ted Breeze Jones i'w ddweud yn ei lyfr *Adar yr Ucheldir* (1981) sef mai *'ymwelydd haf sy'n cyrraedd ddiwedd Mawrth'* ydyw'r aderyn dan sylw, ac nad ydyw'r *'hanner lleuad ar fron yr iâr ddim mor lân ac amlwg'* a bod *'ymylon golau i'w phlu yn ymddangos fel brychni ar ei phlu brown'*. Wir i chwi hwyrach y caf weld ar fy ymweliad nesa â'r mynydd y musus *mwyalchen y mynydd* yn ogystal â'r meistar! Does ond disgwyl, gan ddiolch yn ddistaw os daw'r cyfla hwnnw i'm rhan.

Cyn amsar cinio, ar y 3ydd o Fai, bu imi oedi wrth ddwy garreg fawr nobl, a beth a welwn ynghlwm yn yr agen ond gwe *pryf copyn*, (*corryn*) yn hongian, ac fy ngwas i, (un o'r tri ar ddeg gwahanol rywogaeth teulu'r copynnod sy'n byw'n Eryri), yn llechu'n llonydd yng nghanol y llinynnau cywrain, ac yn wynebu'r haul, a oedd yn disgleirio arnom o'r dwyrain yn yr awyr uwchben. A oedd y *pryf cop* wedi fy ngweld? Siŵr braidd gen i, oherwydd y mae ganddo fwy nag un llygad!

Diaist i, meddyliais, ble ar y greadigaeth wen yr oedd y *pryf copyn* hwn yn cael ei fwyd, ac yntau, neu hithau, yn byw ynghanol y *moelni maith*, chwedl fy hoff fardd, Thomas H. Parry-Williams, Rhyd-ddu, a phryfid yno mor brin â dyddia heulog mis Gorffennaf eleni? Yr unig blanhigion a dyfai ar wyneb y cerrig ydoedd *mwsogl* a sypyn o *rug*, ac nid oedd yr ola a enwyd yn ei floda.

Pendronais yn hir pam fod y *pryf copyn* wedi dewis topia Cwm Glas Ucha o bob man i fyw ynddo. Hy! mi roedd yr atab yn union wrth fy nhraed, a'r gwirionadd wedi ei ddatgelu mewn erthygl a welodd olau dydd yng nghylchgrawn *Cymru* Rhagfyr 1907, ia can mlynedd i 'leni, a G. Tecwyn Parry'n sgwennu am *Lysieuaeth Llanberis*. Ebe fo: *Ar yr ochr wrthgyferbyniol i'r Glydar Fawr, tua chanol y Bwlch, uwchben yr annedd-dy a elwir Ynys Etws, y mae cwm lled fawr, yng nghanol y creigiau, a elwir y Cwmglas. Dyna baradwys Llysieuaeth yng nghanol creigiau yr Eryri. Y mae yn cynnwys ystorfa dda o lysiau o bob rhywogaeth.* D'wedir pa fodd y mae'r *gwynt... yn ei deithiau trwy Bwlch, yn cario hadau o bob cyfeiriad, a chan fod y Cwm yn lle cysgodol y maent yn cael cyfle i ddisgyn iddo, a gwreiddio yn ei ddaear, a thyfu a blaguro...*

Ac os yw'r croes-wyntoedd yn cludo hadau i Gwm Glas Uchaf, yna'n sicr gyda dyfodiad bob gwynt cryf ac ysgafn ceir pryfaid yn cael eu hebrwng yno'n ogystal, sy'n fwyd tra rhagorol i'r *pryf copyn*!

Na! nid wyth-goes unig difwyd a welwyd yng nghanol y we a grëwyd rhwng deu-faen ar Fai 3ydd eleni. Mi roedd yno i bwrpas, sef cael byw! Rhyfeddol? Ia, a llawer mwy na hynny.

Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch **â Gomer Roberts**

Ffôn : **01286 870462**

Symudol : **07962 712368**

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

SEFYDLIAD Y MERCHED. Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Sefydliad ar 1 Tacahwedd. Croesawodd Mrs Catherine Jones, y Llywydd, Mrs Sheila Russell Rudge i lywio'r cyfarfod. Cafwyd adroddiad manwl iawn am weithgareddau'r flwyddyn gan Mrs Anne Williams, yr ysgrifennydd. Diolchodd y Llywydd yn ei hadroddiad i'r holl aelodau am eu help yn ystod y flwyddyn. Roedd adroddiad ariannol Mrs Rose Ann Hughes, y Trysorydd, yn galonogol iawn hefyd. Roedd Mrs Russell Rudge yn falch o gael bod yn bresennol i glywed adroddiadau mor llewyrchus am y sefydliad. Ailetholwyd yr holl swyddogion.

Ym mis Mai y flwyddyn nesaf bydd y Sefydliad yn dathlu ei ben-blwydd yn 80 mlwydd oed! Roedd y Llywydd yn hyderus iawn y bydd yn dal i fynd o nerth i nerth. Mae croeso i aelodau newydd.

Estynnodd y Llywydd ei diolch i Mrs Rudge am ei gwasanaeth yn ystod y cyfarfod.

BEDYDD. Yn Eglwys Ty'n y Gwndwn, Felinfach, ar ddydd Sul, 28 Hydref, gyda'r Parchedig Irfon Evans yn gweinyddu, bedyddiwyd Rhiannon ac Ela Grug, Angorfa.

LLONGYFARCHIADAU i bob un disgybl o'r Waun a gymerodd ran yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail. Roedd yn braf eich gweld ar y llwyfan.

LLONGYFARCHIADAU i Meg Dafydd, Glanfa, fu'n cymryd rhan yn y rhaglen deledu *Mastermind Cymru*.

LLONGYFARCHIADAU hefyd i un arall o'r Waun, Neil Johnstone, Tŷ Gwyn (gynt), sydd wedi ennill ei le yng nghystadleuaeth goginio Dudley.

BRYSIWCH WELLA. Dymunwn wellhad buan i Mr Lleufer Pritchard, Stad Croes-y-Waun, wedi iddo gael llawdriniaeth yn Manceinion.

Hefyd mae Fiona Davies, Stad Tref Eilian, wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Walton, Lerpwl.

Da gweld Mr Don Roberts, Swn y Gwynt, yn mentro allan ac yn gwella wedi iddo dderbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Dymunwn wellhad buan i'r tri ohonoch.

CYDYMDEIMLO. O fewn ychydig wythnosau i golli ei chwaer daeth y brofedigaeth o golli ei brawd hynaf i ran Maureen Griffith, Bryn Eilian, Teras Glyn Afon. Cydymdeimlwn â chi yn eich colled.

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mrs Rhian Ellis a'r teulu, Ty'n Llidiart, yn eu profedigaeth o golli mam Rhian yn ddiweddar.

Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs Catherine Williams (Angorfa a Stad Tŷ Hen, gynt). Cydymdeimlwn yn ddwys â Iola yn ei phrofedigaeth o golli mam, ac hefyd â Mrs Laura Pierce o golli ei chwaer.

Daeth y brofedigaeth o golli mam i ran Mr Ken Latham, Haul a Gwynt hefyd. Estynnwn ein cydymdeimladn â'r teulu yn eu hiraeth.

CYNGERDD NADOLIG

Bydd y Cyngerdd Nadolig Blynyddol yn cael ei gynnal yn yr Oriel (Mynydd Gwefru), Llanberis, am 2.00 o'r gloch ar brynhawn Sul, 16 Rhagfyr. (Gweler yr hysbyseb ar dudalen 21 am fwy o fanylion).

DIOLCH. Dymuna Grace, Susan, Janet, Anne a theulu'r diweddar John Dawson ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeeth. Diolch arbennig am y rhoddion hael a dderbyniwyd er cof. Casglwyd £1,315 tuag at Gronfa Offer Meddygfa Waunfawr. Dioch o galon i bawb.

DIOLCH.

Mair Williams, Cefn Coed. Dymuna Valmai, Siôn Tudur, Iwan Ynyr a Paul Evans, Rhoslwyn, Waunfawr, ddiolch yn ddiffuant i'w perthnasau, cyfeillion a chymdogion am yr holl garedigrwydd a chefnogaeth a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain a mam yng nghyfraith mor annwyl.

Gwerthfawrogir y llu cardiau, llythyrau, ymweliadau a galwadau ffôn a dderbyniwyd ac sydd yn rhy niferus i'w hateb.

Carwn ddiolch am y rhoddion hael tuag at Gronfa Meddygfa'r Waunfawr. Hoffem hefyd ddiolch yn enfawr i holl staff y Feddygfa am eu gofal bob amser ac i staff Ward Moelwyn, Ysbyty Gwynedd.

Estynnir ein diolch i bawb a gymerodd ran yn y gwasanaeth: y Parchedig John Rice Rowlands, y Parchedig I.E. Jones, Mrs Carys N. Griffiths, Miss Ann Roberts a Mrs Catherine Jones a'r ymgymerwyr.

Hefyd carwn ddiolch i'r trefnwr angladdau, Mr Gareth Owen, Preswylfa, Y Fali. Diolch am eu caredigrwydd neilltuol tuag atom ac yr achlysur trist hwn.

R. GWYNN DAVIES.

Dymuna teulu y diweddar R. Gwynn Davies, Bryn Eithin, Waunfawr, ddiolch o galon am y llu galwadau a chardiau yn datgan cydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth ac am y rhoddion hael tuag at Antur Waunfawr er cof am ei sylfaenydd. Diolch hefyd i'r Parchedigion Nan Powell-Davies, Harri Parri a Dewi Morris a'r Br Dafydd Iwan am wasanaeth a theyrnged deilwng i un mor arbennig.

EISTEDDFOD Y PENTREF.

Diolch i Bwyllgor yr Eisteddfod am eu rhodd hael o £60.00. Diolch hefyd i'r athrawon a fu'n paratoi'r plant ar gyfer y cystadlu.

OPERATION CHRISTMAS CHILD. Casglwyd 96 o focsys ar gyfer yr ymgyrch eleni. Hoffem ddiolch i bawb a gefnogodd yr achos teilwng hwn. Bydd ein bocsys eleni yn teithio i Belarus. Diolch yn fawr.

GWASANAETH PRIODAS. Cafwyd gwasaneth priodas arbennig yn Eglwys Croes-y-Waun ddydd Iau, 9 Tachwedd. Roedd y briodas yn ddilyniant i'r gwersi addysg crefyddol ar ddathliadau a defodau. Diolch yn fawr i'r rhieni a ymunodd gyda ni, ac i'r Parchedig Gwenda Richards am arwain y gwasanaeth.

FFAIR LYFRAU. Cafwyd Ffair Lyfrau lwyddiannus iawn a gwerthwyd dros £300.00 o lyfrau yn ystod yr wythnos.

NOSWEITHIAU RHIENI. Cynhelir y nosweithiau hyn yn ystod yr wythnos yn cychwyn ar 19 Tachwedd.

LLIEINIAU SYCHU LLESTRI. Mae llieiniau sychu llestri yn dangos lluniau o holl blant yr ysgol ar werth am £3.00 yr un. Bydd yr elw yn mynd tuag at Gronfa'r Ysgol.

DYDDIADAU I'W CADW MEWN COF.

- Ffair Nadolig yn y Ganolfan ar 6 Rhagfyr;
- Cinio Nadolig ar 13 Rhagfyr;
- Sioeau Nadolig: nos Fawrth, 18 Rhagfyr.

Fandaleiddio Offer Ysgol

YSGOL WAUNFAWR

Trist iawn oedd gweld y sied ar y cae wedi cael ei difrodi gan fandaliaid ddiwedd yr wythnos ddiwethaf. Prynwyd y sied i gadw offer amser chwarae a chinio. Nid oeddym eto wedi cael cyfle i'w defnyddio. Digalon iawn yw meddwl bod rhywrai yn cael pleser o falu eiddo rhywun arall heb ddim rheswm o gwbl.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: (01286) 650291

Ar Agor
9-7 pm
9-5 pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

Dewis eang o Welyau a *3P/Suites*.
Llenni *Venetian* a Llenni *Roler*.
5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc – allwch chi fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR
•Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go lawn
Ffôn: 650218

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

CYNGERDD NADOLIG

Bydd y Cyngerdd Nadolig Blynyddol yn cael ei gynnal yn yr Oriel (Mynydd Gwefru), Llanberis, am 2.00 o'r gloch ar brynhawn Sul, 16 Rhagfyr. (Gweler yr hysbyseb ar dudalen 21 am fwy o fanylion).

CLWB BRO BETHEL. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Clwb yn ddiweddar o dan lywyddiaeth Goronwy Jones. Croesawyd pawb ynghyd a dymunwyd yn dda i ddau aelod o'r Clwb, sef Trefor a Nancy Williams, ar achlysur dathlu 60 mlynedd o fywyd priodasol. Tynnwyd sylw yr aelodau at noson lansio llyfr un o'r aelodau, sef y Prifardd Selwyn Griffith, a rhoddwyd gwahoddiad i unrhyw un i'r lansiad yn Neuadd Bethel nos Fawrth, 27 Tachwedd am 7.00 o'r gloch.

Y wraig wadd oedd Gwenllian Carr, Rheolwr Cenedlaethol Cymru Digital UK, a chafwyd ganddi sgwrs, gyda chymorth lluniau, ar y newid sydd yn cymryd lle ym myd teledu ar hyn o bryd. Mae'n effeithio pawb dros y wlad, a ninnau yn y cylch yma yn newid drosodd yn ystod 2009/10. Roedd ei neges yn glir – toes dim rhaid i neb boeni pan fydd y newid yn cymryd lle. Diolchwyd iddi gan Jenkin Griffiths. Man cyfarfod y mis nesaf fydd Gwesty'r Victoria, Llanberis, a'r cinio Nadolig.

CYMDEITHAS LENYDDOL. Cafwyd noson gartrefol braf y mis yma yng nghwmni Karen Owen ac, yn absenoldeb y Llywydd, Ieuan Williams, a oedd yn methu bod yn bresennol cymerwyd ei le gan Jenkin Griffiths.

Testun ei sgwrs oedd 'Yn fy lle' a bu'n trafod a darllen ei gwaith yn drwyadl a llwyddodd i gyflwyno gweithiau cynganeddol yn hollol naturiol. O dderbyn ganddi gefndir ei cherddi cyfoethogwyd gallu y gynulleidfa i werthfawrogi'r symbyliad o'i hysgrifennu. Noddwyd y noson gan yr Academi a diolchwyd yn gynnes iawn iddi gan Richard Lloyd Jones. Dathlu'r Nadolig fydd pawb yn y cyfarfod nesaf a hynny ar 18 Rhagfyr yn Festri Bethel.

EISTEDDFOD. Llwyddiannus iawn oedd hanes yr Eisteddfod yn ddiweddar gyda chystadlu brwd yn y tri chyfarfod – y noson dawnsio a chystadlaethau'r llwyfan bnawn a nos Sadwrn. Beirniadwyd y dawnsio gan Siân Harris, y gwaith Celf gan Wil Jones, y llefaru a'r llenyddiaeth gan Nona Breese, a'r gerddoriaeth gan Elfed Morgan Morris. Ar ran y Pwyllgor diolchodd Rita Williams, y Llywydd, i bawb a gefnogodd yr Eisteddfod, ac yn enwedig y plant a'r bobl ifanc, am eu hymroddiad i'r holl weithgareddau. Enillwyd tariannau fel a ganlyn:

Bebs Bethel: Dawnsio Disgo Cynradd; Fflur Hughes: Dawnsio Disgo Uwchradd; Andrea Morgan: Celf Cynradd; Dyfan Coles: Celf Uwchradd; Siôn Alun: Lleisiol Cynradd; Gwion Wyn: Piano Cynradd; Mari Tachwedd: Offerynnol Cynradd; Ceri Griffiths: Lleisiol Uwchradd; Siôn Elwyn: Piano Uwchradd; Siôn Elwyn: Offerynnol Uwchradd; Natalie Bragan: Llenor Cynradd; Iona Speake: Llenor Uwchradd.

DIOLCH. Hoffai Iona Williams, 25 Bro Eglwys, ddiolch i'w theulu, cymdogion a'i ffrindiau am yr holl gardiau, galwadau ffôn ac anrhegion a dderbyniodd tra bu yn yr ysbytai yn ddiweddar. Diolch i staff Ysbyty Gwynedd ac yn enwedig i rai Ysbyty Walton, Lerpwl, am y gofal arbennig a gafodd yno.

DIOLCH. Dymuna Sheila Roberts, Tan y Buarth, ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a chyfeillion am bob arwydd o gydymdeimlad yn ei phrofedigaeth o golli ei mam yn ddiweddar ac am y dymuniadau da yn dilyn ei arhosiad yn yr ysbyty wedi ei damwain.

DIOLCH. Dymuna Nancy a Trefor Williams, Rhos Lyn, ddiolch yn gynnes iawn i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y caredigrwydd arbennig iawn a gawsant ar ddathlu eu Priodas Ddiamwnt. Diolch am y blodau hardd, yr anrhegion, yr arian a'r holl gardiau a'r ymweliadau cyson. Rydym yn gwerthfawrogi hyn yn fawr.

LLONGYFARCHIADAU i Huw Alun Foulkes, Tyddyn Gwndwn, ar ei lwyddiant yn yr Wyl Gerdd Dant ym Mhontrhydfendigaid. Enillodd Huw y wobr gyntaf am yr Unawd Cerdd Dant oedran 16–21. Roedd Huw hefyd yn hyfforddi ac arwain Côr Aelwyd y Waen Ddyfal, Caerdydd, a ddaeth yn fuddugol yng nghystadleuaeth y corau Cerdd Dant.

CLWB CANT Y NEUADD GOFFA

Enillwyr Awst oedd: £40: (6) Enid Christie, 16 Y Ddôl, Bethel; £20: (137) Judith Jones, Gwelfor, Saron, Bethel; £10: (135) Gwilym Jones, Glanrhyd, Glanllyn, Bethel.

Enillwyr mis Medi oedd: £40: (128) Alan Ginsberg, Celtic House, Saron, Bethel; £20: (91) Ceris Williams, 1 Tan y Cae, Bethel; £10: (121) Jonathan Farrar, 7 Rhoslan, Bethel.

DIOLCH. Dymuna Natalie Bregan ddiolch yn gynnes iawn am yr holl ddymuniadau da a'r llongyfarchiadau a dderbyniodd yn dilyn ei llwyddiant yn ennill y Tlws Cynradd yn Eisteddfod Bethel.

MERCHED Y WAWR

Croesawodd Margaret Druce yr aelodau i gyfarfod Tachwedd o'r mudiad. Atgoffwyd yr aelodau am y Cwis Hwyl Cenedlaethol a gynhelir nos Wener, 23 Tachwedd yng Ngwesty'r Stablau, Llanwnda, am 7.30 o'r gloch. Bydd Anne Elis a Gwyneth Jones yn cadw'r sgôr ac fe gyhoeddir enw'r gangen fuddugol ar Radio Cymru y noswaith honno, oddeutu 10.15 o'r gloch.

Bydd y Prifardd Selwyn Iolen yn lansio'i hunangofiant (gyda chymorth rhai o Ferched y Wawr!) yn y Neuadd Goffa dan nawdd Gwasg y Bwthyn, Caernarfon, nos Fawrth, 27 Tachwedd am 7.00 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Cynhelir Cystadleuaeth Bowlio Deg Rhanbarth Arfon nos Wener, 18 Ionawr 2008. Fe fydd dau dîm o'r gangen yn cystadlu yng nghanolfan Glasfryn, Y Ffôr, Pwllheli, gyda chystadleuaeth y tri rhanbarth nos Wener, 22 Chwefror 2008.

Bydd cinio Nadolig y gangen yng Ngwesty'r Anglesey Arms, Porthaethwy, ar 14 Rhagfyr am 7 o'r gloch. Bydd y bws yn cychwyn o Gapel Cysegr am 6.15 o'r gloch ac yn galw yng Nghaernarfon ar ei ffordd.

Y mae rhai enwau wedi dod i law i fynychu cwrs ar ailgylchu (compostio) gyda Deio Jones, Cydlynydd Compostio Gwynedd, Porthmadog, rhywbryd ddechrau'r flwyddyn. Os oes mwy ohonoch â diddordeb i ymuno, rhowch eich enw i mi, Joyce Roberts, Y Felinheli, Ysgrifennydd y Gangen.

Cafodd rhai o aelodau'r gangen hwyl dda yn mynychu cwrs yn Nhregarth yn ddiweddar – rhai yn cynllunio cardiau Nadolig, eraill addurniadau coeden Nadolig ac eraill yn 'Tatio'. Treuliodd pawb ddiwrnod da iawn ynghyd â gwneud ffrindiau newydd.

Gosodwyd torch o Bapi Coch ar y gofeb ar Sul y Cofio gan Margaret Druce.

Dymunwyd pen-blwydd hapus i Edith Jones, Rhyd Menai, Caernarfon, a oedd yn dathlu pen-blwydd arbennig.

Croesawyd siaradwraig y noson gan ein Llywydd, sef Nerys Jones o'r Felinheli, a oedd yn trafod gemwaith a thlysau, ac fe arddangosodd beth o'i gwaith. Mae Mrs Jones wedi ymddangos ar y teledu gyda'r gemwaith ac mae hefyd yn arddangos yn Oriel Môn. Cafwyd noson ddifyr iawn yn ei chwmni ac fe brynwyd peth cynnyrch ar y noson. Diolchwyd iddi gan Ann Lewis. Diolchodd Ann hefyd i Rhian, Alys ac Edwina am y baned, yn enwedig mins peis blasus dros ben Edwina. Enillydd y raffl hefyd oedd Ann Lewis.

Ym mis Ionawr, byddwn yn ymuno â Tracy, Anwen a chriw Salsa, Caernarfon, pan fyddant yn arddangos dawn danwsio Salsa. Mae'n debyg y bydd angen ystwytho a cholli ychydig o bwysau arnom ni fel aelodau yn dilyn yr Ŵyl!

Dymunwn Nadolig Llawen i bawb o'r darllenwyr.

CERDDI ER BUDD ELUSEN.

I gyd-fynd â chipio cadair Eisteddfod Llanaelhaearn, mae Richard Llwyd yn cyhoeddi pamffled arall o gerddi ar gyfer y Nadolig. Mae'r pamffled yn cynnwys englynion, cywyddau a cherddi rhydd a gyfansoddwyd yn ystod 2007. Fel arfer bydd unrhyw elw a wneir yn cael ei drosglwyddo i elusen lleol. Eleni, bydd yr arian yn mynd at gronfa E.F.E. bro'r Eco, sy'n ceisio denu Gweithiwr Ieuenctid Cristnogol i'r ardal.Cost y bamffled yw £2.

Un o'r englynion yn y pamffled yw un i longyfarch Trefor a Nancy Williams, Stâd y Rhos, Bethel, ar ddathlu penblwydd Priodas Ddiamwnt yn ddiweddar.

I Trefor a Nancy

I chwi'ch dau, heddiw, mae chwe deg mlynedd;
y mae, 'leni, chwaneg
o aur Duw ar fodrwy deg
a dwy law'n un delyneg.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol Annibynnol

27 Stryd y Bont, Caernarfon

(01286) 672727

a hefyd ein swyddfa newydd

8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn, Parc Menai, Bangor

(01248) 355055

Dewch atom am gyngor ynghylch yswiriant a materion ariannol

Awdurdodir a rheolir gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

CERIS JONES

Teglan, Stâd Talybont

LLANRUG

677362

neu symudol

07979 620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo

MENAI SEWING MACHINE CENTRE

21 Stryd Fawr

PORTHAETHWY

Ffôn: **(01248) 714043**

neu **Caernarfon**

Ffôn: **(01286) 674520**

Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc

GWASANAETH LLEOL AR GYFER PARTÏON • PRIODASAU PEN-BLWYDD BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN

AR GYFER POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol
* Partïon rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON LLANRUG

Y DYN CIG ar 675190 / 673188

Ffôn symudol: 07798 718188

wefan: www.ydyncig.co.uk

EVAN JONES (gynt o Gartref Preswyl St Teilo, Bethel)
Yn 89 oed, bu farw Mr Evan Jones a oedd yn ddiweddar yn preswylio yng nghartref yr henoed, Plas Garnedd, Llanberis.

Yn enedigol o Ponciau, Brynteg, roedd yn briod i'r ddiweddar Anne Rosamund Jones a threuliodd lawer o flynyddoedd priodasol ym Moelfre a Llangefni. Symudodd i Fethel ac i gartref preswyl St Teilo a daeth yn ffrindiau da hefo llawer o bobol y pentref. Yn adeiladwr wrth ei waith, roedd yn mwynhau cerddoriaeth a bu yn aelod brwdfrydig o Gôr Meibion y Traeth am flynyddoedd.

Cynhaliwyd gwasanaeth cyhoeddus yn Amlosgfa Bangor a gwasanaethwyd gan y Parchedigion J.M. Job, M.W. Robinson a D.Ll. Hughes.

Cyrchwyd gan Iorwerth, John, Elwyn ac Ellis Wyn. Cafwyd eitem arbennig yn y gwasanaeth gan aelodau o Gôr y Traeth a cherdd o atgofion gan un o'i wyresau, Bethan Williams. Yr organyddes oedd MS Grace Pritchard.

Roedd blodau'r teulu gan: Elizsabeth a Iorwerth (merch a mab yng nghyfraith); Lowri, Bethan a Mared (wyresau); Marian a'r teulu (nith); Ann a John (nith a nai yng nghyfraith); Medwyn Lewis a Bill May.

Trefnwyd yr angladd gan Dylan Griffiths, Tros y Waen, Penisarwaun a derbynnir trwy ei law roddion yn ddiolchgar er cof tuag at Ward Alaw Ysbyty Gwynedd a Meddygfa Waunfawr.

Hoffai Elizabeth a Iorwerth a'r teulu ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd ac yn arbennig i Ms Annette Bryn Parri, Grace Pritchard a'r Côr am wireddu dymuniad ei thad.

Cynllun Efe

Mae pawb ohonom sy'n ymwneud â Chynllun 'Efe' yn ddiolchgar am y gefnogaeth ariannol a gafwyd hyd yma. Yr ydym yn falch iawn o'r brwdfrydedd sy'n dechrau dod i'r amlwg yn lleol o blaid cael gweithiwr ieuenctid Cristnogol i'r ardal. Ein bwriad bellach yw hysbysebu swydd y gweithiwr newydd yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Yr ydym yn ymwybodol o'r angen i Dduw ein harwain a'n bendithio gyda'r gwaith arbennig hwn. Y gobaith ar gyfer y cynllun yw y bydd y gweithgaredd yn help i ddod â newyddion da'r Efengyl i sylw pobl ifanc y fro. Bydd sicrhau gweithiwr arbennig i'n helpu gyda'r gwaith hwn o fantais mawr gobeithio. Bydd y gweithiwr newydd yn ein helpu i gyflwyno Iesu Grist i'r ieuenctid yn yr eglwysi, yn yr ysgolion ac yn y gymdogaeth. Trwy'r holl weithgareddau a drefnwn, byddwn yn anelu at helpu'r ieuenctid i sylweddoli bod Iesu Grist yn berson byw i'w garu a'i ddilyn. Byddwn yn chwilio am berson fydd yn awyddus i rannu ei ffydd â'r bobl ifanc a ddaw i gysylltiad â gwaith y cynllun.

Nid yw'r syniad o weithiwr ieuenctid Cristnogol yn newydd, wrth gwrs. Ar draws y wlad, mae gan lawer o eglwysi sy'n ffynnu eu gweithwyr ieuenctid eu hunain. Mae gan rai o'r enwadau hefyd eu gweithwyr ieuenctid mewn gwahanol ardaloedd. Ond Cynllun Efe fydd y cyfle cyntaf i ni yn y fro hon gael gweithiwr ieuenctid a fydd yn gwasanaethu eglwysi o wahanol enwadau. A'n gweithiwr ni yn y fro gymharol fechan hon, sef dalgylch *Eco'r Wyddfa*, fydd y gweithiwr newydd, a bydd hynny'n golygu y bydd yn gallu datblygu gwaith a meithrin perthynas gyda'r bobl ifanc.

Mae gennym Efengyl ar gyfer yr holl fyd, wrth gwrs. Ond yr hyn sydd tu cefn i'r cynllun hwn yw'r argyhoeddiad bod yr Efengyl honno yn newyddion da i fro'r *Eco* hefyd. Yn y cyfan a wnawn, fe gofiwn mai Efengyl i fro'r *Eco* fydd canolbwynt pob dim. Fe gofiwn hefyd, gobeithio, ein bod yn gwbl ddibynnol ar Dduw, yr 'Efe' mawr ei hun.

Mae'r gwaith o ffurfio elusen ar gyfer gweinyddu'r cynllun yn mynd yn ei flaen, ac mae'r canlynol wedi cytuno i fod yn ymddiriedolwyr: Mr Richard Lloyd Jones, Bethel; Mrs Mair Hughes, Llanrug; Mr Clive James, Caeathro; a'r Parchgn Robert Townsend a John Pritchard, Llanberis. Gobeithir cael un ymddiriedolwr arall. Bydd swyddogion presennol y cynllun yn parhau i ofalu am y gwaith, sef y Parchg Dafydd Hughes, Caernarfon (Cadeirydd); Mrs Susan Williams, Ceunant (Ysgrifennydd); a Mr Colin Jones, Llanberis (Trysorydd).

Yn naturiol byddwn yn eithriadol o falch o dderbyn unrhyw gyfraniad ariannol at y gwaith. Diolchwn i Richard Lloyd Jones, Bethel, sydd wedi argraffu llyfryn o'i gerddi diweddar, *Cerddi'r Prifio*, i'w gwerthu er budd y Cynllun. Mae'r llyfryn i'w gael gan Richard am £2 y copi. Ffoniwch (01248) 670115 am gopi.

JOHN PRITCHARD

DRAENOG

Gŵr o Ddeiniolen, oherwydd bod ei wraig yn ei gwely, yn meddwl mai gwell oedd ceisio helpu rhywfaint o gwmpas y tŷ. Gwelodd fod dillad wedi eu golchi ac angen eu rhoi allan i sychu ar y lein ddillad, ac aeth ymlaen i gyflawni'r weithred. Ond, yn anffodus, gadawodd ddrws y cefn yn agored ac achosodd fawr bryder i'w wraig druan, oherwydd daeth dafad ac oen i mewn i'r tŷ ac ymlaen â nhw i'r llofft. Pan welodd y ddafad ei llun yn y drych aeth yn wallgo a malu'r drych yn dipiau. Mae'n debyg bod cariad at y wraig wedi costio yn ddrud iawn.

Cofio

Dewch heddiw i gofio am Evan Poncia'
A gafodd fywyd llawn antur, hwyl a phrofiada'.
Er iddo fyw yng Ngwynedd, gŵyr pawb yn y bôn
Fod Evan Poncia' yn fachgen o Sir Fôn.

Roedd Evan Poncia yn un o dri
Ei frawd John a'i chwaer Nansi.
Yn nabod y ffęrm fel cefn ei law
Ac yn ei elfen yn y mwd a'r baw.

Dewch rŵan i gofio am Evan y gweithiwr,
Yn ddifrifol wrth ei waith ac yn chwip o blastrwr.
Pan âi i dŷ newydd, bydda fo'n deud yn ddi-ffael
'Tŷ bach neis ond ew, am blastro gwael!'

Awn ymlaen i gofio am Evan y gŵr
A ofalodd am Anne heb ffys na stŵr.
Siarad Cymraeg a Saesneg law yn llaw
Gan ddeud 'la lawn, Ann, I'm doing it now!'

Dwi am gofio yr Evan a oedd yn dad i mam.
Cannwyll ei lygaid, all Lis neud dim cam.
Yn ddiolchgar o'i gofal dros y blynyddoedd maith.
Gan ddeud, 'Ma hi'n dda 'fo fi,' wrth werthfawrogi ei gwaith.

Ac yn ola', cofiwch am Evan y taid
Yn garedig ac yn hael, pres pocas yn ddi-baid.
Wrth ei fodd yn brolio am bob llwyddiant a naid.
Lowri, Bethan a Mared – hoffwn ddiolch i chi, Taid.

Hoffwn ddiolch i chi gyd am ddod yma i gofio
Ac wrth ganu, i blesio Taid, cofiwch forio!
Ac i gloi – ar ôl heddiw, fe ddywed hen ffrind
'Ma' Evan Poncia' wedi mynd.'

BETHAN WILLIAMS (wyres)

Byddwch yn llawer gwell allan hefo Ni!

AUDI SEAT PORSCHE VOLKSWAGEN SKODA BMW PEUGEOT FIAT IMPORTS GERMAN SWEDISH

Y Dewis arall Dibynadwy i Wasanaeth Y Prif Ddeliwr. Beth bynnag rydych yn ei yrru, o Audi i VW...

Shell HELIX MOT 32

Ceir Benthyg AM DDIM

Cibyn Ind. Est., Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD
(01286) 673559 www.a-v-w.co.uk

AVW ADVANCED VEHICLE WORKSHOP Car Service BOSCH Service

VOLVO MERCEDES SAAB

Beth am brynu Tocyn Gwyliau yn anrheg y Nadolig yma?

ARVONIA

- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA
Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126
E-bost: info@arvonia.co.uk • Gwefan: www.arvonia.co.uk

Cyngor Cymuned Llanrug

Dyma grynodeb o gofnodion cyfarfod mis Hydref a gynhaliwyd yn y Sefydliad Coffa Llanrug.

Cyflwynwyd adroddiad ariannol cyfredol a diolchwyd i Goronwy Hughes am ei waith. Cadarnhawyd y cofnodion blaenorol yn gywir.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd Y Cyngh. D. Whiteside Thomas ac yn arbennig Mrs. Gwenllian Roberts, Swyddog Ailgylchu Gwynedd. Rhoddodd gyflwyniad tan gamp ar y gwaith a wneir ac a fwriedir ei wneud yn y dyfodol yng Ngwynedd. Yn ogystal â'r biniau presennol, gobeithir cael biniau bychain ar gyfer gwastraff cegin. Atgoffwyd ni fod gwefan '*free cycle*' yn ymdrin â dodrefn ayyb. Roedd yn annog pawb i ailgylchu aliwminiwm gan fod pris da i'w gael amdano. Mae gwasanaeth 'gwastraff swmpus' yn bodoli – gellir cael gwared hyd at bump eitem unwaith y flwyddyn. Mae modd cael ail gasgliad am £32.

Diolchwyd i Gwenllian am ei chyflwyniad diddorol a chynhwysfawr a gofynnwyd i'r clerc anfon gair i ddatgan gwerthfawrogiad y cyngor i bennaeth yr Adran yng Nghyngor Gwynedd

Pwyllgor Cynllunio Arfon

Wedi caniatáu y ceisiadau canlynol:

- adeiladu dau dŷ ar lain o dir cyfagod i Stryd Pool, Cwm y Glo;
- adeiladu un tŷ ar y tir ger Norfolk Villa, Llanrug.

Gwrthodwyd: cais ôl-weithredol yn Ty'n y Ffridd, Allt Goch Cwm y Glo.

Daeth y ceisiadau newydd canlynol gerbron:

- Dim gwrthwynebiad i ddymchwel adeilad ochr unllawr ac adeiladu estyniad deulawr yn Bodrual, Cibyn;
- cais amlinellol i adeiladu un tŷ a chreu mynedfa newydd yn Cadnant, 4 Tai Tan y Coed (ond mynegwyd pryder am lwybr yr afon fach ar y safle)

Gwrthwynebwyd:

- codi modurdy newydd yn 2 Rhes Tan y Coed – ac felly yn cadw ar y penderfyniad gwreiddiol gan fod y safleoedd hyn i fod i gael eu cadw yn agored;
- sied amaethyddol a chreu trac mynediad yn Hafod y Perthi, Pontrug, ar y sail y byddai allan o gymeriad yr ardal wledig, yn creu wyneb llechen galed newydd yng nghefn gwlad, yn adeilad rhy fawr. Hefyd gofynnwyd pam fod angen mynedfa arall i'r tŷ, fod un digonol eisoes yn arwain ato.

Mynegwyd pryder hefyd ar y cais yn Afon Rhos. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r Adran Gynllunio i gael eglurhad manwl a chlir ar y cais ac ar bolisi 4 Ng yn y Cynllun Lleol Arfon Wledig

Cafwyd cwynion fod gwartheg wedi gwthio eu ffordd i mewn i'r fynwent, a diolch i'r bobl hynny wnaeth ffonio'r clerc yn brydlon. Gwnaed y gwaith o drwsio a chryfhau y ffens yn brydlon iawn gan Mr. Hefin Pritchard a diolch o galon iddo am hynny.

Yn dilyn ymddiswyddiad Mair Lloyd Hughes, y clerc presennol, mae'r cyngor wedi apwyntio Mrs. Emma Williams, Llyfni, 22 Nant y Glyn, Llanrug, i'w holynu. Gan mai hwn fydd yr adroddiad olaf i mi ei ysgrifennu, mi hoffwn ddiolch i'r cynghorwyr am gael cydweithio yn hapus iawn gyda hwy am bron i dair mlynedd, ac am eu cefnogaeth barod bob amser.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 20fed o Dachwedd am 7 o'r gloch eto yn y Sefydliad Coffa yn Llanrug gan nad yw Ysgol Cwm y Glo ar gael.

Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI CELTIC *WINDOWS*

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG

(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



MYNYDD GWEFRU

Anrhegion a Nwyddau i'r teulu i gyd
Bwyd cartref ar gael trwy'r dydd
Oriel a Lluniau Cain ar werth

ORIAU AGOR
Ar agor 7 diwrnod yr wythnos.
Ar Gau rhwng y Nadolig ar Flwyddyn Newydd.

Am ragor o wybodaeth
ffoniwch: **01286 870636**

Y DEN
Ar agor 7 diwrnod yr wythnos gan gynnwys rhwng y Nadolig ar Flwyddyn Newydd.
(Defnyddiwch y drws ochr pan mae'r brif fynedfa ar gau)

Am ragor o wybodaeth
ffoniwch: **01286 873050**

Hoffem ddiolch i bobl Llanberis a'r cylch am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Hoffem hefyd ddiolch i'r mudiadau sydd yn cwrdd yma yn rheolaidd ac edrychwn ymlaen i'w croesawu yn ôl y flwyddyn nesaf.

Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Wefreiddiol i holl ddarllenwyr Eco'r Wyddfa.

CHWARAEON

Er cof am Ray Gravell

Heb gysgod rhag cawodydd – yn y rhew
neu yng ngwres yr hafddydd;
am einioes, Strade'r Mynydd,
ar y rhos rhed Gymro rhydd.

R.L.J.

MUNUD I FEDDWL

Fe fydd gwlad fach Croatia draw yn Sweden yn ystod yr haf ym Mhencampwriaethau Gwledydd Ewrop. Bydd Lloegr yn gobeithio y gellir ailsefydlu y Bencampwriaeth Brydeinig, i lenwi'r coffrau.

Cyflog Steve McClaren – cynreolwr Lloegr – oedd £2.5 miliwn y flwyddyn. Ar ben hyn mae'n siŵr y bydd 'compo' i'w ddigolledu am golli ei swydd. Cyflog Slaven Billic, rheolwr llwyddianus Croatia yw 20,000 ewro (tua £15,000) y flwyddyn.

Gwerth am arian – hwnna ydi o!

CODI CALON

Mae wedi bod yn anodd cadw'n bositif ynglŷn â phêl-droed Cymru ar y lefel uchaf yn ddiweddar.

Wrecsam a Chaerdydd mewn trafferthion, ond yr Elyrch â gobeithion er eu perfformiadau anghyson. Clywed, gyda llaw, efallai fod bwriad i sefydlu cangen o gefnogwyr y Jacks yn lleol.

Ar y cyfan siomedig oedd perfformiadau tîm Toshack yn y bencampwriaeth Ewropeaidd. Cafwyd ambell i fflach o heulwen, ond hefyd cymylau duon iawn draw yng Nghyprus a San Marino. Tipyn o amheuaeth a oedd y berthynas rhwng y rheolwr a'r garfan yn iachus.

Gall Toshack ddadlau fod anafiadau, gwaharddiadau a'r enigma o sut i drin Jason Koumas yn llesteirio'r datblygiad. Yna, ar ddiwedd y daith, dau berfformiad i godi calon.

Ar Barc Ninian – o flaen torf bitw o 250 – gwelwyd tim –21 yn chwalu'r Ffrancwyr profiadol o 4–2. (Tybed a welwn ni'r gemau'r oedran yma yn dod i stadiwm newydd Bangor?) Oed cyfartalog tîm Brian Flynn ar y noson oedd 19, gyda'r ieuengaf yn 16!

Dyma dîm i'w gadw gyda'i gilydd, a magu profiad yn y ffordd mwyaf ang-Nghymreig, sef ennill gemau. Yn rhyfeddol gellid ychwanegu chwech o'r garfan hŷn i gryfhau y tîm iau. Dyna benbleth braf i Flynn a Toshack.

Buasai cyrraedd y rowndiau terfynol yn hwb sylweddol i'r gêm yng Nghymru. A ddylid cynnwys y chwech, neu aros yn driw i'r 'cywion ifanc'? Er lles y timau cenedlaethol gobeithio fod yr ieuenctid yn denu sylw rhai o glybiau'r Prif Adran.

Tra yn trafod timau ieuenctid, llongyfarchiadau a diolch i Iolo Owen, yn wreiddiol o Lanberis, am ailgyfodi ac ailreoli tîm Ysgolion dan 18 Cymru. Ni fu nawdd yn y blynyddoedd diwethaf i gynnal y tîm. Roedd hyn yn siom, gan fod abwyd y 'cap' yn bwysig mewn oes ble mae nifer o'r gemau Ysgol yn drychinebus o isel.

Yn Frankfurt cafwyd perfformiad dewr a disglybiedig gan yr 'hogia mawr'. Llwyddodd Toshack i greu system gyfforddus oedd yn mygu'r Almaenwyr yng nghanol cae, ac yn galluogi Cymru i gadw meddiant o'r bêl am gyfnodau. Mae Joe Ledley yn datblygu ym mhob gêm, a dyma'n sicr gapten – yn null Garry Speed – yn y dyfodol. Gwantan ydym o flaen gôl o hyd, ond gobeithio y gall cyflymdra Bellamy a dawn pasio Koumas – os ar gael – leddfu tipyn ar y gwendid yma.

A oedd Toshack yn iawn i gael gwared o'r 'hen goesau', a rhoi ei ffydd yn natblygu'r ieuenctid? Yn sicr, yn Brian Flynn mae ganddo brofiad i weithio a magu hyder yn y deunydd crai. Ysgol ddrud yw Ysgol brofiad, ond amser a ddengys a ddaw y dyddiau o weld Stadiwm y Mileniwm yn llenwi unwaith eto yn ôl. Yr wyf i yn ffyddiog fod y cylch hwnnw, a ddaw bob hyn a hyn i'r gwledydd bach, ar y gorwel.

EIN TIMAU MABWYSIEDIG

Ym mro'r *Eco*, nid oes gennym dim criced, rygbi na phêl-droed merched, ar wahân i dimau Ysgol. Ar gyfer y ddwy gamp olaf rydym yn troi i gyfeiriad timau Caernarfon, sy'n cynnwys nifer o aelodau o fro'r *Eco*. Mae hyn yn wir hefyd am dimau hoci y Dre'.

Ar hyn o bryd mae'r timau yma yn cael cyfnod llwyddiannus. Y gyfrinach yn sicr yw buddsoddi mewn datblygu hyfforddwyr trwyddedig i weithio gyda thimau ieuenctid y clybiau. Mae hyn yn meithrin perthynas glos rhwng ysgolion fel Syr Huw a Brynrefail gyda chlybiau'r dre.

Yn ddiddorol, yn fy maes i o griced gwelwyd dirywiad sylweddol yn y nifer o glybiau dros yr 10 mlynedd diwethaf. Mae hyn yn wir yn yr ardaloedd gwledig. Y timau sydd wedi datblygu yw'r clybiau a fuddsoddodd ym meithrin adrannau ieuenctid eu clybiau.

Daliodd un enw fy sylw y penwythnos diwethaf. Tra roedd Marcus Orlik yn sgorio gôl dyngedfennol i Port draw yn Llanelli, roedd ei chwaer, Aisla, yn seren y gêm welodd dîm Caernarfon yn chwalu Aberystwyth 10–1, a chyrraedd trydedd rownd Cwpan Cymru i Ferched. Gyda llaw, braf gweld fod cyn gymaint o dîm y Cofis yn ennill capiau cenedlaethol.

Apêl felly i'n timau mabwysiedig. Gadewch i mi wybod am unrhyw gyfraniadau gan aelodau o Fro'r *Eco*.

(yn sefyll, o'r chwith): E. Williams, Robert O. Thomas, Goronwy Owen, John Murray, Johnnie Williams, John Harris, Meirion Owen, Rol Roberts, Now Jones, Bobby Woodcocks, Aled Jones, Richard Jones, W. David Jones, Griffith Peris Roberts, Selwyn Williams, Dafydd Jones, Idwal Jones.
(yn eistedd): Gordon Davies, Griffith Pleming, Stanley H. Roberts, Arthur Owen, Eric Pritchard.
9Blaen): Tom Williams, Jackie Davies, Owie Foulkes Williams, Eurwyn Parry, Gwenlyn Parry, Eban Griffith, Dennis Evans, Gwilym Hughes, Elwyn Jones, Bobby Grindley. LLUN GAN JACKIE LEWIS

Daeth ymateb i apêl Eifion Roberts o Lanberis am hen luniau o fyd y campau ym mro'r Eco. Diolch i Jackie Davies o Ddeiniolen, cafwyd darlun o dîm snwcer Deiniolen tua diwedd y 40'au neu ar ddechrau'r 50'au. O weld y nifer o ddynion yn y llun, tybed os mai llun o'r aelodaeth sydd yma? Tynnwyd y llun tu allan i'r hen glwb Crosville yng Nghaernarfon. Ai yno i gefnogi rhyw gêm bwysig oeddent, neu ddathlu pencampwriaeth? Oes rhywun yn cofio? Braf bod enw pob un gyda'r darlun. Mae'n siŵr fod ambell i dalent yn eu mysg. Yn sicr, gwnaeth y Gwenlyn Parry ifanc yn y rhes flaen ei farc ar lwyfanau Cymru.



Perchnogion Newydd!
yn parhau'r traddodiad gwych
WAVELL'S
Bryn ac Angela Williams
London House, LLANRUG
Ffôn:
(01286) 673574
PEN CIGYDDION Y FRO
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!